RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
4/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
27/01/2023

# Gwerthusiad o Gaeaf Llawn Lles

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-333-1

Teitl: Gwerthusiad o Gaeaf Llawn Lles 2021-2022

Awdur(on): Erica Bertolotto, Jenny Williams, Catherine Goddard, Helen Main, Gabriela Freitas, Tave Browett a Katharine McKenna

Adroddiad Ymchwil Llawn: Bertolotto, E., Williams, J., Goddard, C., Main, H., Freitas, G., Browett, T., McKenna, K. (2022). Gwerthusiad o Gaeaf Llawn Lles. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad 04/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gaeaf-o-les-rhaglen-gwerthusiad

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion
Adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr ffigurau ....................................................................................................2

Cydnabyddiaeth ....................................................................................................4

Rhestr termau ....................................................................................................5

Prif ddeilliannau Gaeaf Llawn Lles 2021-22 ....................................................................6

1. Cyflwyniad ....................................................................................................8

2. Methodoleg ....................................................................................................12

3. Canfyddiadau allweddol ....................................................................................17

4. Dyluniad y rhaglen ....................................................................................................19

5. Cynllunio lleol ....................................................................................................30

6. Cyflwyno ....................................................................................................43

7. Profiadau plant a phobl ifanc ....................................................................................59

8. Dysgu a chynaladwyedd ....................................................................................71

9. Deilliannau ....................................................................................................76

10. Argymhellion ....................................................................................................88

Adran gyfeiriadau ....................................................................................................91

Atodiad A Offerynnau cywain data ....................................................................................92

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 1. Dosbarthiad daearyddol darparwyr a ariannwyd gan GLlLl (llinyn ALl a Sefydliad Cenedlaethol) .......... 25
Ffigur 2. Logos Gaeaf Llawn Lles .......... 28
Ffigur 3. Gweithgareddau a gynigiwyd gan ddarparwyr .......... 45
Ffigur 4. Lle y cyflwynwyd gweithgareddau gan ddarparwyr .......... 47
Ffigur 5. Sut y teithiodd cyfranogwyr i weithgareddau .......... 48
Ffigur 6. Math o ddarparwr .......... 52
Ffigur 7. Boddhad darparwr ar y cymorth a dderbyniwyd gan yr arweinydd llinyn GLlLl .......... 54
Ffigur 8. Boddhad darparwyr ar yr hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru (y cant) .......... 55
Ffigur 9. Argaeledd darpariaeth .......... 56
Ffigur 10. Ysgogiadau plant a phobl ifanc i fynychu GLlLl .......... 60
Ffigur 11. Y person a benderfynodd y dylai plentyn gymryd rhan mewn GLlLl .......... 63
Ffigur 12. Gweithgareddau y cymerodd plant a phobl ifanc ran ynddynt .......... 66

**Rhestr tablau**

Tabl 1. Braslun o'r adroddiad ........ 7
Tabl 2. Dulliau a sampl a gyflawnwyd ........ 12
Tabl 3 Cyllid cyfartalog fesul ALl ac yn gyffredinol ........ 22
Tabl 4. Dadansoddiad oedran o gyfranogwyr GLILI ........ 43
Tabl 5. Sut y clywodd cyfranogwyr am GLI, fesul grŵp oedran (canrannau) ........ 60
Tabl 6. I ba raddau y gwnaeth GLILI helpu cyfranogwyr i dreulio mwy o amser allan o'u tŷ, fesul rhywedd ........ 61
Tabl 7. I ba raddau y gwnaeth GLILI helpu cyfranogwyr i dreulio mwy o amser allan o'u tŷ, fesul statws anabledd ........ 62
Tabl 8. Mwynhad cyfranogwyr o GLILI, fesul oedran ........ 64
Tabl 9. Mwynhad cyfranogwyr o GLILI, fesul rhywedd ........ 64
Tabl 10 Mwynhad cyfranogwyr o GLILI, fesul ethnigrwydd ........ 65
Tabl 11. Mwynhad cyfranogwyr o GLILI, fesul cyflwr iechyd hir dymor ........ 65
Tabl 12. Gweithgareddau y cymerodd plant a phobl ifanc ran ynddynt, fesul oedran ........ 67
Tabl 13. Gweithgareddau y cymerodd plant a phobl ifanc ran ynddynt, fesul rhywedd ........ 68
Tabl 14. I ba raddau y cafodd cyfranogwyr hwyl, fesul rhywedd ........ 76
Tabl 15. I ba raddau y dysgodd cyfranogwyr GLILI rywbeth newydd, fesul statws anabledd ........ 80
Tabl 16. I ba raddau y rhoddodd cyfranogwyr GLILI gynnig ar rywbeth newydd, fesul rhywedd ........ 81
Tabl 17. I ba raddau y rhoddodd cyfranogwyr GLILI gynnig ar rywbeth newydd, fesul statws anabledd ........ 81
Tabl 18. I ba raddau y gwnaeth GLILI helpu cyfranogwyr i fod yn fwy egnïol, fesul rhywedd ........ 83
Tabl 19. I ba raddau y gwnaeth GLILI helpu cyfranogwyr i fod yn fwy egnïol, fesul statws anabledd ........ 83

**Cydnabyddiaeth**

Hoffai tîm ymchwil Ecorys ddiolch i'r Tîm Ymchwil Ysgolion yn Llywodraeth Cymru am eu harweiniad trwy gydol y gwerthusiad.

Rydym hefyd yn diolch i'r holl uwch randdeiliaid, arweinwyr Gaeaf Llawn Lles, darparwyr, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr a roddodd yn garedig o'u hamser i gefnogi'r gwerthusiad a chymryd rhan ynddo. Hebddynt, ni fuasai modd cynnal y gwerthusiad hwn.

Rydym hefyd yn diolch i dîm cyfan Ecorys a gefnogodd ac a gyflwynodd weithgareddau gwerthuso: Tave Browett, Gabriela Freitas, Valdeep Gill, Catherine Goddard, Julia Griggs, Joel Hooper, Helen Main, Martin Manuch, Brendan Parker, Jenny Williams, ac Erica Bertolotto. Rhoddodd Jane Nicholas a Kelly Davies, Swyddogion Ecorys, gefnogaeth wrth gyflwyno'r gwerthusiad ac arwain gweithgareddau iaith Gymraeg. Goruchwyliodd Katharine Mckenna gyflwyniad y gwerthusiad, gan sicrhau ansawdd drwyddi draw.

**Rhestr termau**


| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| PPI | Plant a Phobl Ifanc |
| LCA | Lwfans Cynhaliaeth Addysg |
| ESOL | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill |
| AB | Addysg Bellach |
| PYaDd | Prydau Ysgol am Ddim |
| AU | Addysg Uwch |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| SBA | Sgiliau Byw'n Annibynnol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| GR | Gwybodaeth Reoli |
| HoH | Haf o Hwyl |
| CA | Cynorthwy-ydd Addysgu |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| GLlLl | Gaeaf Llawn Lles |

# Gaeaf Llawn Lles 2021-22 prif ddeilliannau




## **95%** o blant a phobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael **hwyl**

Cymerodd plant a phobl ifanc ran mewn **amrywiaeth eang o weithgareddau**:




Adroddodd plant a phobl ifanc amrywiaeth o **fuddion o gymryd rhan**:




Ffynhonnell: Arolwg cyfranogwyr. Sylfaen (gweithgareddau)=2513; Sylfaen (buddion)=3601-3549, dim ond y rhai 12+ oed a ofynnwyd am reoli iechyd meddwl, sylfaen=627.

Crynhoir cynnwys yr adroddiad hwn yn y tabl isod.

**Tabl 1. Braslun o'r adroddiad**

| | |
|---|---|
| **Pennod 1** | Cyflwyniad |
| **Pennod 2** | Yn amlinellu'r **fethodoleg** werthuso |
| **Pennod 3** | Yn amlinellu **canfyddiadau allweddol** |
| **Pennod 4** | Yn archwilio **dyluniad y** rhaglen GLILI |
| **Pennod 5** | Yn archwilio sut y **cynlluniodd** arweinwyr llinyn GLILI |
| **Pennod 6** | Yn adrodd ar sut y **cyflwynwyd** y rhaglen |
| **Pennod 7** | Yn adrodd ar **brofiadau plant a phobl ifanc** |
| **Pennod 8** | Yn archwilio ystyriaethau o ran **cynaladwyedd** a **gwersi a ddysgwyd** |
| **Pennod 9** | Yn archwilio **deilliannau a manteision cyffredinol GLILI** |
| **Pennod 10** | Yn cyflwyno **argymhellion** sy'n deillio o'r ymchwil |

# 1. Cyflwyniad

1.2 Ers mis Mawrth 2020, mae plant a phobl ifanc wedi colli allan ar fynediad at gyfleoedd chwarae a hamdden, chwaraeon, diwylliant ac addysg hanfodol oherwydd y pandemig COVID-19. Maent wedi ymdrin â heriau lluosog, o ynysu oddi wrth gyfoedion i addasu i ddysgu o adref. Dangosodd arolwg cenedlaethol a redwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ym mis Ionawr 2021 (Coronafeirws a Fi) fod 14 y cant o blant 7-11 oed a 40 y cant o bobl ifanc 17 oed yn teimlo'n unig 'y rhan fwyaf o'r amser' (Comisiynydd Plant Cymru, 2021). Adroddodd yr ymatebwyr am golli eu ffrindiau a'u teulu, a rhwystredigaeth am golli allan ar brofiadau. Canfu arolwg gan YoungMinds (YoungMinds, 2021) i 67 y cant o bobl ifanc 13–25 oed gredu y bydd y pandemig yn cael effaith negyddol hirdymor ar eu hiechyd meddwl. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith y rhai oedd wedi cael profedigaeth neu a gafodd brofiadau trawmatig yn ystod y pandemig, a'r rhai oedd yn pryderu a fyddai modd ailgydio mewn cyfeillgarwch ag eraill. Dywedodd ymatebwyr i'r ddau arolwg iddynt deimlo'n bryderus am golli addysg a'u cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

1.0 Mae llai o fynediad at gyfleusterau diogel, gan gynnwys ysgolion, wedi effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol, lles meddyliol a dysgu plant a phobl ifanc. Er y bu effaith ar yr holl blant a phobl ifanc, mae'r pandemig a'r cyfyngiadau wedi cael effeithiau penodol ar y rhai a oedd eisoes o dan anfantais. Yn benodol, plant sy'n derbyn gofal, y rhai mewn teuluoedd lle ceir pryderon sylweddol ynghylch amddiffyn plant a phobl anabl (King's College, Llundain, 2022). Mae wedi cael effaith andwyol ar y rhai o gymunedau a chefndiroedd tlotach ac ar blant o deuluoedd y nodwyd yn flaenorol bodd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt, e.e. plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

1.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun adfer Adnewyddu a Diwygio i ymdrin â'r pryderon cynyddol hyn, gyda ffocws penodol ar gefnogi lles a chynnydd dysgu plant a phobl ifanc. Trwy gydnabod bod y pandemig wedi effeithio ar unigolion yn wahanol, fe gynigiodd ymagwedd gyfannol at gefnogi'r holl blant a phobl ifanc i gyflawni'r deilliannau gorau (Llywodraeth Cymru, 2021). Fel rhan o'r cynllun, lansiwyd y rhaglen Haf o Hwyl (HoH) (2021), er mwyn i blant a phobl ifanc 0-25 oed chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a

diwylliannol. Nododd y gwerthusiad o HoH fod y gweithgareddau wedi cefnogi adferiad plant a phobl ifanc yn sgil y pandemig ac ailgysylltu â'u cymuned leol. Adroddodd y plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithgareddau HoH eu bod wedi cael hwyl ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ailgysylltu â chyfoedion, a oedd yn ei dro yn cefnogi datblygiad eu sgiliau personol a chymdeithasol. Fe wnaethant hefyd adrodd am welliannau i'w lles corfforol a meddyliol (Llywodraeth Cymru, 2021).

1.2 Adeiladodd Gaeaf Llawn Lles (GLlLl) ar lwyddiant HoH, trwy becyn gwerth £20m o gyllid lles gan Lywodraeth Cymru. Y nod oedd cefnogi plant a phobl ifanc trwy ddarparu'r gofod a'r amser ar gyfer chwarae a hamdden drwy:

- gynhyrchu mentrau rhyngweithiol, creadigol a chwarae/seiliedig ar hamdden yn y gymuned ar gyfer pob oedran;
- darparu cyfleoedd i chwarae/treulio amser gyda ffrindiau a chyfoedion;
- creu gofod a chyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd a gweithgarwch corfforol.
- cefnogi eu hwyl a'r cyfle i fynegi eu hunain drwy chwarae a hamdden;

1.3 Nod GLlLl oedd rhoi cyfle i bob plentyn a pherson ifanc 0-25 oed yng Nghymru gael mynediad i weithgareddau am ddim, gan gynnwys cyfleoedd i chwarae ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, adloniant, chwaraeon a diwylliannol, yn ychwanegol at (ac nid yn lle) ddarpariaeth gofal plant wedi'i rheoleiddio, ac addysg ffurfiol. Ystyrir bod mynediad i'r mathau hyn o weithgareddau'n hollbwysig wrth ymadfer yn sgil COVID-19 er mwyn cefnogi lles cymdeithasol, emosiynol, corfforol a meddyliol yr holl blant a phobl ifanc. Yn ei dro, mae hyn yn rhan annatod o gefnogi plant a phobl ifanc i ailgydio mewn dysgu ac addysg yn sgil y pandemig, gan alluogi nhw i gyrraedd eu llawn botensial.

1.4 Cyflwynwyd GLlLl drwy bum llinyn o weithgareddau, yn seiliedig ar y sefydliadau y dosbarthwyd cyllid GLlLl iddynt. Roedd y sefydliadau a ganlyn yn gyfrifol am gyflwyno gweithgareddau GLlLl (sydd wedi'u disgrifio'n fanwl ym Mhennod 3):

- Awdurdodau lleol (ALl), wedi'u cyflwyno'n bennaf drwy arweinwyr Chwarae a chan barhau â gwaith HoH;
- Sefydliadau cenedlaethol, wedi'u cyflwyno gan Chwaraeon Cymru, Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, Urdd Gobaith

Cymru, Amgueddfa Cymru, a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru.

- Ysgolion, gyda chyllid wedi'i neilltuo i bron pob un ysgol gynradd ac uwchradd (1463) ar draws Cymru.
- Sefydliadau Addysg Bellach (AB), gyda chyllid wedi'i ddyrannu i 13 o sefydliadau.
- Darparwyr Addysg Uwch (AU)[1], gyda chyllid wedi'i ddosbarthu i 11 o ddarparwyr addysg uwch drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

1.5 Dyrannwyd cyllid ar gyfer y llinyn addysg uwch i CCAUC, sef corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyllido a rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru. Dosbarthodd CCAUC gyllid y Gaeaf Llawn Lles drwy ei fecanweithiau arferol i bob darparwr addysg uwch a ariennir yn uniongyrchol yng Nghymru (wyth prifysgol a thri choleg AB). Anogwyd darparwyr addysg uwch i nodi gweithgareddau i'w cyllido mewn saith maes â blaenoriaeth sy'n adeiladu ar strategaethau lles ac iechyd presennol, gan gynnwys iechyd meddwl, er mwyn helpu i sicrhau'r effaith fwyaf posib o'r cyllid. Roedd yn ofynnol i ddarparwyr weithio gydag undebau eu myfyrwyr i bennu sut y byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i wireddu amcanion GLILI. Cyflwynodd y darparwyr adroddiadau monitro i CCAUC ym mis Ebrill 2022, a defnyddiwyd y rhain i ddarparu adroddiad i dîm noddi CCAUC yn Llywodraeth Cymru. Oherwydd y ffordd wahanol y rheolwyd y llinyn addysg uwch gan gynnwys y trefniadau a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer monitro, nid yw'r llinyn addysg uwch wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gwerthuso hwn. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr adroddiad gwerthuso ar wahân (W21/39HE) neu gellir gofyn amdano gan info@hefcw.ac.uk.

**Amcanion y gwerthusiad**

1.5 Nod y gwerthusiad hwn oedd asesu rhaglen GLILI 2022, sut y cafodd ei gweithredu, deilliannau canfyddedig i blant a phobl ifanc yn ogystal â dysgu a fydd yn cyfeirio polisi ac arfer yn y dyfodol. Yn benodol, yr amcanion oedd:

- Mapio sut y trefnwyd modelau cyflwyno Awdurdodau Lleol, cyrff cenedlaethol, ysgolion ac Addysg Bellach a sut y maent yn amrywio.

[1] Noder nad oedd y llinyn AU yn rhan o'r gwerthusiad hwn. Roedd CCAUC yn gyfrifol am werthuso'r llinyn AU.

- Archwilio effeithiau cymryd rhan o safbwynt plant a phobl ifanc, eu teuluoedd, a'u darparwyr.
- Darparu dealltwriaeth o'r hyn sy'n galluogi ac yn cymell plant a phobl ifanc i fynychu'r gweithgareddau, yn ogystal â'r rhwystrau allweddol i'w cyfranogiad.
- Amlinellu y ffactorau dylanwadu a'r rhwystrau i gymryd rhan ar gyfer rhieni/gofalwyr.
- Ystyried effeithlonrwydd prosesau gweinyddu a gweithredol, yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn nad oedd yn gweithio'n dda.
- Adolygu sut mae arweinwyr a darparwyr llinyn wedi ystyried cyfle cyfartal, hygyrchedd, a hyrwyddo a/neu gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phob un o'r amcanion hyn yn y penodau a ganlyn.

## 2. Methodoleg

2.0 Cyflawnwyd ymchwil sylfaenol ac eilaidd fel rhan o'r gwerthusiad proses dulliau cymysg hwn o GLILI, rhwng misoedd Chwefror a Gorffennaf 2022. Dangosir y dulliau, y grwpiau cyfranogwyr a'r sampl a gyflawnwyd yn y Tabl isod.

**Tabl 2. Dulliau a sampl a gyflawnwyd**

| Grŵp cyfranogwyr | Sampl a gyflawnwyd | Dull | Diben |
|---|---|---|---|
| **Uwch randdeiliaid** Swyddogion Llywodraeth Cymru/ partneriaid cenedlaethol | 10 | Cyfweliad ansoddol | Darparu cyd-destun y rhaglen, sut y bwriadwyd ei chyflwyno |
| **Arweinwyr Llinyn** | | | Ymchwilio i sut y cyflwynwyd rhaglenni'n lleol, yr hyn a ddysgwyd a deilliannau canfyddedig |
| • ALI | 21 | Cyfweliad ansoddol | |
| • Cyrff cenedlaethol | 9 | Cyfweliad ansoddol | |
| • Ysgolion | 14 | Cyfweliad ansoddol | |
| • Sefydliadau AB | 8 | Cyfweliad ansoddol | |
| **Darparwyr** | 496 | Arolwg ar-lein | Cywain barn a phrofiadau rheolwyr a staff fu'n darparu gweithgareddau GLILI |
| **Cyfranogwyr y rhaglen** | | | Cywain barn a phrofiadau pobl fu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau GLILI |
| Plant, pobl ifanc a theuluoedd | 2813 | Arolwg ar-lein (pob llinyn) | |
| • ALI | 9 | Grwpiau ffocws[2] | |
| • Cyrff cenedlaethol | 6 | Grwpiau ffocws | |
| • Ysgolion | 9 | Grwpiau ffocws | |
| • AB | 4 | Grwpiau ffocws | |
| **Bord gron** Arweinwyr llinyn a rhanddeiliaid LIC | 32 | Bord gron rithwir | Cyflwyno canfyddiadau cynnar a chyd-ddatblygu casgliadau ac argymhellion |

[2] Roedd nifer y rhai a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws yn amrywio rhwng 5 a 10

**Recriwtio cyfranogwyr ac ystyriaethau moesegol**

2.1 Ceir copi o ddeunyddiau cywain data yn Atodiad A. Paratowyd yr holl offerynnau cywain data yn Gymraeg a Saesneg ar ôl cytuno ar y fersiynau terfynol gyda Llywodraeth Cymru. Cynigiwyd cyfweliadau ac arolygon ansoddol yn Gymraeg ac yn Saesneg: cwblhawyd un cyfweliad ag uwch randdeiliad, un cyfweliad ag arweinydd mewn ALl ac un grŵp ffocws plant a phobl ifanc (llinyn AB) yn Gymraeg; Cwblhawyd 186 o arolygon gan gyfranogwyr ac 41 gan ddarparwyr yn Gymraeg hefyd.

2.2 Darparodd Llywodraeth Cymru gyfeiriadau e-bost uwch randdeiliaid ac arweinwyr llinyn i'r tîm ymchwil. Ar ôl e-bost cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, gwahoddodd y tîm ymchwil ddarpar gyfranogwyr i gymryd rhan mewn cyfweliad, gan anfon hyd at ddau nodyn atgoffa. Anfonwyd hysbysiadau preifatrwydd at y rhai y cyfwelwyd â hwy cyn y cyfweliad, a gwiriodd yr ymchwilydd a oedden nhw'n eu deall cyn dechrau'r cyfweliad.

2.3 Yn ystod cyfweliadau gydag arweinwyr llinyn, gofynnodd y cyfwelwyr am fanylion cyswllt darparwyr a allai fod yn barod i helpu trefnu grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc. Cysylltwyd â darparwyr y rhannwyd eu manylion, ynglŷn â threfnu grwpiau ffocws ac anfonwyd hyd at ddau nodyn atgoffa. Cynhaliwyd cyfweliadau â phlant a phobl ifanc dan 16 oed gydag oedolyn yn bresennol yn yr ystafell (e.e., staff y darparwr). Cyn dechrau cyfweliad, gwiriodd yr ymchwilydd fod cyfweleion yn deall beth oedd natur y cyfranogiad a'u bod eisiau cymryd rhan.

2.4 Rhannodd y tîm ymchwil dolenni i'r arolygon ar-lein ag arweinwyr llinyn i'w hanfon ymlaen at ddarparwyr i'w cwblhau (arolwg darparwyr) a'u lledaenu (arolwg cyfranogwyr). Gofynnwyd i gyfranogwyr y rhaglen (neu mewn rhai achosion eu rhieni/gofalwyr) gwblhau'r arolwg gan ddarparwyr yr oeddent yn eu hadnabod ac yn gweithio gyda nhw.

**Cywain, rheoli a dadansoddi data**

2.5 Hwyluswyd yr holl drafodaethau ansoddol gyda chymorth canllawiau pwnc lled-strwythuredig ac fe'u cynhaliwyd o bell dros MS Teams. Cafodd pob cyfweliad ei recordio a'i drawsgrifio'n awtomatig. Defnyddiwyd y trawsgrifiadau i gofnodi data'r cyfweliad o dan y penawdau a'r is-benawdau thematig cytunedig. Cafodd yr holl

ddata ansoddol ei gofnodi a'i brosesu yn Excel. Roedd hyn yn cynnwys codio cychwynnol a thagio'r data gan ddefnyddio ffrâm godio gytunedig. Ar ôl i ddata ansoddol gael ei codio, cynhaliwyd cam dadansoddi eilaidd fu'n galluogi dadansoddi thematig yn erbyn cwestiynau ymchwil y gwerthusiad.

2.6 Dadansoddwyd gwybodaeth reoli (GR) yn ymwneud â dosbarthu cyllid yn Excel a chynhyrchwyd map gwres[3] o'r sefydliadau a ariannwyd. Gwnaed dadansoddiad o ddata'r arolwg meintiol yn Excel hefyd. Cafodd y data ei lanhau cyn rhedeg ystadegau disgrifiadol (amlderau) i archwilio allbynnau a deilliannau'r rhaglen.

2.7 Yna cafodd y deilliannau ar draws gwahanol randdeiliaid a dulliau cywain data eu triongli drwy gymharu canfyddiadau'n thematig i ymdrin â phob amcan ymchwil, ar draws cyfweliadau ac arolygon ansoddol. Roedd hyn yn caniatáu archwilio'r canfyddiadau ar draws grwpiau cyfranogwyr a dadansoddi i ba raddau yr oedd cytundeb ar draws pob thema.

**Ystyriaethau o ran data**

2.8 Gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith cywain data rhwng misoedd Ebrill a Gorffennaf 2022, ar ôl diwedd y ddarpariaeth GLILI (a gyflwynwyd rhwng misoedd Hydref 2021 a Mawrth 2022), gan isafu gallu'r tîm ymchwil i gyrraedd darparwyr a chyfranogwyr GLILI. Bu i hyn achosi problem bosib o ran yr hyn yr oedd cyfranogwyr yr ymchwil yn ei gofio.

2.9 Roedd y cyfraddau ymateb i'r arolygon darparwyr (n=496) a chyfranogwyr (n=2,813) yn ddigonol i gynhyrchu canfyddiadau cryfion. Fodd bynnag, roedd amseru'r gwerthusiad, a'r beichiau posib ar ddarparwyr yn golygu nad oedd modd cywain gwybodaeth gywir am ddemograffeg cyfranogwyr, gan olygu nad yw'n bosib nodi a yw'r sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli pob llinyn yn llawn.

2.10 Nid oedd modd ychwaith ymchwilio i brofiadau plant/pobl ifanc a rhieni/gofalwyr y byddent wedi elwa o gymryd rhan, na fu iddynt gymryd rhan, nac i ymchwilio i'r mathau o ddarpariaeth y byddai gwahanol linynnau a lleoliadau wedi hoffi eu cynnig, na allent eu cynnig.

---

[3] Mae map gwres yn dechneg delweddu data sy'n dangos maint ffenomenon (yn yr achos hwn, sefydliadau sy'n derbyn cyllid GLILI) fel lliw, gan ddarparu awgrymau gweledol am sut mae'r ffenomen yn amrywio dros y gofod.

2.11 Yn y lle cyntaf, datblygwyd sampl fu'n seiliedig ar gyfnod ysgol, swm y cyllid a ddyfarnwyd, statws Prydau Ysgol Am Ddim (PYaDd), ac a oedd yr ysgol yn gyfrwng Cymraeg er mwyn dewis arweinwyr ysgol GLlLl i gymryd rhan mewn cyfweliadau. Er hynny, roedd recriwtio ysgolion drwy'r manylion cyswllt a ddarparwyd yn y lle cyntaf yn gyfyngedig, i raddau helaeth oherwydd i e-byst fownsio’n ôl, neu gan nad oedd cyfeiriadau e-bost generig ysgolion o bosib yn cael eu codi gan yr aelod staff priodol. Felly, rhoddodd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru fanylion cyswllt ysgolion yr oedd ganddynt gysylltiadau uniongyrchol â hwy oherwydd cyswllt blaenorol mewn perthynas â GLlLl, a chytunodd llawer ohonynt i gymryd rhan mewn cyfweliadau. O ganlyniad i hyn cynhaliwyd llai o gyfweliadau gydag arweinwyr ysgolion nag a gynlluniwyd yn wreiddiol (cwblhawyd 14 o'i gymharu â tharged o 30), ac felly mae'n bosib y bu rywfaint o duedd gan i ysgolion â mwy o ddiddordeb gymryd rhan yn yr ymchwil.

2.12 Y gobaith yn wreiddiol oedd y gallai data GR a gasglwyd gan ddarparwyr gael ei defnyddio i ddarparu ffigwr ar gyfer cyfanswm y cyfranogwyr GLlLl. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi profi'n bosib, yn bennaf oherwydd diffyg cysondeb yn y dull o gofnodi'r wybodaeth. Yn benodol, roedd anghysondebau yn nulliau cofnodi gwybodaeth y darparwyr, er enghraifft, cofnododd rhai darparwyr gyfranogwyr unigryw, a chofnododd eraill sesiynau unigol a fynychwyd. Roedd symiau cyllido hefyd i'w gweld yn cael eu cofnodi sawl gwaith, gan ei gwneud yn amhosib pennu'n hyderus a ddarparwyd symiau union yr un fath o gyllid i sawl lleoliad, neu a ddefnyddiwyd y symiau a nodwyd i gyllido gweithgareddau mewn gwahanol leoliadau

2.13 I ddatrys y broblem hon buasai'n rhaid gofyn i arweinwyr llinyn a darparwyr adolygu'r data yr oeddent wedi'i ddarparu, ac mae'n debygol na fuasai’n bosib gwneud hynny’n gywir. Er nad yw'n bosib darparu ffigur ar gyfer cyfanswm y cyfranogwyr GLlLl, defnyddiwyd y GR a gasglwyd i gyfeirio a chryfhau canfyddiadau drwy gydol yr adroddiad. At hynny, mae'r heriau a wynebwyd wedi darparu gwersi gwerthfawr ar gyfer ymgymryd â thasg cywain data debyg yn y dyfodol.

2.14 Roedd newid hefyd i'r gofyniad cychwynnol i gywain data personol gan gyfranogwyr y rhaglen yn y cam cyflwyno, gan ddilyn her gan ddarparwyr a deimlai i raddau helaeth nad oedd ganddynt systemau a gallu digonol i ymgymryd â thasg o'r fath.

2.15 Dibynnwyd ar ddarparwyr i gynorthwyo wrth weinyddu a lledaenu'r arolwg cyfranogwyr fel rhan o'r gweithgaredd gwerthuso ac, er y cafwyd nifer fawr o ymatebion i'r arolwg cyfranogwyr (n=2,813), wynebodd y tîm ymchwil gyfyngiadau o ran ei allu i sicrhau sampl gynrychioliadol o ymatebwyr. Roedd hyn er mwyn lleihau risgiau diogelu data, a galluogi i'r arolwg gael ei gylchredeg ar garlam.

2.16 Cynhaliwyd llai o grwpiau ffocws â phlant na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i grwpiau ffocws gael eu trefnu ar ôl diwedd y ddarpariaeth, pan oedd gan ddarparwyr lai o gyswllt, neu ddim cyswllt uniongyrchol, â chyfranogwyr gan nad oedd y gweithgareddau'n digwydd mwyach. Cyfyngodd hyn ar y cyfleoedd i recriwtio ar gyfer grwpiau ffocws.

2.17 Cynhaliwyd yr holl waith ymchwil cychwynnol o bell, i gefnogi wrth gyflwyno gwerthusiad ar garlam ac ar adeg pan oedd sefydliadau ac ysgolion yn dygymod â dychwelyd i weithgareddau ar ôl y cyfyngiadau COVID-19.

2.18 Mae'r canfyddiadau'n adrodd ar ddeilliannau canfyddedig a hunan-adroddedig y rhaglen, sy'n golygu bod y deilliannau a adroddir yn seiliedig ar farn rhanddeiliaid' (e.e. plant/pobl ifanc, rhieni/gofalwyr, arweinwyr llinyn, darparwyr/staff ysgolion) o'r newidiadau a brofwyd o ganlyniad i GLILI.

2.19 Ni werthuswyd y llinyn AU gan Ecorys, ac nid ydym wedi gwirio'r canfyddiadau am y llinyn AU yn adroddiad CCAUC. Os yw'r canfyddiadau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, nodir nad canfyddiadau ymchwil Ecorys mohonynt.

## 3. Canfyddiadau allweddol

3.0 Cynhaliwyd GLILI rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2022, gyda'r rhan fwyaf o weithgareddau yn 2022. Rhoddwyd hyblygrwydd i bob llinyn ynghylch fformat, dyluniad a dull cyflwyno'r rhaglen. Yn gyffredinol, cyflwynodd GLILI amrywiaeth eang iawn o weithgareddau trwy gymysgedd o fynediad agored a darpariaeth wedi'i thargedu. Cyflawnwyd hyn er gwaetha'r amserlen fer oedd ar gael i gynllunio, lansio a hyrwyddo'r rhaglen. Roedd y ddarpariaeth drwy'r pum llinyn yn caniatáu targedu a chyrraedd yr amrediad oedran targed 0-25 cyfan, ond roedd cyrraedd pobl ifanc hŷn yn fwy o her.

3.1 Roedd darparwyr yn tueddu i gynllunio darpariaeth trwy gymysgedd o staff mewnol ac allanol, gan alw ar bobl allanol â sgiliau arbenigol neu dargedu grŵp penodol o blant/pobl ifanc, e.e. y rhai ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol). Er i arweinwyr llinyn ystyried sut i gynnig gweithgareddau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg, cynigiwyd darpariaeth cyfrwng Cymraeg gymharol gyfyngedig. Roedd hyn yn rhannol oherwydd anhawster wrth ddod o hyd i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg.

3.2 Yn gyffredinol, teimlodd arweinwyr llinyn iddynt gael eu cefnogi'n dda gan Lywodraeth Cymru. Roeddent yn cael yr arweiniad yn glir ac yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a fu'n caniatáu iddynt deilwra darpariaeth i'w hanghenion lleol. Fodd bynnag, byddent wedi elwa o fwy o amser paratoi ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth a datblygu partneriaethau gyda darparwyr newydd ac fe fyddent wedi hoffi derbyn arweiniad marchnata pan gyhoeddwyd y cyllid. Roedd enghreifftiau o ymgynghori a chyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc, yn enwedig ymhlith sefydliadau cenedlaethol, sefydliadau AB a darparwyr AU, ond gosododd yr amserlen fer gyfyngiadau i ba raddau yr oedd hyn yn bosib. [4]

3.3 Roedd y ffaith bod y ddarpariaeth am ddim yn ffactor allweddol wrth alluogi cyfranogiad plant a phobl ifanc, gan na fyddai modd i rieni fforddio talu am y gweithgareddau hyn mewn llawer o achosion. Roedd rhwyddineb mynediad, neu ddarparu cludiant mewn ardaloedd gwledig hefyd yn ffactorau galluogi allweddol.

[4] Yn ôl adroddiad CCAUC roedd Undebau Myfyrwyr wedi ymwneud yn helaeth â phenderfynu ar y gweithgareddau a oedd i'w cyllido a'u dull cyflwyno.

Cynigiodd rhai darparwyr ofal plant er mwyn galluogi oedolion ifainc a'u babanod / plant bach i gymryd rhan.

3.4 Roedd amserlenni tynn i gyflwyno'r darpariaeth yn cynrychioli rhwystr allweddol ar draws pob llinyn. Effeithiodd cyfnodau paratoi byrion ar gaffael, gan ei gwneud hi'n anodd recriwtio darparwyr allanol newydd ac i sicrhau gwiriadau DBS a rhoi polisïau COVID-19 digonol ar waith.

3.5 Dywedodd y mwyafrif helaeth (95 y cant) o blant a phobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg cyfranogwyr eu bod wedi cael hwyl. At hynny, adroddodd cyfranogwyr GLILI fod y rhaglen wedi'u helpu i wneud ffrindiau newydd (68 y cant), rheoli eu hiechyd meddwl (67 y cant) a theimlo'n fwy hyderus.

3.6 Bu i gyfranogiad plant a phobl ifanc helpu i fynd i'r afael â rhai o effeithiau negyddol y pandemig. Er enghraifft, rhoddodd GLILI gyfleoedd iddynt roi cynnig ar bethau newydd (92 y cant), dysgu sgiliau newydd (83 y cant) a bod yn fwy egnïol yn gorfforol (87 y cant). Bu i blant a phobl ifanc hunan-adrodd gwelliannau i les, hyder a chymdeithasu, gan briodoli hyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau GLILI. Mae hyn yn awgrymu i GLILI gyflawni ei nod o ddarparu cyfleoedd hamdden ac adloniant llawn hwyl i blant a phobl ifanc, er mwyn cefnogi eu lles.

3.7 Manteisiodd darparwyr o fewnbwn ariannol yr oedd mawr ei angen ar ôl y cyfnodau clo a datblygwyd cysylltiadau gydag ysgolion lleol a'r gymuned ehangach. Roedd GLILI hefyd yn gyfle i ddatblygu cysylltiadau newydd rhwng arweinwyr llinyn a darparwyr lleol.

3.8 Canlyniad anfwriadol posib yw bod GLILI (gan ddilyn yr HoH) wedi codi'r disgwyliad ymhlith plant a theuluoedd o gael cynnig darpariaeth mynediad am ddim dros yr hir dymor.

3.9 Croesawyd y rhaglen yn frwd gan arweinwyr llinyn a darparwyr. Gwnaethant alw am gyllid cyson dros yr hir dymor i ddarparu cefnogaeth barhaus ar gyfer adfer yn sgil COVID-19 a sicrhau y cynhelir deilliannau cadarnhaol GLILI.

# Canfyddiadau Manwl

## 4. Dyluniad y rhaglen

4.0 Mae'r adran hon yn myfyrio ar broses ddylunio'r rhaglen o safbwynt uwch randdeiliaid, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, yr ALI, sefydliadau cenedlaethol, ysgolion, ac arweinwyr AB fu'n ymwneud â'r gwaith o gynllunio a chyflwyno'r rhaglen. Mae'r adran hefyd yn cynnwys GR.

**Sail resymegol y rhaglen**

4.1 Fel y nodwyd ym Mhennod 1, nod trosgynnol GLILI oedd cefnogi adferiad plant a phobl ifanc o effeithiau'r pandemig COVID-19, gyda ffocws penodol ar ymdrin â'u lles.

‘Roedd yn hanfodol, mewn gwirionedd, ei fod [GLILI] yn ymwneud â lles ac yna teimlo'n ddiogel i fynd allan a chael mynediad i bethau.’ (Uwch randdeiliaid, Llywodraeth Cymru)

4.2 Adeiladodd y rhaglen ar lwyddiant HoH yn 2021, a bu i'r dysgu allweddol o hynny gyfeirio datblygiad y rhaglen gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021). Roedd cefnogaeth helaeth i GLILI ar draws uwch-randdeiliaid yn Llywodraeth Cymru. Roedden nhw o'r farn y byddai'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gymdeithasu, cael mynediad at weithgareddau llawn hwyl a diddorol ac yn darparu mannau diogel lle gallent ddatblygu sgiliau, hyder a diddordebau newydd. Gan y cyflwynwyd GLILI trwy bum llinyn, roedd cyfle i ymgysylltu â phartneriaid gwahanol ar draws Llywodraeth Cymru. Derbyniodd pob llinyn arweiniad a nododd y paramedrau yr oedd angen iddynt eu dilyn.

**Cyflwyniad y rhaglen gan ALI**

4.3 Parhaodd ALI yn bennaf â'r gweithgareddau a ddarparwyd ganddynt fel rhan o HoH. Dylanwadodd hynny ar eu dyluniad o'r rhaglen GLILI ac addaswyd rhannau o'u cynnig HoH ar ei chyfer. Arweinwyr chwarae oedd yn rheoli'r rhan fwyaf o'r hyn a gyflwynwyd gan ALI, gan mai nhw oedd yn gwybod beth oedd wedi gweithio'n dda ar gyfer eu ALI wrth gyflwyno HoH; ond eto teimlwyd bod cyfle i roi cynnig ar bethau

newydd, megis ymgysylltu â darparwyr newydd. Cyflwynwyd gweithgareddau ar gyfer plant oedran ysgol ar ôl yr ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod hanner tymor. Nid oedd unrhyw gyfyngiad ar pryd y gallai'r gweithgareddau i blant a phobl ifanc nad oeddent o oedran ysgol ddigwydd. O fis Rhagfyr 2021, ychwanegwyd yr opsiwn i ddarparu bwyd (byrbrydau a diodydd iach) yn ystod gweithgareddau GLlLl at yr arweiniad i ALl, a chroesawyd hynny gan arweinwyr a darparwyr ALl.

‘Mae [darparu byrbrydau] yn eithaf arwyddocaol. Os ydych chi'n ceisio diwallu anghenion lles a bod lles yn ymwneud ag anghenion corfforol ac emosiynol, ac mae gennych lawer o blant sy'n llwglyd – rydych chi eisiau rhedeg rhywbeth drwy'r dydd, ond allwch chi ddim rhoi bwyd iddynt, mae'n mynd yn or-gymhleth.’ - (Arweinydd ALl)

**Cyflwyno rhaglenni gan sefydliadau cenedlaethol**

4.4 Bu i bum sefydliad cenedlaethol gyflwyno'r rhaglen trwy eu rhwydweithiau: Chwaraeon Cymru, Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, Urdd Gobaith Cymru, Amgueddfa Cymru, a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru. Bu i bob un o'r sefydliadau hyn ffocysu eu darpariaeth ar wahanol fathau o weithgareddau a cheisio sefydlu a/neu ailgynnau diddordebau plant a phobl ifanc (e.e., mewn cerddoriaeth, darllen a chwaraeon).

4.5 Hefyd, roedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r llinyn trefnu cenedlaethol ac fe'i cyflwynwyd trwy chwe llwybr: wyth sefydliad AB; gweithdai podlediad Cymru FM; ymestyn Cynllun Peilot Gwasanaethau Ieuenctid Cymraeg; a thri mudiad cenedlaethol (Urdd Gobaith Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

4.6 Roedd darpariaeth gerddoriaeth hefyd yn rhan o'r llinyn trefnu cenedlaethol. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar gyfer prosiectau cerddoriaeth allgyrsiol ar draws Cymru. Roedd y ddarpariaeth hon yn cynnwys gweithgareddau a gweithdai cerddoriaeth ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol, therapi cerdd a chynyddu mynediad a chynhwysiad ar gyfer plant a phobl ifanc difreintiedig ac agored i niwed.

**Cyflwyno rhaglenni gan ysgolion**

4.7 Dosbarthwyd cyllid GLlLl i ysgolion trwy ddwy ffrwd ariannu: Cyllid Gaeaf Llawn Lles ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd (a ddisgrifir yn fanwl isod), a chyllid i ddarparu treial o Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol i nifer fach o ysgolion a sefydliadau AB (sydd wedi'i fanylu mewn adroddiad gwerthuso ar wahân (W21/39HE)),

4.8 Derbyniodd pob ysgol yng Nghymru hyd at £20,000[5] am dri mis (rhwng Ionawr a Mawrth 2022) i gynnal gweithgareddau GLlLl gan ddefnyddio ymagwedd ysgol gyfan. Neilltuwyd arian i ysgolion yn seiliedig ar:

- gyfanswm nifer y dysgwyr
- nifer y dysgwyr oedd yn gymwys am PYaDd
- nifer y dysgwyr ag ADY
- nifer y dysgwyr Du, Asiaidd, o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- nifer y dysgwyr a ddysgai yn y Gymraeg fel iaith gyntaf.

4.9 Roedd y cyfrifiad cyllido'n seiliedig ar swm safonol i bob dysgwr, gyda 25 y cant yn ychwanegol ar gyfer dysgwyr ym mhob un o'r grwpiau cyllido blaenoriaeth a restrir uchod (gydag ychwanegiadau lluosog yn cael eu cymhwyso i ddysgwyr sy'n cwrdd â mwy nag un maen prawf).

4.10 Dyrannwyd cyllid fel a ganlyn:

[5] Derbyniodd rhai ysgolion uwchradd mawrion lawer mwy o gyllid na'r cyfartaledd oherwydd nifer o ddisgyblion.

**Tabl 3. Cyllid cyfartalog fesul ALl ac yn gyffredinol**

| Awdurdod Lleol | Cyllid cyfartalog fesul ysgol |
|---|---|
| Caerdydd | £5,902.66 |
| Casnewydd | £5,760.02 |
| Torfaen | £5,179.34 |
| Abertawe | £4,777.99 |
| Bro Morgannwg | £4,658.89 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £4,215.24 |
| Rhondda Cynon Taf | £4,147.96 |
| Castell-nedd Port Talbot | £4,100.81 |
| Blaenau Gwent | £3,982.29 |
| Merthyr Tudful | £3,739.00 |
| Sir Ddinbych | £3,665.22 |
| Caerffili | £3,655.25 |
| Sir Gâr | £3,650.31 |
| Ceredigion | £3,511.41 |
| Ynys Môn | £3,494.74 |
| Sir Fynwy | £3,351.59 |
| Sir Benfro | £3,346.29 |
| Wrecsam | £3,283.83 |
| Sir Y Fflint | £3,235.86 |
| Conwy | £3,198.75 |
| Gwynedd | £3,107.61 |
| Powys | £2,125.40 |
| **Cyfanswm y cyfartaledd** | **£3,975.87** |

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli

4.11 Gallai'r ysgolion gynnig gweithgareddau i'r holl blant a phobl ifanc neu unrhyw rai ohonynt, cyn, yn ystod neu ar ôl ysgol. Bu i bob ysgol ddylunio a rhedeg ei darpariaeth ei hun gan ddefnyddio cymysgedd o staff a darparwyr mewnol ac allanol. Seiliwyd symiau cyllid ar nifer y plant a phobl ifanc, y gyfran â hawl i PYaDd ac iaith addysgu (gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn derbyn mwy o gyllid nag ysgolion cyfrwng Saesneg).

4.12 Dyrannodd rhai ysgolion gyfran o'r cyllid tuag at dalu am ddarparwyr allanol i ddarparu gweithgareddau ac i brynu adnoddau ychwanegol ar gyfer gweithgareddau GLILI, sy'n parhau i fod ar gael i'w defnyddio ar ôl i GLILI ddod i ben. Roedd cymysgedd o ddarparwyr allanol newydd a rhai fu'n bodoli eisoes. Roedd arweinwyr ysgol eisiau cyflogi darparwyr allanol i ddod â sgiliau ac arbenigedd ychwanegol i'w cynigion. Roedd rhoi hwb i les emosiynol plant a phobl ifanc a hwyluso cymdeithasu ar ôl nifer o gyfnodau clo'n thema allweddol i arweinwyr ysgol yn eu gweithgareddau arfaethedig. Mewn un enghraifft eithriadol, defnyddiodd ysgol gyllid GLILI i adnewyddu adeilad bach fel ystafell ddosbarth lles lle gallai plant mwy pryderus ddechrau'r diwrnod ysgol yn gynnar gyda gemau neu ddarllen.

‘Roeddwn i'n awyddus iawn i gael dechrau addfwyn [i'r diwrnod] i rai plant, gan ddarparu rhywun y gallent siarad â nhw a mynd atyn nhw'n rheolaidd. Mae'n flaenoriaeth i mi bod plant yn teimlo'n ddiogel a bod eraill yn gofalu amdanynt yn yr ysgol.' - (Arweinydd ysgol)

**Cyflwyno'r rhaglen gan sefydliadau AB a darparwyr AU**

4.13 Darparwyd cyllid i sefydliadau AB a Phrifysgolion drwy bedwar llwybr:

- Drwy Chwaraeon Cymru: Gwnaeth sefydliadau AB geisiadau drwy broses ymgeisio a gynlluniwyd gan ColegauCymru, a oedd wedi gwneud cais ar y cyd ar ran y sector am gyllid Chwaraeon Cymru.
- Cyllid uniongyrchol i sefydliadau AB ar gyfer gweithgareddau lles, gyda chyllid yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar faint y sefydliad.
- Cyllid uniongyrchol i sefydliadau AB i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Cyllid i CCAUC i'w ddyrannu i ddarparwyr addysg uwch weithio mewn partneriaeth ag undebau myfyrwyr, fel y manylir ym mharagraff 1.5 (yr ymdrinnir ag ef mewn adroddiad ar wahân a gynhyrchwyd gan CCAUC).

**Alinio â rhaglenni adfer COVID-19 eraill**

4.14 Roedd ALl yn ystyried bod GLlLl yn gyfle i adeiladu ar fentrau presennol neu barhau â'r ddarpariaeth chwarae a hamdden a ohiriwyd o ganlyniad i'r pandemig. Ystyriwyd bod hyn yn rhywbeth cadarnhaol, gan iddo olygu bod ALl yn ymwybodol o grantiau eraill oedd wedi'u targedu'n well a'u bod yn gallu defnyddio cyllid GLlLl i dargedu plant a phobl ifanc nad oeddent wedi'u cyrraedd gan raglenni eraill, ac ategu yn hytrach na dyblygu darpariaeth.

4.15 Thema gref a ddeilliodd o gyfweliadau ag ALl oedd, er i GLlLl gydweddu â rhaglenni adfer yn sgil COVID-19 eraill, mai cyllid tymor byr ar gyfer yr ystod hon o raglenni oedd hwn. Roedd arweinwyr ALl o'r farn bod hyn yn broblem, gan nad yw'n debygol y caiff effeithiau COVID-19 eu trin yn gynaliadwy trwy'r ymagwedd hon. I rai ALl roedd hefyd yn anodd cydlynu'r holl raglenni COVID-19 gan gynnwys GLlLl, ochr yn ochr â chyfrifoldebau busnes-fel-arfer. Croesawyd cyllid GLlLl gan ALl, ond mewn rhai achosion, roedden nhw'n profi anhawster wrth ei weinyddu.


**Dosbarthiad daearyddol y ddarpariaeth**

4.16 Cyflwynwyd gweithgareddau GLlLl ar draws Cymru drwy 563 o ddarparwyr ALl a sefydliad cenedlaethol; tua 1500 o ysgolion; 13 o sefydliadau AB; 11 o ddarparwyr AU. Mae'r mapiau gwres isod yn dangos dosbarthiad y cyllid GLlLl.

4.17 Mae'r map yn

4.18 Ffigur 1 yn dangos lledaeniad daearyddol darparwyr Chwarae, Chwaraeon a Sefydliad Cenedlaethol a dderbyniodd gyllid GLlLl (noder, nid yw'r ffigwr yn cynnwys cyllid a ddyrannwyd i ysgolion, sefydliadau AB ac AU). Nid yw'n dangos faint o gyllid a dderbyniwyd gan bob darparwr (nid oedd yn bosibl creu map o swm y cyllid a dderbyniwyd, oherwydd anghysondebau o ran sut y cofnodwyd cyllid yn y GR). At hynny, mae'r map yn dangos lleoliad pencadlys pob sefydliad a ariannwyd, heb adlewyrchu cyrhaeddiad ehangach GLlLl trwy waith allgymorth.

**Ffigur 1. Dosbarthiad daearyddol darparwyr a ariannwyd gan GLILI (llinyn ALI a Sefydliad Cenedlaethol)**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli

**Amserlen gyflwyno**

4.19 Gallai'r rhaglen GLILI redeg rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2022. Oherwydd pwysau ar amser, dechreuodd nifer o ALI a sefydliadau cenedlaethol eu darpariaeth o fis Rhagfyr 2021 neu fis Ionawr 2022. Rhedodd ALI ddarpariaeth tan fis Mawrth 2022, yn cynnig gweithgareddau ar wahanol amserau gan ddibynnu ar y grwpiau targed, gan gynnwys boreau, nosweithiau, cyn/ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol.

4.20 Ni dderbyniodd ysgolion a sefydliadau AB gyllid tan fis Ionawr 2022, felly cyflwynwyd eu darpariaeth yn ail hanner y cyfnod cyllido GLILI.

**Marchnata a brandio**

4.21 Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ganllawiau marchnata i annog holl weithgareddau'r rhaglen i rannu brand GLILI cyffredin ac adnabyddus gan gynnwys logo a thempledi marchnata. Arweinwyr llinyn oedd yn gyfrifol am hyrwyddo'r canllawiau i ymgeiswyr cyflenwi darpariaeth. Hysbysebodd arweinwyr ALI y canllawiau ar gyfryngau cymdeithasol a gwefannau Cymraeg a Saesneg, a thrwy gynghorau cymuned a chlywed gan eraill. Bu iddynt hefyd ddarparu taflenni a phosteri marchnata yn Gymraeg a Saesneg.

4.22 Bu i ALI ddefnyddio'r un ymagwedd farchnata GLILI ag ar gyfer HoH, gan dynnu ar arbenigedd marchnata mewnol ac allanol drwy dimau cyfathrebu yr ALI. Darparodd ALIau ddeunyddiau marchnata ar gyfer eu partneriaid cyflwyno:

‘Os ydych chi'n cyflwyno'r Gaeaf Llawn Lles, rydych chi'n cael pecyn partner. Rydych chi'n cael baner neu fflag, sticeri ffenest ac asedau digidol. Mae'r cyfan yn frand cydlynus. Rydym wedi gwneud pethau fel cyfryngau cymdeithasol y telir amdanynt i bennu'r demograffeg.' - (Arweinydd ALI)

4.23 Roedd disgwyl i'r holl ddarparwyr GLILI a gomisiynwyd ddefnyddio'r logos GLILI yn y pecyn marchnata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Un her allweddol oedd derbyn yr arweiniad GLILI yn hwyr gan Lywodraeth Cymru. Ni dderbyniodd rhai ALI y pecyn marchnata tan fis Ionawr, gan olygu nad oedden nhw'n gallu rhoi'r brand GLILI ar eu holl ddeunyddiau hyrwyddo a'u bod yn defnyddio eu logo eu hunain ar gyfer cyhoeddusrwydd lleol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nododd arweinwyr ALI eu bod wedi derbyn deunyddiau marchnata'n ddigon cynnar fel y gallent eu cynnwys yn y ffurflenni Mynegiad o Ddiddordeb a anfonwyd ganddynt at ddarparwyr, fel rhan o'r broses caffael darparwyr. Dywedodd darparwyr y byddai wedi bod yn well i dderbyn pecyn marchnata Llywodraeth Cymru ar ddechrau'r rhaglen.

4.24 Gofynnodd ALI i ddarparwyr ddefnyddio'r enw/brand GLILI ar ôl ei dderbyn ond nid oedd ganddynt y capasiti i wirio hynny. O ystyried yr oedi, defnyddiodd rhai ALI eu tîm cyfathrebu/tîm graffeg mewnol i lunio hysbysebion cyfryngau cymdeithasol GLILI wrth iddynt aros am y deunyddiau gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaethon nhw ddefnyddio hashnodau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar y cyfryngau

cymdeithasol pan oeddent ar gael. Rhagwelodd un ALl y caiff y pecyn marchnata ei ddiweddaru os bydd rowndiau yn y dyfodol, a ddylai hynny gyflymu'r broses ddosbarthu i ddarparwyr.

4.25 Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn sianel farchnata boblogaidd a ddefnyddiwyd gan ALl, gan gynnwys apiau ALl ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i gofrestru ar gyfer gweithgareddau lleol. Bu i ALl farchnata hefyd drwy wasanaethau a hybiau teuluol lleol, gweithwyr cymorth, llyfrgelloedd, a chanolfannau hamdden, a thrwy ddatganiadau i'r wasg a thaflenni copi caled ar fyrddau cymunedol. Dyluniodd rhai timau gwe mewnol ALl dudalen we benodedig ar gyfer gweithgareddau GLlLl, a ddiweddarwyd yn rheolaidd.

4.26 Nododd cyrff cenedlaethol hefyd yr oedi cyn derbyn deunyddiau â brand swyddogol Llywodraeth Cymru, ac felly creodd partneriaid eu brand eu hunain, er iddynt ddefnyddio'r logo a'r brand swyddogol lle bo modd. Ceir enghreifftiau o logos a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac a ddefnyddiwyd mewn deunyddiau marchnata isod.

**Ffigur 2. Logos Gaeaf Llawn Lles**




4.27 Ymgynghorodd un sefydliad cenedlaethol â'r holl ALl i rannu syniadau cynllunio a sefydlu tudalen we genedlaethol er mwyn i lyfrgelloedd lleol hyrwyddo eu digwyddiadau. Bu i gyrff cenedlaethol hefyd hyrwyddo GLlLl yn y wasg ac ar gyfryngau cymdeithasol, a thrwy bartneriaid lleol.

4.28 Defnyddiodd sefydliadau AB y brand GLlLl pan oedd ar gael. Roedd y rhan fwyaf o'u gweithgareddau hyrwyddo GLlLl drwy sianeli cyfathrebu staff mewnol a myfyrwyr, cyfryngau cymdeithasol, a chlywed gan eraill. Prynodd un sefydliad AB grysau-T GLlLl gyda'r logo arnynt i helpu i hyrwyddo'r rhaglen. Soniodd sefydliadau

AB hefyd am ddatblygu pecynnau myfyrwyr i hyrwyddo GLlLl, gan amlygu pwysigrwydd y ffaith bod y cyllid yn gwbl gynhwysol (h.y. heb gynnwys cyfranogwyr sydd eisoes yn derbyn grantiau eraill).

4.29 Bu i arweinwyr ysgolion hefyd hysbysebu GLlLl ar eu cyfryngau cymdeithasol, mewn cylchlythyrau, drwy bosteri, a thrwy sianeli cyfathrebu mewnol gyda staff, rhieni/gofalwyr, plant a phobl ifanc. Roedd un ysgol wedi cynnwys y plant a'r bobl ifanc wrth ddylunio eu logo GLlLl, a oedd yn enghraifft dda o gyd-gynhyrchu gyda chyfranogwyr.

# 5. Cynllunio lleol

5.0 Mae'r adran hon yn ymchwilio i ddulliau o gynllunio'r rhaglen GLILl yn lleol, gan gynnwys prosesau gweinyddol a gweithredol, yr hyn a weithiodd yn dda ac unrhyw heriau i'r gweithrediad. Daw'r dystiolaeth o gyfweliadau ag arweinwyr ALl, arweinwyr sefydliadau cenedlaethol, arweinwyr ysgolion a'r arolwg cyfranogwyr.

### Arweiniad a chefnogaeth

5.1 Ar y cyfan, teimlai arweinwyr llinyn eu bod wedi cael digon o gefnogaeth ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru ond gan nodi i hyn gyrraedd yn hwyr. Roedd hyn yn golygu y bu cyfnod byr o amser i gynllunio'r ddarpariaeth ar ôl derbyn y canllawiau. Fodd bynnag, soniodd arweinwyr llinyn fod y canllawiau’n disgrifio cwmpas a meini prawf y cyfle cyllido'n glir a'u bod yn deall beth oedd y rhaglen yn ceisio ei gyflawni. Roeddent o'r farn bod y llwyfan ar-lein a ddefnyddiwyd i rannu'r canllawiau (Objective Connect) yn hawdd ei defnyddio, gan y gallent gael mynediad at yr holl ddeunyddiau arweiniad mewn un lle. Dywedodd arweinwyr llinyn fod y canllawiau’n glir ac nad oedd angen iddynt ofyn am eglurhad. Er hynny, roeddent yn gwybod y gallent gysylltu â Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol pe bai angen. Croesawodd sefydliadau AB yr hyblygrwydd yn y canllawiau cynllunio GLILl yn benodol, yr oeddent yn eu hystyried yn hanfodol i gynllunio darpariaeth a adlewyrchodd anghenion yr ardal leol.

### Cydweithio wrth gynllunio

5.2 Yn aml roedd yr arweinwyr ALl yn gweithio ar y cyd â chydweithwyr o nifer o dimau mewnol, gan gynnwys gofal plant, chwarae, lles ac atal cymunedol, a datblygu cymunedol. Gweithiodd arweinwyr ALl hefyd gyda phobl allweddol o fewn eu hadran eu hunain, fel y swyddog Strategaeth Agored a'r swyddog Blynyddoedd Cynnar. Bu i rai arweinwyr ALl gydweithio hefyd ag ALl a llyfrgelloedd eraill, er yr oedd hyn yn gyfyngedig iawn o ystyried yr amserlenni, ac roedd yn tueddu i fod yn seiliedig ar gysylltiadau fu'n bodoli eisoes. Roedd ALl â chynnig haf presennol, gan gynnwys HoH, yn aml yn galw ar y ddarpariaeth hon i gynllunio eu rhaglen GLILl. Roedd hyn yn cynnwys adeiladu ar gysylltiadau sefydledig â darparwyr a darpariaeth awyr agored a oedd wedi gweithio'n dda trwy HoH.

5.3 Roedd cydweithio ehangach ar y rhaglen braidd yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti a'r amserlenni tynn iawn i sefydlu'r rhaglen. Dywedodd arweinwyr ALl eu bod yn aml yn gweinyddu GLlLl ar ben llwyth gwaith llawn. Roedd arweinwyr ALl hefyd wedi'u trosglwyddo'n gyflym o un raglen ariannu i'r llall, ac felly'n canolbwyntio ar ofynion prosesu dybryd.

‘Mae'n anodd cael yr holl brosesau yn eu lle a gwybod beth yn union sydd ei angen ar ba bwynt. Cyn gynted ag y byddwn yn gorffen coladu gwybodaeth ar GLlLl, mae'n rhaid i ni symud yn syth i weinyddu'r Haf o Hwyl, ac mae hynny ar ben rolau eraill.’ - (Arweinydd ALl)

5.4 Myfyriodd arweinwyr ALl y byddai dyraniadau amser ac adnodd staff ychwanegol yn fuddiol o ran cynllunio rhaglenni yn y dyfodol, gan fod staff yn cyflwyno GLlLl yn ychwanegol at eu swydd arferol. Byddai cyllid ar gyfer amser staff yn eu galluogi i gynllunio a chefnogi'r ddarpariaeth yn well.

5.5 Bu i sefydliadau cenedlaethol gydweithio â phartneriaid i gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth. Roedd oedi cyn dyrannu cyllid yn effeithio ar allu sefydliadau cenedlaethol i ddatblygu partneriaethau newydd, gyda rhai'n dewis estyn allan i'w cronfa bresennol o bartneriaid yr oeddent yn gwybod y gallent gynnig gwerth da am arian. Gweithiodd arweinwyr ysgolion â staff i ddylunio eu darpariaeth, gyda rhai hefyd yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc i ddeall pa fath o weithgareddau y byddent wedi'u hoffi (gweler isod). Gweithiodd arweinwyr llinyn AB â staff sefydliadau AB i drafod sut i ddyrannu'r cyllid, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth a fyddai o fudd i les pobl ifanc, yn hwyluso cymdeithasu ac yn diwallu eu hanghenion.

**Ymgynghori â phlant, pobl ifanc a phartneriaid lleol**

5.6 Bu rhai enghreifftiau o ymgynghori a chyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc i helpu i gyfeirio cynllunio gweithgareddau GLlLl lleol, yn enwedig ymhlith sefydliadau cenedlaethol, sefydliadau AB ac ysgolion.

‘Eisteddais gyda'r plant ac [esboniais] 'mae gyda ni ychydig o arian i'w wario ac rydyn ni eisiau prynu pethau y gallwch chi chwarae gyda nhw. Beth ydych chi'n meddwl?' Roedden nhw'n glir iawn beth roedden nhw ei eisiau. Roedd [y plant]

eisiau pypedau ac ry'n ni'n defnyddio'r rheiny llawer wrth ddysgu'r Gymraeg.' - (Arweinydd ysgol)

5.7 Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys sefydliad cenedlaethol fu'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn lleol i gyfeirio eu cynlluniau GLILI, ac ysgol gynradd fu'n ymgynghori â phlant Blwyddyn 1 drwy fap meddwl i ddelweddu sut y gallai'r gofod awyr agored edrych gydag adnoddau GLILI. Roedd lleisiau pobl ifanc hefyd yn ffactor allweddol a ystyriwyd gan sefydliadau AB wrth gynllunio'r rhaglen.

5.8 Fodd bynnag, adroddodd ALl fel arfer nad oedd ganddynt ddigon o amser i ymgynghori'n uniongyrchol. Yn hytrach, fe wnaethon nhw adeiladu ar ymgynghoriadau ac adborth o'r gorffennol ar raglenni tebyg neu geisio creu darpariaeth fu'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc drwy siarad â gwasanaethau ieuenctid neu'n seiliedig ar ba weithgareddau oedd wedi gweithio'n dda yn HoH.

**Darpariaeth wedi'i thargedu o'i chymharu â darpariaeth mynediad agored**

5.9 Thema a ddaeth i'r amlwg ymhlith yr ALl y cyfwelwyd â hwy oedd eu bod yn anelu at gynnig mynediad agored a chynnig wedi'i dargedu, sef ymagwedd debyg i HoH. Roedd y pwyslais a'r cyllid a ddyrannwyd i bob un o'r cydrannau hyn yn amrywio fesul ALl. Roedd yn gyffredin i ALl gynllunio rhywfaint o ddarpariaeth GLILI gyffredinol, ac esboniwyd mai'r rheswm dros hyn oedd bod yr holl blant a phobl ifanc wedi'u heffeithio gan y pandemig. Bwriad gwreiddiol un ALl oedd targedu eu darpariaeth arbenigol at ardaloedd Dechrau'n Deg[6] yn unig, ond datgelodd trafodaethau cynllunio amddifadedd y tu allan i'r dalgylch Dechrau'n Deg, ac felly ehangwyd y gweithgaredd i gynnig generig.

5.10 Mynegodd arweinwyr llinyn y cyfwelwyd â hwy awydd am godi ysbryd y gymuned yn sgil COVID-19 hefyd. Dywedwyd mai bwriad gweithgareddau yn y gymuned, er iddynt ganolbwyntio ar yr amrediad oedran 0-25, oedd cyrraedd teuluoedd estynedig hefyd. Cynlluniwyd cynigion mynediad agored gan sefydliadau AB, ysgolion a gwasanaethau ieuenctid, tra y cysylltodd ALl â darparwyr arbenigol i gyflwyno darpariaeth a dargedwyd lle bo angen.

[6] Mae Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd gyda phlant dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru trwy gynnig gofal plant, gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd gwell, rhaglenni magu plant a chefnogaeth i blant ddysgu siarad a chyfathrebu.

‘Gwnaethon ni siarad am... a fydden ni'n ei dargedu? A na, roedd o'n gweithio'n well o lawer [mynediad agored] gan yr oedd teuluoedd cyfan yn troi i fyny. Rydyn ni wedi cael tadau'n dod i mewn gyda'u plant bach ac yn meddwl mai ar gyfer eu plant bach oedd e ond wedyn yn rhoi cynnig eu hunain.’ – (Arweinydd ALl)

5.11 Adroddodd arweinwyr ALl iddynt gynllunio gweithgareddau a dargedwyd ar draws yr amrediad oedran 0-25, fel arfer i ennyn diddordeb teuluoedd a grwpiau agored i niwed a fyddai'n elwa o gymryd rhan ond sydd efallai'n wynebu rhwystrau i ymgymryd â darpariaeth mynediad agored, er enghraifft dosbarthiadau i rieni ifainc a babanod trwodd i bobl ifanc sengl ddigartref. Clustnodwyd teuluoedd na fyddai modd iddynt fforddio talu am weithgareddau, gan gynnig iddynt gymryd rhan drwy weithio mewn partneriaeth, er enghraifft drwy wasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau atal a hybiau cymunedol. Fe wnaeth ALl hefyd greu cynigion wedi'u targedu i ddiwallu anghenion hysbys. Er enghraifft, roedd sawl ALl yn targedu plant ‘ar ddiwedd oes', a grwpiau agored i niwed eraill yn ehangach, megis plant mewn gofal neu mewn teuluoedd â materion amddiffyn plant arwyddocaol, gofalwyr ifainc, pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl ifanc anabl, yn enwedig y rhai mewn ysgolion prif ffrwd. Cynlluniodd timau ALl ddarpariaeth i bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed gyda sefydliadau ieuenctid. Bu i rai ALl gynllunio darpariaeth GLILI ar gyfer plant a phobl ifanc yr oedd Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt hefyd.

5.12 Adroddodd cyrff cenedlaethol hefyd iddynt gynllunio darpariaeth agored sy'n cwmpasu amrediad oedran eang (0-25 oed) a darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer grwpiau penodol. Roeddent yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle roedd hynny'n bosib. Roedd rhai digwyddiadau lleol wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer ardaloedd difreintiedig. Mewn rhai achosion roedd y gweithgareddau hyn wedi'u cynllunio mewn partneriaeth â sefydliadau AB ac elusennau lleol.

5.13 Un enghraifft eithriadol oedd sefydliad cenedlaethol a gynlluniodd ei ddarpariaeth gyda phwyslais ar blant sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant ag anableddau dysgu a/neu nam ar eu golwg, plant sy'n derbyn gofal, a phlant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Adroddodd y sefydliad cenedlaethol alw uwch o lawer na'r

hyn y gallai ddarparu ar ei gyfer[7]. Roedd y fath raddau o alw gormodol yn anghyffredin iawn, ond cafodd un arweinydd ALI brofiad tebyg, gan nodi bod y galw'n uchel ac y gellid fod wedi cyrraedd mwy o blant a phobl ifanc pe bai mwy o gyllid ar gael.

‘Doedd dim bylchau yn y ddarpariaeth, ond roedd llawer o alw - gallem fod wedi gwario dwbl maint y cyllid yn rhwydd.’ - (Arweinydd ALI)

5.14 Adroddodd ysgolion y cyfwelwyd â hwy hefyd eu bod wedi cynllunio cymysgedd o ddarpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu, gan bwysleisio'r cyfleoedd a gynigiwyd gan GLILI ar gyfer cynyddu sgiliau staff mewnol a rhoi hwb i forâl staff, yn ychwanegol at y dyheadau sylfaenol o ran gwella lles plant a phobl ifanc. Roedd gweithgareddau cynlluniedig mewn ysgolion yn aml yn ffocysu ar weithgareddau ymarferol a galwedigaethol, megis gweithgareddau garddio a rhandir, celf a chrefft, gwaith coed, cerddoriaeth a chwaraeon. Er enghraifft, roedd un ysgol yn bwriadu defnyddio ei hadnoddau GLILI i greu gofod tawel a allai fod o fudd i'r ysgol gyfan, ac ar yr un pryd cynllunio cefnogaeth wedi'i thargedu yn fewnol ar gyfer plant sy'n cael trafferth gyda gorbryder neu bontio'n ôl i amgylchedd yr ysgol ar ôl y cyfyngiadau COVID-19. Roedd rhai ysgolion hefyd yn cynllunio darpariaeth GLI ar gyfer y teuluoedd mwyaf agored i niwed (megis teuluoedd â phlant sy'n gymwys am PYaDd neu lle ceir pryderon ynghylch diogelu) er mwyn darparu cyfleoedd i blant na fyddent ar gael iddyn nhw fel arall. Mewn rhai ysgolion, bwriad yr adnoddau GLILI oedd ymestyn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer y grwpiau hyn, ac mewn ysgolion eraill cynlluniwyd gweithgareddau newydd ar eu cyfer. Neilltuodd rhai ysgolion adnoddau GLILI i roi profiadau diwylliannol i blant, megis tocynnau sinema neu theatr, neu i annog plant a phobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau lleol, fel y ganolfan hamdden neu'r llyfrgell, gyda'r nod o annog diddordeb parhaol a hefyd i gefnogi'r economi leol.

[7] Cynigiodd y sefydliad 75 o leoedd yr wythnos a derbyniodd 610 o geisiadau, gan olygu y cafodd llawer o blant eu hamddifadu o’r cyfle.

### Agweddau eraill ar gynllunio darpariaeth

### Gweithgareddau awyr agored

5.15 Roedd cynllunio gweithgareddau awyr agored yn nodwedd allweddol o gynigion ysgolion. Roedd rhai ysgolion yn cynllunio gweithgareddau GLILI awyr agored fel marchogaeth neu ddringo creigiau, neu deithiau i safleoedd gofal anifeiliaid, a ystyriwyd mewn rhai achosion yn arbennig o ddefnyddiol i bobl ifanc 12+ oed a allai fod yn aflonyddgar mewn lleoliad ystafell ddosbarth. Roedd enghreifftiau o blant aflonyddgar gynt sydd bellach wedi tawelu, yn ymwneud yn fwy â'r ysgol, ac yn gyffrous i fynd i'r ysgol.

5.16 Roedd yn gyffredin hefyd i ysgolion cynradd gynllunio gweithgareddau GLILI awyr agored hefyd; esboniodd athrawon fod amgylcheddau dysgu awyr agored wedi helpu i ennyn diddordeb phlant ifainc (Blwyddyn 1-2), a'u bod yn cysylltu'n dda ag agweddau o'r cwricwlwm, fel y pwnc Blwyddyn 1-2 "yr ardd”. Adroddwyd bod y grant GLILI wedi galluogi ysgolion i brynu cyfarpar garddio a phlanhigion. Roedd hyn yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc gymryd cyfrifoldeb dros feithrin planhigion.

### Grwpiau oedran hŷn: 11-25 oed

5.17 Profodd arweinwyr ALl heriau cyffredin wrth ddatblygu cynnig ar gyfer grwpiau oedran 11+ oed. Nododd arweinwyr ei fod yn gyffredin i'r grŵp oedran hwn fod â blaenoriaethau sy'n cystadlu, fel treulio amser gyda ffrindiau neu waith cyflogedig. Gan adeiladu ar ddysgu o HoH, cynlluniodd ALl weithgareddau newydd gyda darparwyr ar gyfer y rhai 11+ oed, megis nosweithiau ieuenctid a theithiau gwersylla. Adroddodd ALl hefyd iddynt gyllido asiantaethau lleol i helpu ennyn diddordeb pobl ifanc hŷn. Un enghraifft oedd asiantaeth â ffocws ar yrfaoedd a roddodd gymorth ymarferol i bobl ifanc i ddrafftio CVs ac ymchwilio i ddewisiadau gyrfa. Bu i ALl gynnig chwaraeon wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc hŷn, megis gweithgareddau sglefrio hefyd.

5.18 Helpodd cyrff cenedlaethol i gynllunio wrth ennyn diddordeb grwpiau oedran hŷn, er enghraifft drwy gydweithio ag elusennau chwaraeon cenedlaethol. Bu i ganolfannau awyr agored wella'r cynnig ar gyfer grwpiau oedran 16+ oed hefyd, er enghraifft drwy gynnig gweithgareddau wal ddringo.

5.19 Darparodd arweinwyr AB y cyfwelwyd â hwy enghreifftiau o'r grwpiau a dargedwyd, a'r gweithgareddau a gynlluniwyd gan sefydliadau AB. Er enghraifft, gwnaethant gynllunio i gefnogi a thargedu myfyrwyr fu'n profi caledi ariannol:

‘Fe roddon nhw'r arian i fyfyrwyr mewn caledi ariannol - rhoddwyd aelodaeth gampfa er enghraifft ar sail dadansoddiad o anghenion i alluogi myfyrwyr i gymryd rhan lle na fyddai modd iddynt fel arall.’ - (arweinydd AB)

5.20 At hynny, bu iddynt dargedu darpariaeth tuag at fyfyrwyr aeddfed, myfyrwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol (SBA), myfyrwyr Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), a myfyrwyr Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). Bu i sefydliadau AB hefyd anelu at ennyn diddordeb pobl ifanc nad ydynt fel arfer yn mynychu cyfleusterau chwaraeon lleol, a chanolbwyntio ar y rhai sy'n llai egnïol, gan ddylunio gweithgareddau fel gwersylloedd gwyliau a gwersylloedd chwaraeon. Cynlluniwyd heriau awyr agored, teithiau ac arosiadau dros nos ar safleoedd gwersylla hefyd ar gyfer pobl ifanc nad oeddent wedi bod oddi cartref o'r blaen. Roedden nhw hefyd yn darparu cyfleoedd cynyddu sgiliau a hyfforddiant i fyfyrwyr AB weithio gyda phlant iau a phobl ifanc. Trwy'r gweithgareddau hyn, eu nod oedd rhoi profiadau newydd a chyfoethogol i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau personol, cymdeithasol a galwedigaethol.

**Prynu offer**

5.21 Amlygodd ysgolion werth medru gwneud cais am brynu offer ac adnoddau drwy GLILI. Fe wnaeth ysgolion gais hefyd am gyllid GLILI i gyfarparu ardaloedd i blant ag anghenion ychwanegol. Er enghraifft, gwnaeth un ysgol gais am brynu meinciau addas i bobl anabl ar gyfer eu plant/pobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Roedd yr ysgol hon hefyd yn bwriadu prynu soffas ar gyfer ei hardal chweched dosbarth, i hyrwyddo dysgu a rhyngweithio cymdeithasol ac emosiynol, ac i annog myfyrwyr i aros yn yr ysgol yn fwy am fod yr ysgol yn cynnig man diogel lle gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol. Er enghraifft, roedd un ysgol yn bwriadu sefydlu ardal synhwyraidd, i gefnogi myfyrwyr ag anableddau i ddatblygu eu cydlyniad llaw a llygad. Ymgeisiodd rhai ysgolion am offer chwaraeon i gefnogi'r holl fyfyrwyr, ond hefyd grwpiau penodol, megis offer bocsio yr oeddent yn teimlo ei

fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth helpu i reoli ymddygiad a magu hyder rhai dysgwyr.

**Costau cludiant**

5.22 Gellid defnyddio cyllid GLILI i dalu am gostau cludiant cyfranogwyr. Yn gyffredinol, penderfynodd ALl gyllido costau teithio grwpiau a dargedwyd, er enghraifft y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Nododd ALl iddynt gynllunio gweithgareddau a leolwyd o fewn pellter cerdded i gymunedau lleol, er mwyn lleihau'r risg y byddai cludiant yn rhwystr i gymryd rhan. Adroddodd rhai ALl fod cyfyngiadau ariannol ar deuluoedd yn effeithio ar bresenoldeb, er enghraifft, methu â fforddio cost tanwydd i yrru plant i weithgareddau. Lle y bu'n bosib, trefnwyd cludiant gan y darparwr addysg (ar gyfer teithiau ac aros dros nos), a bwriadwyd cynnal llawer o'r ddarpariaeth ar y safle addysg neu yn y gymuned leol, er mwyn lleihau costau cludiant.

**Darparwyr GLILI**

5.23 Cynhaliodd pob ALl broses ymgeisio am grantiau i ddarpar ddarparwyr. Roedd darparwyr yn tueddu i gynllunio darpariaeth gyda chymysgedd o staff mewnol ac allanol. Roedd staff mewnol ALl yn cynnwys aelodau o dimau gofal plant, chwarae, lles ac atal cymunedol a datblygu cymunedol. Roedd staff mewnol o sefydliadau AB yn cynnwys athrawon/technegwyr pynciau galwedigaethol (gan gynnwys ffotograffiaeth, graffeg, arlwyo a chwaraeon), ac roedd ysgolion yn cynnwys eu Cynorthwywyr Addysgu mewn cynlluniau cyflwyno. Nodwyd staff allanol a oedd wedi'u recriwtio gan sefydliadau AB ymhlith busnesau a sefydliadau lleol fu'n cynnig sgiliau a gweithgareddau arbenigol/penodol, gan gynnwys canolfannau gweithgareddau awyr agored, therapyddion, cerddorion, artistiaid a champwyr proffesiynol. Roedd cynnwys staff mewnol yn ystyriaeth ymarferol, o ystyried yr amserlenni cynllunio byrion. Roedd sefydliadau AB hefyd yn gobeithio y byddai'r ymagwedd hon yn cynorthwyo cynaladwyedd (h.y. medru parhau i ddarparu o leiaf rhai o'r gweithgareddau ar ôl diwedd y cyllid GLILI) drwy adeiladu sgiliau staff a rhoi cyfleoedd iddynt a fyddai'n cyfrannu at eu cadw nhw.

5.24 O fewn holl llinynnau GLILI, cysylltwyd â darparwyr allanol arbenigol i gyflwyno sgiliau neu arbenigedd penodol. Er enghraifft, fe wnaeth un ysgol gais am gyllid

GLILI ar gyfer therapydd cerdd allanol i weithio'n bennaf gyda phlant sy'n derbyn gofal. Cynlluniodd ysgol arall ddarpariaeth GLILI gan athletwr paralympaidd proffesiynol, ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid, i hyrwyddo cynwysoldeb chwaraeon. Fe wnaeth ysgol arall gais am gyllid i'r fyddin i gynnal digwyddiad deuddydd ar gyfer plant Blwyddyn 2-6, er mwyn cefnogi eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol.

‘[Gwnaethon ni gynllunio] gwaith tîm, sgiliau datrys problemau, meddwl yn feirniadol. Roedd yn ymdrin â'r holl fathau hynny o sgiliau a magu hyder.' - (Arweinydd ysgol)

**Darparwyr arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau**

5.25 Bu i ALl ddefnyddio darparwyr arbenigol i gyflwyno gweithgareddau i blant a phobl ifanc anabl. Dywedodd rhai arweinwyr ALl fod argaeledd darparwyr arbenigol yn gyfyngedig yn eu hardal. Roedd ysgolion hefyd wedi cynllunio darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc anabl, fel cyllido amser cynorthwyydd addysgu (CA) ychwanegol i ddarparu cymorth un-i-un i blant i gymryd rhan mewn gweithgareddau synhwyraidd. Adroddodd yr ysgolion hyn fod angen y gwaith un-i-un i hyrwyddo lles plant a lleddfu straen. Defnyddiwyd amser CA i gefnogi plant ag awtistiaeth a phlant a oedd wedi cyrraedd Cymru yn ddiweddar (er enghraifft, o Wcráin) i gymryd rhan yn GLILI.

**Darparwyr cyfrwng Cymraeg**

5.26 Roedd pob arweinydd ALl yn ymwybodol o'r angen am gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, amrywiodd argaeledd darparwyr a allai gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg fesul ALl. Mewn rhai ALl, roedd gan ddarparwyr staff a oedd yn gallu cyflwyno gweithgareddau'n ddwyieithog. Adroddodd rhai arweinwyr ALl am ddarparu sesiynau cyfrwng Cymraeg i gyfranogwyr yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

5.27 Esboniodd rhai ALl nad oedd gan ddarparwyr lleol staff â sgiliau cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yn y siroedd lle mai Saesneg yw’r brif iaith. Mynegodd nifer fach o arweinwyr ALl y cyfwelwyd â hwy y farn bod teuluoedd yn eu hardal wedi dangos lefel isel o ddiddordeb mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Teimlodd nifer o

arweinwyr ALl y byddai wedi bod yn ddefnyddiol gofyn am wybodaeth yn y cais gan ddarparwyr ynghylch prif iaith y ddarpariaeth, a sut y byddent yn darparu ar gyfer pobl sydd am gael darpariaeth yn Gymraeg. Cynlluniodd un mudiad cenedlaethol ar gyfer siaradwyr Cymraeg ifanc fel eu prif gynulleidfa darged. Amlygodd un sefydliad AB ei fod wedi datblygu partneriaeth â ColegauCymru, fel rhan o'u gwaith o gynllunio GLILI, a fyddai'n darparu cyfleoedd datblygu'r cwricwlwm y tu hwnt i GLILI, gan gynnal rhai o fuddion GLILI y tu hwnt i'r amserlen gyllido.

**Sicrhau ansawdd darparwyr**

5.28 Cyhoeddodd ALl gytundebau cyllido i'r darparwyr a ddewiswyd. Roedd yn ofynnol i bob sefydliad newydd ei benodi fodloni safonau ansawdd yr ALl. Roedd enghreifftiau o brosesau sicrhau ansawdd yn cynnwys adolygiadau o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus darparwyr, polisi iechyd a diogelwch a pholisi diogelu. Adroddodd ALl hefyd iddynt sicrhau bod gan bob darparwr wiriadau DBS ac asesiadau risg yn eu lle. Dywedodd arweinwyr llinyn ALl fod ganddynt brosesau sicrhau ansawdd a lle y bu modd, eu bod wedi cynnal ymweliadau monitro achlysurol i arsylwi rhai o'r gweithgareddau a gyflwynwyd, er bod capasiti yn rhwystr ac yn cyfyngu i ba raddau y gallai ALl fonitro darpariaeth y darparwyr. Ynghyd â pha mor gyflym y penodwyd darparwyr, roedd rhai arweinwyr ALl yn pryderu a oedd yr holl brosesau sicrhau ansawdd wedi'u gweithredu'n ddigonol.

5.29 Adroddodd sefydliadau cenedlaethol mewn cyfweliadau fod ganddynt brosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith eisoes. Amlygodd un sefydliad cenedlaethol na chyflawnwyd ymweliadau monitro bob amser, oherwydd lledaeniad y lleoliadau ac amserlenni tynn.

5.30 Ar sawl achlysur derbyniodd cyrff cenedlaethol ymholiadau gan ddarparwyr, y gwnaethant eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru - megis a fyddai modd cynnwys rhieni/gofalwyr yn y niferoedd targed ar gyfer gweithgareddau awyr agored (sydd hefyd yn awgrymu diffyg eglurder o ran sut i gofnodi GR).

5.31 Dywedodd rhai o'r sefydliadau AB y cyfwelwyd â hwy iddynt ddarparu manylion eu polisi rheoliadau ariannol mewn perthynas â chostau i'w darparwyr, tra bod gan ddarparwyr allanol eu gweithdrefnau diogelwch ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus eu hunain yn eu lle. Dywedodd rhai sefydliadau AB hefyd eu bod yn glynu wrth

bolisïau ymweliadau addysgol llym (ar gyfer teithiau ac aros dros nos): paratôdd arweinwyr grŵp yr holl waith papur ac asesiadau risg, a oedd wedyn yn cael eu hadolygu gan bwyllgor Iechyd a Diogelwch y sefydliad a'u cymeradwyo gan uwch reolwyr.

**Profiad gwaith a gwirfoddoli**

5.32 Roedd gweithluoedd gwirfoddolwyr yn rhan o fodelau GLILI rhai ALlau. Adroddodd yr ALlau hyn iddynt dynnu ar eu gwirfoddolwyr presennol i gefnogi'r cyflwyniad gan ddarparwyr.

‘Bu'n syndod i mi weld y niferoedd mawrion o bartneriaid mewn cymunedau a gysylltai â ni, o ran pobl yr oeddent eisiau gwneud rhywbeth yn eu cymuned - efallai bod y pandemig wedi meithrin yr ysbryd hwnnw o gamu i'r adwy a gwirfoddoli.' (Arweinydd ALl)

5.33 Roedd un o'r cyrff cenedlaethol yn cynllunio cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc 14-25 oed a phrofiad gwaith/cyflogaeth â thâl (ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed) i ddylunio cynnwys digidol a chyfryngau cymdeithasol yn eu model GLILI. Adroddwyd bod y gweithgareddau hyn yn hynod boblogaidd ac wedi eu gor-danysgrifio.

5.34 Roedd nifer o ysgolion uwchradd wedi cynllunio cyfleoedd gysylltiedig â gwaith fel rhan o'u darpariaeth GLILI. Er enghraifft, mewn un ysgol roedd plant hŷn a phobl ifanc yn gyfrifol am drefnu digwyddiadau ac ennyn diddordeb plant a phobl ifanc iau.

**Ffactorau rhwystro a galluogi cynllunio'n lleol**

5.35 Profodd arweinwyr rhaglenni ar draws yr holl linynnau ffactorau rhwystro a galluogi tebyg i gynllunio.

**Rhwystrau**

5.36 Thema allweddol ar draws y sefydliad cenedlaethol a'r llinyn ALl oedd cynllunio sut i wario swm mawr o arian o fewn cyfnod byr a gydag amser byr i baratoi. Teimlai'r rhai y cyfwelwyd â hwy y buasai modd iddynt wario'r arian yn effeithiol, ond gan nodi y byddai mwy o amser paratoi wedi caniatáu cynllunio mwy trwyadl. Roedd y cyfnod byr hefyd yn golygu bod rhai yn profi trafferth wrth ennyn diddordeb staff i gymryd rhan mewn cynllunio a chyflwyno ac roedd ALlau yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff ychwanegol i lenwi bylchau o ran capasiti.

5.37 Roedd GLILI yn gweithredu yng nghyd-destun COVID-19 a mesurau cenedlaethol a lleol newidiol. Esboniodd arweinwyr ALI fod rhai digwyddiadau wedi'u canslo neu eu cynllunio gyda chapasiti cyfyngedig, o ganlyniad i'r mesurau diogelwch COVID-19. Roedd rhai teuluoedd yn gyndyn o fanteisio ar gynigion oherwydd gofidion o ran cymysgu ag eraill a mynd yn sâl. Roedd yr arweiniad GLILI yn annog y defnydd o leoliadau awyr agored lle y bu modd, gan achosi rhai heriau cynllunio ymarferol yn ystod misoedd y gaeaf, o ystyried y tywydd gwael ac oriau golau dydd byrrach.

‘Roedd rhaid canslo neu symud [rhai gweithgareddau] neu eu newid neu fynd â nhw ar-lein... Gobeithio [ar gyfer y GLILI nesaf] y bydd modd i ni ddefnyddio lleoliadau dan do yn hytrach na cheisio annog ein darparwyr i ddefnyddio lleoliadau awyr agored, sy ddim yn gweithio cystal yn y gaeaf.’ (Arweinydd ALI)

5.38 Fel y nodwyd yn flaenorol, rhwystr pellach a adroddwyd gan arweinwyr ALI oedd yr oedi cyn derbyn yr arweiniad marchnata a brandio swyddogol. Roedd hyn yn creu ansicrwydd ac yn golygu bod rhai darparwyr wedi datblygu eu brand GLILI eu hunain. Dywedodd un ALI iddo ofyn i Lywodraeth Cymru a fyddai modd ymestyn rhaglenni lleol drwodd i'r Pasg, ond fe wrthodwyd hynny. Roedd yr amserlenni byrion a'r oedi'n ei gwneud hi'n anodd cynllunio darpariaeth a sicrhau partneriaid cyflwyno allanol.

5.39 Cymhlethdod arall a oedd yn effeithio ar gynllunio lleol oedd newidiadau munud olaf a wnaed i ofynion gwybodaeth monitro GLILI. Dywedodd un ALI fod yr ymarfer cywain data mandadol yn fwy trylwyr o'i gymharu â HoH. Dywedodd un arweinydd ALI fod y newid hwn yn y gofyniad wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru "ar y funud olaf" a bod yr amser a dreuliwyd wrth helpu darparwyr i sefydlu systemau monitro data wedi'i wastraffu'n lleol felly.

5.40 Adroddodd arweinwyr ALI fod recriwtio staff cyflwyno'n her o ystyried natur tymor byr y cyllid, gan olygu bod rhai cyflenwyr priodol eisoes yn brysur a heb fod ar gael.

‘Weithiau roedd gennym fynegiadau o ddiddordeb ac fel ddaeth yn amlwg na fyddai modd iddynt gyflwyno popeth yr oedden nhw eisiau ei wneud oherwydd staffio.' - (Arweinydd ALI)

### Ffactorau galluogi

5.41 Adroddodd arweinwyr ALl am sawl ffactor a oedd wedi hwyluso'r cam cynllunio, sef cael cefnogaeth ddigonol ac o ansawdd da gan Lywodraeth Cymru a meithrin perthnasoedd a chysylltiadau â darparwyr, a oedd yn lliniaru'r cyfnod cynllunio byr mewn rhai achosion. Adroddodd arweinwyr ALl i nifer fawr o ddarparwyr yr oeddent wedi cymryd rhan yn HoH gynnig gwasanaethau ar gyfer GLlLl, gan nodi bod hyn o ganlyniad i boblogrwydd y gweithgareddau awyr agored am fod pobl yn teimlo'n fwy diogel yn cymysgu yn yr awyr agored. Golygodd hyn y gallai darparwyr AB ac ysgolion ymgyfarwyddo â gofynion cynllunio'n gyflym, ac mewn rhai achosion, galw ar bartneriaethau fu'n bodoli eisoes. Croesawodd sefydliadau cenedlaethol hefyd yr opsiwn i adeiladu ar gysylltiadau presennol gyda phartneriaid/darparwyr.

5.42 Rhoddodd y cyllid GLlLl gyfle hefyd i ALl dreialu gweithgareddau newydd nad oeddent wedi’u cyllido o'r blaen (fel digwyddiadau parc sglefrfyrddio i bobl ifanc). Roedd yr hyblygrwydd i ALl ail-neilltuo cyllid yn gweithio'n dda. Mewn nifer o achosion, adroddwyd bod darparwr sector gwirfoddol yn rhagweld gofyn am fwy o gyllid ac y gallai'r ALl wirio gyda darparwyr eraill a gofyn a oedden nhw'n rhagweld tanwariant, ac os felly, gallai'r ALl ail-neilltuo cyllid er mwyn mwyafu'r ddarpariaeth.

5.43 Ffactor galluogi arall a grybwyllwyd gan rai ALl oedd bod cynnwys tîm cyllid yr ALl o'r cychwyn cyntaf yn hytrach nag ar ddiwedd y broses ymgeisio yn gweithio'n dda. Roedd darparwyr AB ac ysgolion hefyd yn croesawu lefel y gefnogaeth a ddarparwyd gan ALl. Er enghraifft, datblygodd un ALl daflen wybodaeth am grantiau i helpu sefydliadau AB ac ysgolion i ddeall yn hawdd yr hyn a ddisgwyliwyd ganddynt.

5.44 Bu i arweinwyr ALl grybwyll hefyd fod GLlLl wedi'u galluogi i ddefnyddio'r cyllid i recriwtio darparwyr a llenwi bylchau - fel cefnogaeth i bobl ifanc anabl - drwy ddarparu adnoddau i ymestyn y ddarpariaeth, prynu mwy o offer a chyflwyno sesiynau ychwanegol. Adleisiwyd hyn gan sefydliadau AB, ysgolion, a chyrff cenedlaethol, a oedd yn bwriadu darparu gweithgareddau newydd sy'n agored i bawb (megis chwaraeon, celf a chrefft) a darpariaeth ac offer a dargedwyd ar gyfer grwpiau arbenigol (megis gweithgareddau synhwyraidd i blant ag ADY, ac arosiadau dros nos i bobl ifanc nad oeddent wedi bod oddi cartref o'r blaen).

## 6. Cyflwyno

6.0 Mae'r adran hon yn manylu ar sut y cyflwynwyd GLILI, gan gynnwys y prif weithgareddau a gynigiwyd, lleoliad, amseru ac iaith y ddarpariaeth, p'un a ddarparwyd cludant, y darparwyr perthnasol, y niferoedd fu'n manteisio ar y ddarpariaeth a phresenoldeb. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar gyfweliadau gydag arweinwyr llinyn a'r arolwg darparwyr.

**Proffil cyfranogwyr**

6.1 Mae'r arolwg cyfranogwyr yn rhoi trosolwg o nodweddion demograffig cyfranogwyr GLILI. Fodd bynnag, dylid trin y data hwn yn ofalus gan y cynhaliwyd yr arolwg gyda sampl cyfleustra. Yn seiliedig ar ymatebion i'r arolwg cyfranogwyr, roedd dros hanner y cyfranogwyr rhwng pump a 10 oed, ac roedd chwarter rhwng 11 a 13 oed. Dangosir dadansoddiad oedran llawn yn y tabl isod.

**Tabl 4. Dadansoddiad oedran o gyfranogwyr GLILI**

| Oedran | Cyfranogwyr |
|---|---|
| 0-4 | 5% |
| 5-10 | 51% |
| 11-13 | 26% |
| 14-16 | 8% |
| 17-20 | 8% |
| 21-25 | 2% |
| *Sylfaen* | 2,813 |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

6.2 Dywedodd ychydig yn fwy o gyfranogwyr eu bod yn fenywaidd (52 y cant) nac yn wrywaidd (45 y cant). Nododd dau y cant eu bod yn rhywedd arall, ac roedd yn well gan ddau y cant beidio â nodi eu rhywedd (n=2,801). Nododd 90 y cant o'r cyfranogwyr eu bod yn Wyn, dau y cant eu bod yn Asiaidd, dau y cant eu bod yn Ddu, ac un y cant eu bod yn bob un o'r canlynol: Arabaidd, grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog, a grŵp ethnig arall. Roedd yn well gan dri y cant beidio â dweud beth oedd eu grŵp ethnig (n=2,303). Dywedodd deg y cant o'r ymatebwyr fod ganddynt

salwch corfforol neu feddyliol sy'n para neu y disgwylir iddo bara am flwyddyn neu fwy, dywedodd 80 y cant nad oedd salwch ganddynt, a dywedodd naw y cant nad oedden nhw'n gwybod (n=2,227).

**Y gweithgareddau a gyflwynwyd**

6.3 Amrywiodd y mathau o weithgareddau a gyflwynwyd trwy GLILI ar draws yr llinynnau. Roedd y gweithgareddau'n perthyn i gategorïau eang o weithgareddau chwaraeon ac awyr agored, celf a chrefft, digwyddiadau a gynhaliwyd mewn gofodau cymunedol a theithiau, e.e. sinema neu fowlio. Roedd enghreifftiau o chwaraeon yn cynnwys ioga, ffitrwydd cyffredinol, tenis bwrdd, pêl-rwyd, pêl-droed, *parkour*, a gymnasteg, ac roedd gweithgareddau awyr agored yn cynnwys gwersylla, ogofa, caiacio, padlfyrddio, sglefrio, garddio a beicio mynydd. Crybwyllwyd ystod eang o weithgareddau celf a chrefft, gan gynnwys gwnïo, coginio/maeth, canu, drymio, rapio a DJ mewn cyfweliadau ag arweinwyr llinyn hefyd. Cynigiwyd ymweliadau diwylliannol ag amgueddfeydd a llyfrgelloedd gan arweinwyr ALI a sefydliadau cenedlaethol.

6.4 Cynigiwyd gweithgareddau oedd yn canolbwyntio ar les hefyd, megis ioga, therapi cŵn a gweithgareddau ymlacio ar draws yr holl linynnau (gan gynnwys AU, fel y crybwyllwyd yn adroddiad CCAUC).

6.5 Mewn rhai achosion, roedd y ffocws yn amrywio fesul grwpiau oedran, fel gweithgareddau a ddyluniwyd i fagu hyder pobl ifanc hŷn. Er enghraifft, roedd un ALI yn targedu pobl ifanc drwy rwydweithiau gofalwyr ifainc, ac yn cynnal gweithgareddau lles, megis ioga, ar eu cyfer. Y gweithgareddau a fu'n canolbwyntio ar hwyl a chymdeithasu oedd y ffocws allweddol i sefydliadau AB. Defnyddiodd un sefydliad AB y cyllid i redeg Gŵyl o Hwyl i bobl ifanc, gan gynnwys teithiau i'r sinema, bowlio, laser-tag, certiau cyflym, cestyll neidio, ac anogaeth.


‘[Roedd [Gŵyl o Hwyl] dim ond i ddysgwyr mewn grwpiau cyfeillgarwch. Roedd llawer yn ei chael hi'n anodd cynnal neu ailgynnau cysylltiadau cymdeithasol. Roedden nhw wedi colli'r grefft o sgwrsio a rhoi sylw i eraill, roedd yn ymwneud ag ennyn sgiliau cymdeithasol o ryngweithio a mwynhau eich hun gydag eraill.’ - (arweinydd AB)

6.6 Roedd sefydliadau cenedlaethol yn tueddu i gyflwyno gweithgareddau drwy ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol pellgyrhaeddol. Er enghraifft, cynhaliodd un sefydliad cenedlaethol 440 o ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol ar draws Cymru, a chynhaliodd un arall ŵyl GLILI a oedd yn cynnwys 27 o weithgareddau gwahanol gyda dros 50 o sesiynau rhaglen mewn amgueddfeydd lleol a chenedlaethol ar draws Cymru. Roedd sefydliad cenedlaethol arall yn rhedeg 38 o brosiectau cymunedol a phartneriaeth dan arweiniad pobl ifanc. Gweler Atodiad B ar gyfer astudiaethau achos gan ddarparwyr GLILI.

6.7 Roedd arweinwyr ysgol yn cynnig dewis o weithgareddau dan do ac awyr agored. Roedd rhai ysgolion yn cynnig gweithgareddau penodol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran, a bu i rai eraill fanteisio ar y cyfle i annog plant hŷn ac iau i gymdeithasu â'i gilydd. Soniodd nifer fach o arweinwyr ysgol am gynnig gweithgareddau dysgu academaidd, er enghraifft defnyddio coginio a maeth neu chwarae gemau cardiau i ddysgu sgiliau mathemateg.

6.8 Mae deilliannau'r arolwg darparwyr, a gynhaliwyd gyda darparwyr gweithgareddau ar draws pob llinyn, yn rhoi trosolwg o'r categorïau o weithgareddau a gynigiwyd. Mae'n dangos cyffredinolrwydd gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol a chelfyddydol a chrefft ochr yn ochr ag amrywiaeth o weithgareddau eraill.

**Ffigur 3. Gweithgareddau a gynigiwyd gan ddarparwyr**




Sylfaen n= 477; Ffynhonnell: Arolwg darparwyr. Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog.

**Lleoliad y ddarpariaeth**


6.9 Un thema allweddol ar draws ALI oedd defnyddio gofodau cymunedol, megis canolfannau teuluol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, neu ganolfannau ieuenctid i gynnal gweithgareddau. Sefydlodd un ALI stondin lles gwib mewn canol tref lle cyflwynwyd gweithgareddau teuluol, yr oedd wedi’u dylunio i gynnwys pob oedran, gan gynnwys ardaloedd chwarae i blant bach, sesiynau ioga a lles a anelwyd at bobl ifanc. Roedd hyn yn debyg i gyrff cenedlaethol, lle roedd y ddarpariaeth hefyd yn canolbwyntio ar fannau cymunedol fel rhan o ddigwyddiadau lleol neu genedlaethol.

6.10 Defnyddiodd ysgolion a sefydliadau AB eu hadeiladau i gyflwyno gweithgareddau lle y bu hynny'n bosib. Mewn rhai achosion, cynhaliwyd y ddarpariaeth mewn canolfannau hamdden neu chwaraeon lleol. Roedd sefydliadau AB fu'n rhedeg 'diwrnodau hwyl' yn defnyddio canolfannau adloniant lleol, fel sinemâu a chanolfannau bowlio.

6.11 Ar draws yr holl linynnau, darparwyd gweithgareddau awyr agored mewn parciau, coedwigoedd, neu gyfleusterau chwaraeon dŵr lleol.

6.12 Adleisiodd yr arolwg darparwyr y canfyddiadau a grybwyllwyd uchod o gyfweliadau gydag arweinwyr llinyn, gan ddangos bod y cyflwynwyd y gweithgareddau mewn ystod o fannau cymunedol. Mae ysgolion a sefydliadau addysg yn cynrychioli'r lleoliad mwyaf cyffredin ar gyfer cyflwyno gweithgareddau. Mae hyn yn debygol yn bennaf oherwydd i staff ysgolion a gwblhaodd yr arolwg nodi eu bod yn defnyddio eu cyfleusterau ysgol eu hunain.

**Ffigur 4. Lle y cyflwynwyd gweithgareddau gan ddarparwyr**




Sylfaen n= 478; Ffynhonnell: arolwg darparwyr. Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog.

**Amser ac amlder y ddarpariaeth**

6.13 Ar draws yr holl linynnau, cynhaliwyd gweithgareddau ar amserau amrywiol er mwyn caniatáu cymaint o gyfranogiad gan y grwpiau targed â phosib, gan gynnwys boreau, nosweithiau, a phenwythnosau. Roedd amlder y ddarpariaeth hefyd yn amrywio, gyda darparwyr yn cynnal sesiynau un diwrnod neu fwy yr wythnos o gwmpas oriau ysgol, tra bod eraill wedi cyflwyno gweithgareddau yn ystod hanner tymor i annog cyfranogiad gan blant, pobl ifanc, a'u teuluoedd.

6.14 Mewn cyferbyniad â hynny, tueddodd ysgolion a sefydliadau AB i gyflwyno gweithgareddau GLILI o amgylch y diwrnod ysgol. Un thema fawr i sefydliadau AB oedd darparu ar gyfer y rhai yn y grwpiau oedran hynaf, a oedd yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau ychwanegol, megis plant neu gyflogaeth. Amserodd rhai sefydliadau AB eu cynigion yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer hyn.


**Darparu cludiant**

6.15 Darparodd rhai arweinwyr ALI a sefydliadau cenedlaethol gludiant ar gyfer cyfleoedd penodol, er enghraifft, bws mini i fynd â chyfranogwyr i weithgareddau y tu allan i'w hardal leol e.e. llinellau sip, neu er mwyn osgoi rhwystrau cludiant i'r rhai

sy'n cymryd rhan mewn cynigion cymorth a dargedwyd. Roedd ysgolion a sefydliadau AB yn cynnig cludiant i weithgareddau a gynhaliwyd oddi ar y campws.

6.16 Dengys deilliannau'r arolwg fod bron i draean o'r cyfranogwyr wedi derbyn cludiant gan y darparwr (29 y cant), fodd bynnag yn y rhan fwyaf o achosion fe aethant i'r gweithgareddau ar eu pennau eu hunain.

**Ffigur 5. Sut y teithiodd cyfranogwyr i weithgareddau**




Sylfaen n= 2,315; Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr. Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog.

Sylfaen n ar gyfer 18+: 136. O'r rhai dros 18 oed, gyrrodd 24 y cant eu hunain i'r gweithgareddau

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

6.17 Amrywiodd y gallu i gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws llinynnau ac ardaloedd. Roedd yr ymdrech i gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn thema allweddol ar draws arweinwyr ALI, lle'r oedd rhai wedi ceisio cynnig gweithgareddau'n ddwyieithog a chaniatáu i blant a phobl ifanc ddewis. Roedd un ALI yn cynnig gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, ond nid oedd hyn yn arfer cyffredin. Mewn rhai eraill, gwnaed ymdrech i gynnwys cyfrwng Cymraeg yn y ddarpariaeth, ond nid oedd bob amser yn bosib ddod o hyd i ddarparwyr oedd yn gallu cyflwyno'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn bennaf

oherwydd anawsterau wrth ddod o hyd i ddarparwyr a allai gyflwyno gweithgareddau yn y Gymraeg. Mewn rhai achosion, teimlai arweinwyr ALI ei bod yn bwysig meithrin cynhwysiad trwy gael cynnig y Gymraeg a bod modd iddynt ddod o hyd i ddarparwyr a allai gynnig gweithgareddau'n ddwyieithog.

‘[Yr Awdurdod Lleol] yw un o'r ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd, felly mae lot o'r clybiau chwaraeon maen nhw’n hyfforddi ac yn chwarae gan wneud popeth trwy gyfrwng y Gymraeg, mae jyst yn ffordd naturiol o'i wneud o. Felly dw i'n meddwl mai creu hwnna yw’r nod, chi'n gwybod, er bod dwy iaith wahanol o fewn y sir, mae hi'n bwysig nad oes neb yn cael eu heithrio achos bod ti ond yn siarad Cymraeg, neu ti ond yn siarad Saesneg.’ - (Arweinydd ALI)

6.18 Teimlodd Arweinydd Cymraeg GLILI Llywodraeth Cymru fod cyfrwng Cymraeg yn cael ei drin yn fwy fel ychwanegiad at weithgareddau a ariannwyd fel rhan o'r rhaglen Gaeaf Llawn Lles. Gallai weld bod arweinwyr ALI wedi gwneud ymdrechion i sicrhau dwyieithrwydd ond byddai wedi hoffi gweld 'mwy o greadigrwydd' o ran y defnydd o'r Gymraeg. Adlewyrchwyd y farn hon gan ymatebwyr eraill a ddywedodd iddynt deimlo ei bod yn anodd cyflwyno gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

6.19 Un thema allweddol ymhlith arweinwyr ALI oedd eu bod yn cael trafferth recriwtio darparwyr cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu darpariaeth ieuenctid. Soniodd rhai am ddiffyg argaeledd darparwyr yn cynnig gweithgareddau i grwpiau oedran hŷn, a oedd yn cynnwys gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg

‘Dyn ni'n gweld bod yr amrediad ieuenctid ar goll o ran darparwyr... ond fe wnaethon ni ariannu'r darparwyr Cymraeg oedd gennym ni, ond does gennym ni ddim hanner digon o ddarparwyr Cymraeg yn ymgeisio o gymharu â darparwyr Saesneg.' - (Arweinydd ALI)

6.20 Mewn rhai achosion, canolbwyntiodd cyfleoedd darpariaeth Gymraeg ar ddigwyddiadau diwylliannol. Er enghraifft, cynhaliodd un ALI ddigwyddiad ar thema Gymreig a fu'n cynnwys cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd y dull hwn o annog cyfrwng Cymraeg drwy weithgareddau creadigol yn rhywbeth yr oedd arweinydd y Gymraeg wedi'i annog. Nid oedd darpariaeth Gymraeg yn gyffredin yn y ddarpariaeth gan sefydliadau AB. Disgrifiodd un arweinydd AB y defnydd o ddathliadau Gŵyl Dewi i annog y defnydd o'r Gymraeg.

‘[Gyda] digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi er enghraifft, [roedden ni'n] annog y defnydd o'r Gymraeg. Ac [roedd] un achos ble maen nhw wedi defnyddio'r arian i'w cael nhw [adnoddau ar-lein] wedi’u cyfieithu i'r Gymraeg er mwyn iddyn nhw allu cynnig nhw yn Gymraeg hefyd.’ - (arweinydd AB)

**Darparwyr a chaffael**

6.21 Roedd defnyddio'r cyllid hwn fel cyfle i adeiladu cysylltiadau â darparwyr newydd ar draws ardal yr ALI, yn ogystal â chynnal cysylltiadau â darparwyr yr oeddent wedi'u defnyddio o'r blaen, yn brif thema ar gyfer arweinwyr ALI. Aeth rhai ati i sefydlu panel i brosesu ceisiadau a chynnig ystod eang o gefnogaeth.

‘Fe wnaethom drefnu llawer o sesiynau cymorth i'r darparwyr, yn ychwanegol at yrru e-byst, gwahodd cynigion, gwirio cynigion, cyhoeddi e-byst o ddyfarniad i bawb, ac atodi'r cytundebau grant, y cytundebau ffurfiol a oedd yn nodi eu holl ddeilliannau a'u targedau a'r dyddiadau yr oeddem angen gwahanol setiau o wybodaeth.’ - (Arweinydd ALI)

6.22 Roedd rhai ALI yn cael caffael darparwyr yn heriol, yn enwedig wrth gadarnhau bod gan ddarparwyr newydd y polisïau a'r gweithdrefnau COVID-19 cywir yn eu lle, ac uwchlwytho gwybodaeth darparwyr newydd i wefan Llywodraeth Cymru. Mewn rhai achosion, roedd ALI yn ei chael hi'n anodd cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd ar ddarparwyr newydd oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Am y rhesymau hyn, dewisodd rhai ddefnyddio darparwyr cyfarwydd.

6.23 Un thema bwysig i arweinwyr sefydliadau cenedlaethol oedd defnyddio darparwyr allanol i gyflwyno gweithgareddau, fel anogwyr chwaraeon, athrawon cerddoriaeth neu ddarparwyr sy'n arbenigo mewn digwyddiadau teuluol. Er enghraifft, bu i un sefydliad cenedlaethol gynnal digwyddiadau 'cwrdd â'r awdur' i blant mewn llyfrgelloedd lleol ac yn ddigidol.

6.24 Thema i ysgolion a sefydliadau AB oedd defnyddio staff addysgu presennol i gyflwyno gweithgareddau yn yr ysgol. Roedd arweinwyr ysgolion a allai ddefnyddio darparwyr allanol yn teimlo'n gadarnhaol am hyn, er enghraifft bu i arweinydd ysgol ganmol darparwr am gynnal gemau llawn hwyl gyda phlant a oedd hefyd yn dysgu


hyder a sgiliau arwain iddynt. Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi parhau i gynnal gweithgareddau gyda darparwyr allanol ar ôl diwedd y cyllid GLILI.

6.25 Oherwydd yr amserlenni tynn fu'n gysylltiedig â'r cyllid hwn, teimlodd rhai arweinwyr AB nad oedd modd iddynt ffurfio partneriaeth â chyrff cenedlaethol neu ddarparwyr allanol i gyflwyno gweithgareddau ar y campws. Profwyd anawsterau gan rai o ran cael darparwyr allanol i gyflwyno gweithgareddau ar y campws oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Bu i'r rhai yr oeddent am ffurfio partneriaeth gyda darparwyr allanol oresgyn yr anawsterau hyn drwy gynnal digwyddiadau a gweithgareddau mewn canolfannau hamdden lleol lle gallai staff y canolfannau redeg y ddarpariaeth. Dewisodd eraill i ddefnyddio hyfforddwyr llawrydd yn hytrach na chwmnïau sefydledig, gan iddynt deimlo y byddai angen mwy o amser ymsefydlu ar gwmnïau i gyflwyno gweithgareddau ar y campws. Fel arfer, defnyddiwyd yr hyfforddwyr llawrydd hyn i gyflwyno gweithgareddau arbenigol, megis animeiddio, dawns, neu *parkour*.

6.26 Mewn rhai achosion, roedd sefydliadau AB yn cynnig gofal plant i gyfranogwyr hŷn sydd â phlant ifanc er mwyn i gynifer o bobl â phosib gymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd rhai sefydliadau AB yn cynnig gofal plant ar y campws wrth i weithgareddau gael eu cynnal neu mewn partneriaeth â darparwyr allanol a oedd hefyd yn darparu gofal plant. Bu i eraill gyfuno darpariaeth i oedolion ifainc a phlant bach er mwyn i'r rhai â phlant fynychu'r un gweithgaredd.

6.27 Dywedodd dros hanner yr holl ymatebwyr i'r arolwg darparwyr (55 y cant) eu bod wedi defnyddio staff â thâl i ddarparu gweithgareddau. Roedd mwy na phedwar o bob deg (42 y cant) yn defnyddio staff addysgu a 27 y cant yn defnyddio CA. Fel arfer roedd staff yr ysgol yn cael eu talu fesul awr i redeg gweithgareddau GLILI yn yr ysgol.

**Ffigur 6. Math o ddarparwr**[8]




Sylfaen n= 482; Ffynhonnell: Arolwg darparwyr. Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog.

**Gwirfoddolwyr**

6.28 Roedd y defnydd o wirfoddolwyr i redeg gweithgareddau'n cynrychioli cyfran fach o'r gweithlu GLILI, ar draws pob llinyn. Fel y mae Ffigur 6 yn ei ddangos, dywedodd 11 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg darparwyr iddynt ddefnyddio gwirfoddolwyr. Mewn nifer fach o achosion, gofynnodd ALI i wirfoddolwyr gymryd rhan wrth ddarparu digwyddiadau cymunedol neu i alluogi gweithgareddau i redeg ar raddfa fawr.

**Darparwyr arbenigol**

6.29 Ar draws pob llinyn roedd enghreifftiau o ymdrechion i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc sy'n arbennig o agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau neu blant â gorbryder ynghylch pontio'n ôl i'r ysgol ar ôl i ysgolion gau'n rhannol oherwydd COVID-19. Er enghraifft, bu i un ALI gydweithio â darparwr lleol i redeg sesiynau celf ar gyfer oedolion ifainc ag anableddau dysgu difrifol. Defnyddiodd ALI

[8] Dosbarthwyd yr arolwg darparwyr i ddarparwyr fu'n cyflwyno gweithgareddau GLILI. Roedd hyn yn cynnwys darparwyr ALI, sefydliadau cenedlaethol ac ysgolion. Un o'r cwestiynau yn yr arolwg oedd: *"Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r staff sy'n rhedeg y ddarpariaeth Gaeaf Llawn Lles i blant a phobl ifanc?" (dewiswch bob un sy'n berthnasol)*: Athrawon/ darlithwyr, Cynorthwywyr Addysgu, darparwyr gweithgareddau â thâl gan gynnwys hyfforddwyr â thâl, Llysgennad ifanc, Gwirfoddolwyr gan gynnwys anogwyr gwirfoddol, Ddim yn gwybod

arall sefydliad sy'n targedu plant a phobl ifanc ag anableddau corfforol a dysgu i gynnal rhaglenni penodol ar gyfer plant anabl, gan gynnwys ar gyfer plant mewn gofal. Fodd bynnag, teimlai rhai arweinwyr ysgol ac AB mai ychydig iawn o amser oedd ganddynt i ffocysu ar blant a phobl ifanc mwy agored i niwed, a theuluoedd na fyddent fel arfer yn ymwneud â gweithgareddau cyfoethogi ychwanegol.


**Pobl ifanc hŷn**

6.30 Profodd rhai darparwyr ostyngiad mewn presenoldeb dros amser i'r rhai 16 oed ac yn hŷn, yn ogystal ag anhawster wrth ymgysylltu â'r grŵp oedran penodol hwn. Roedd hon yn her benodol i ALI a chyrff cenedlaethol. Fodd bynnag, ar draws y llinynnau, roedd ymdrechion i ennyn diddordeb pobl ac oedolion ifainc yn amlwg. Defnyddiodd rhai ALI a chyrff cenedlaethol ganolfannau ieuenctid a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth ieuenctid i ymgysylltu â'r grŵp hwn. Gweithiodd un sefydliad cenedlaethol gyda theatrau lleol i ennyn diddordeb plant hŷn mewn datblygu a pherfformio drama i'r gymuned. Ffurfiodd un arall bartneriaeth â gorsaf radio i redeg rhaglen ieuenctid gyda'r nod o annog pobl ifanc i gymryd rhan y tu ôl i lenni'r byd cynhyrchu radio a phodlediadau.

**Cymorth gan Lywodraeth Cymru**

6.31 Roedd profiad darparwyr o'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn hynod gadarnhaol, gydag ychydig dros hanner (55 y cant) yn dweud eu bod yn fodlon iawn a chwarter (26 y cant) yn dweud eu bod yn eithaf bodlon. Ni adroddodd yr un ohonynt anfodlonrwydd.

**Ffigur 7. Boddhad darparwr ar y cymorth a dderbyniwyd gan yr arweinydd llinyn GLILI[9]**




Sylfaen n= 277; Ffynhonnell: arolwg darparwyr.


Yn gyffredinol, roedd darparwyr yn fodlon ar yr hyfforddiant a dderbyniwyd i ddarparu GLILI. Dywedodd darparwyr fod yr hyfforddiant diogelu (68 y cant), hyfforddiant iechyd a diogelwch (63 y cant) a hyfforddiant cymorth cyntaf (64 y cant) yn ddefnyddiol iawn, fel y dangosir yn

[9] Ni adroddodd yr un ymatebwr anfodlonrwydd

6.32 Ffigur 7.

‘Bu arweinydd y llinyn yn ymatebol i'n hymholiadau, yn gefnogol ac yn llawn dealltwriaeth o ran cymhlethdodau natur ein cynulleidfa a'r prosiect rydyn ni'n ei gyflwyno.' – (Ymatebwr i'r arolwg darparwyr)

**Ffigur 8. Boddhad darparwyr ar yr hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru (y cant)**





Sylfaen n= 134; Ffynhonnell: arolwg darparwyr.

**Ymrestru a phresenoldeb**

6.33 Adroddodd tua 30 y cant o ddarparwyr fod ganddynt gapasiti sbâr yn ystod y rhaglen. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys ysgolion lle nad oedd pob disgybl yn cymryd rhan na darparwyr mewn ardaloedd gwledig lle mae dwysedd y boblogaeth yn isel, gan olygu'n realistig na allai cyfanswm y cyfranogwyr fod wedi cynyddu llawer. Dywedodd darparwyr eraill (23 y cant) eu bod wedi cadw rhywfaint o gapasiti'n ôl er mwyn i grwpiau penodol o blant/pobl ifanc gael mynediad at weithgareddau, ond ni fanteisiwyd ar hyn. Roedd darparwyr yn teimlo bod hyn yn bwysig wrth gynorthwyo targedu'r rhaglen.

6.34 Adroddodd tua thraean o'r darparwyr a holwyd (32 y cant) eu bod yn caniatáu i gyfranogwyr fynychu cynifer o sesiynau ag y mynnent, ac roedd pob sesiwn wedi'u llenwi i'r capasiti heb orfod gwthod mynediad i neb. Yn ogystal, bu'n rhaid i 15 y cant wrthos mynediad i rai plant a phobl ifanc.

**Ffigur 9. Argaeledd darpariaeth**




Sylfaen n= 454; Ffynhonnell: arolwg darparwyr.

6.35 Y prif reswm a nodwyd dros wrthod mynediad i blant a phobl ifanc oedd bod yr holl leoedd i gyfranogwyr wedi'u llenwi (86 y cant)[10]. Ni ddywedodd yr un ohonynt ei fod o ganlyniad i anallu i ddiwallu anghenion o ran iaith, iechyd neu hygyrchedd, sef yr opsiynau eraill a nodwyd yn yr arolwg. Dywedodd 24% o'r ymatebwyr fod hyn am resymau arall, fel diffyg lle, diffyg staff, cyfyngiadau COVID-19, a darpariaeth a dargedwyd lle nad oedd rhai o'r rheiny oedd eisiau cymryd rhan yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

6.36 Un thema allweddol ymhlith arweinwyr ALI oedd eu bod ond yn gallu trefnu gweithgareddau i ddechrau ar ôl y Nadolig. Roedd hyn oherwydd yr ymdrechion gweinyddol gofynnol i sefydlu'r holl ddarpariaeth allanol. Er hynny, teimlodd rhai arweinwyr ALI o hyd fod hyn wedi gweithio'n dda.

‘Roedd cyflwyno rhywbeth yng nghyfnod y felan ar ôl y Nadolig... wedi codi iechyd a lles emosiynol, [a] hefyd wedi helpu i ddarparu busnes ar adeg pan nad oes ganddynt [darparwyr] lawer o fusnes.’ - (Arweinydd ALI)

[10] n= 63, ffynhonnell: arolwg darparwyr

**Ffactorau galluogi**

6.37 Soniodd plant a phobl ifanc, ac arweinwyr llinyn am ddarpariaeth am ddim fel ffactor galluogi allweddol ar gyfer cymryd rhan, gan na fyddai modd i rieni fforddio talu am y gweithgareddau hyn mewn llawer o achosion:

‘Hoffwn i fod yn ddawnsiwr, dw i ddim wedi cael y cyfle tan nawr. Mae'r dosbarthiadau fel arfer yn rhy ddrud i fy nheulu. Mae sesiynau [eraill] am ddim yn [...] iawn, ond roedd hyn yn wahanol, roedd hyn yn ardderchog, roedd e fel rhywbeth o Lundain. Gwnaeth i mi deimlo y gallwn i fod yn ddawnsiwr, gallwn fynd ymlaen a bod ar y llwyfan.’ - (Person ifanc, 14 oed, ymatebwr i'r arolwg)

6.38 Roedd rhwyddineb mynediad hefyd yn ffactor galluogi allweddol, gyda gweithgareddau wedi'u darparu yn yr ysgol/sefydliad AB o fewn pellter cerdded i'r rhan fwyaf o gyfranogwyr, e.e., mewn canolfannau cymunedol, ieuenctid, plant lleol, llyfrgelloedd, ac ati. Mewn ardaloedd mwy gwledig, neu mewn achosion lle'r oedd gweithgareddau yn cael eu darparu mewn lleoliadau a oedd yn anoddach eu cyrraedd, neu y tu allan i oriau ysgol arferol, roedd darparu cludiant yn ffactor galluogi.

‘Mae [cludiant] yn hanfodol ac yn ddrud... os ydym o ddifri am gynhwysiad a phethau felly, yna mae'n rhaid ei ffactorio i mewn.’ - (Arweinydd ALI)

6.39 Cynigiodd rhai darparwyr ofal plant er mwyn galluogi oedolion ifainc a'u babanod / plant bach i gymryd rhan.

‘[Roedd cynnig gofal plant yn bwysig], yn enwedig i’r teuluoedd sydd heb lawer o arian felly yn methu fforddio £25 y dydd am ofal plant i wneud y [rhaglenni] arferol y byddem yn eu rhedeg. Fe roddodd y cyfle iddyn nhw [fynychu] yn lle gorfod colli allan.’ - (arweinydd AB)

**Rhwystrau**

6.40 Roedd amserlenni tynn i gyflwyno'r darpariaeth yn cynrychioli rhwystr allweddol ar draws pob llinyn. Effeithiodd cyfnodau paratoi byrion ar gaffael, gan ei gwneud hi'n anodd recriwtio darparwyr allanol newydd ac i sicrhau gwiriadau DBS a rhoi polisïau COVID-19 digonol ar waith. Yn yr un modd, roedd rhai sefydliadau AB ac ysgolion yn ei chael hi'n anodd trefnu digon o ddarpariaeth neu recriwtio darparwyr allanol o

fewn yr amserlen y cyllid a neilltuwyd. Dim ond ar ôl y Nadolig y dechreuodd rhai sefydliadau AB gynllunio, gan roi dau fis yn unig iddynt gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth, gan gyfyngu ar eu cynnig.

6.41 Roedd cyfyngiadau COVID-19 a chanslo gweithgareddau hefyd yn rhwystr, gan iddynt achosi ansicrwydd ac arwain at absenoldebau staff a chyfranogwyr o ganlyniad i salwch a gofynion hunan-ynysu. Her arall i ddarparwyr oedd na allent hawlio am ddiffyg presenoldeb, ac roedd hi'n anodd rhagweld cyfraddau presenoldeb ymlaen llaw.

6.42 Roedd cynnig darpariaeth addas i bobl ifanc ac oedolion ifainc yn heriol, yn enwedig i ALl. Teimlodd rhai ALl mai'r rheswm dros hyn oedd eu bod yn cael trafferth denu darparwyr allanol fu'n cynnig gweithgareddau a anelir at y rhai 16+ oed, a hynny wedi'i waethygu gan yr amser paratoi byr. Soniodd rhai mai dim ond nifer cyfyngedig o ddarparwyr oedd yn darparu ar gyfer yr ystod oedran hŷn o fewn eu hardal benodol neu eu bod yn cynnig cyfleoedd arbenigol iawn heb apêl eang.

6.43 Oherwydd anawsterau wrth fodloni’r holl ofynion o fewn cwmpas uchelgeisiol y prosiect, gan gynnwys cyrraedd pob plentyn a pherson ifanc 0-25 oed, nododd rhai y byddai ffocws mwy cul efallai yn fwy hylaw ac y byddai’n galluogi darpariaeth lawnach. Teimlodd eraill i amserlenni byrion olygu y bu'n rhaid iddynt hepgor rhai grwpiau er mwyn canolbwyntio ar y mwyafrif.

6.44 Yn olaf, soniodd arweinwyr llinyn am yr her o ddod o hyd i ddarparwyr a allai gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, a olygodd mewn rhai achosion eu bod yn cynnig llai o weithgareddau cyfrwng Cymraeg nag y dymunent. Awgrymwyd y byddai clustnodi cyllid i adeiladu capasiti darparwyr cyfrwng Cymraeg yn fuddiol wrth lenwi'r bwlch hwn.

## 7. Profiadau plant a phobl ifanc

7.0 Mae'r adran hon yn cyflwyno profiadau plant a phobl ifanc o'r rhaglen GLILI. Mae'n seiliedig ar ddata a gasglwyd drwy'r arolwg cyfranogwyr a grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc fu'n cymryd rhan yn y gweithgareddau GLILI ar draws y llinynnau ALI, sefydliadau cenedlaethol, ysgolion ac AB.

**Cymhellion i gymryd rhan**

7.1 Adroddodd plant a phobl ifanc a holwyd mai'r prif ffyrdd y cawsant wybod am GLILI oedd drwy ddarparwr gofal plant/ysgol (38 y cant), clywed gan eraill (32 y cant) neu'r cyfryngau cymdeithasol (23 y cant) (n=2,446)[11]. Ymhlith y rhai 18+, cafodd mwy na hanner (51 y cant) wybod drwy eu sefydliad AB (n=313)[12]. Adlewyrchwyd hyn yn y grwpiau ffocws, gyda'r rhai oedd yn cymryd rhan yn GLILI drwy ysgolion a sefydliadau AB fel arfer yn clywed am y gweithgareddau gan staff ysgolion/colegau'n uniongyrchol.

7.2 Mae'r tabl isod yn dangos sut y clywodd y cyfranogwyr am GLILI, fesul grŵp oedran. I gyfranogwyr 5 oed ac yn iau, y brif ffynhonnell wybodaeth oedd y cyfryngau cymdeithasol (50 y cant), ac yna darparwyr gofal plant (17 y cant) a ffynonellau eraill. I blant oedran ysgol gynradd ac uwchradd (6 i 10 oed a 11 i 15 oed) y brif ffordd y clywsant am GLILI oedd yr ysgol (45 a 41 y cant yn y drefn honno), ac yna'r cyfryngau cymdeithasol (21 y cant). Roedd yr holl ymatebwyr Coleg a Phrifysgol wedi clywed am GLILI gan y Coleg neu'r Brifysgol.

[11] Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog
[12] Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog


**Tabl 5. Sut y clywodd cyfranogwyr am GLILI, fesul grŵp oedran (canrannau)**

| Oedran | Cyfryngau cymdeithasol | Clywed gan eraill | Poster/baner yn fy ardal i | Gwefan yr ALI | Darparwr gofal plant/ysgol | Sefydliad AB | Arall | Ddim yn gwybod | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 i 5 oed | 50% | 5% | 4% | 5% | 17% | 0% | 17% | 3% | *157* |
| 6 i 10 oed | 21% | 6% | 5% | 6% | 45% | 0% | 6% | 12% | *1296* |
| 11 i 15 oed | 21% | 4% | 5% | 4% | 41% | 0% | 9% | 16% | *750* |
| 16 i 17 oed | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | *94* |
| 18+ oed | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0 | *66* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

7.3 Nododd yr arolwg cyfranogwyr mai'r prif gymhelliannau i fynychu GLILI oedd: Cael hwyl (87 y cant), dysgu rhywbeth newydd (61 y cant) a chwarae a chymdeithasu gydag eraill (50 y cant) fel y dangosir yn Ffigur 10. Soniodd mwy nag un o bob deg (13 y cant) am y cyfle i siarad Cymraeg fel ysgogiad ar gyfer mynychu (n=2,460)[13].

**Ffigur 10. Cymhelliannau i blant a phobl ifanc fynychu GLILI**




Ffynhonnell: Arolwg cyfranogwyr. Sylfaen: 2,460. Gallai'r cyfranogwyr ddewis opsiynau lluosog.

7.4 Cytunodd mwy na thri chwarter (78 y cant; n=2,310) o blant a phobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg 'lawer' neu 'ychydig' fod GLILI wedi'u helpu i dreulio mwy o amser allan o'u tŷ. Roedd bechyn/dynion ychydig yn fwy tebygol na

[13] Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog

merched/menywod, y rhai sy'n adrodd eu rhywedd fel arall a'r rhai sy'n well ganddynt beidio â datgan eu rhywedd i 'gytuno llawer' bod GLILI wedi'u helpu i dreulio mwy o amser allan o'u tŷ (60 y cant, o'i gymharu â 55, 51 a 45 y cant). Darperir dadansoddiad llawn yn y tabl isod.

**Tabl 6. I ba raddau y gwnaeth GLILI helpu cyfranogwyr i dreulio mwy o amser allan o'u tai, fesul rhywedd**

| Rhywedd | Cytuno llawer | Cytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno ychydig | Anghytuno llawer | Ddim yn gwybod | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Benywaidd | 55% | 22% | 12% | 2% | 4% | 5% | *1,203* |
| Gwrywaidd | 60% | 19% | 11% | 2% | 3% | 3% | *1,023* |
| Arall | 51% | 30% | 11% | 0% | 3% | 5% | *37* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 45% | 13% | 17% | 2% | 9% | 15% | *47* |
| Cyfanswm | 57% | 21% | 12% | 2% | 4% | 4% | *2,310* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

7.5 At hynny, roedd y rhai a ddywedodd fod ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol sy'n para am fwy na blwyddyn, ychydig yn fwy tebygol o 'gytuno llawer' bod GLILI wedi'u helpu i dreulio mwy o amser allan o'u tŷ na'r rhai nad oeddent (63 y cant, o'i gymharu â 59 y cant), fel y dangosir isod.

**Tabl 7. I ba raddau y gwnaeth GLILI helpu cyfranogwyr i dreulio mwy o amser allan o'u tai, fesul statws anabledd**

| Cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol yn para >1 flwyddyn | Cytuno llawer | Cytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno ychydig | Anghytuno llawer | Ddim yn gwybod | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ie | 63% | 17% | 13% | 1% | 3% | 3% | *223* |
| Nage | 59% | 21% | 11% | 2% | 4% | 4% | *1534* |
| Ddim yn gwybod | 51% | 22% | 16% | 3% | 3% | 5% | *375* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 55% | 22% | 12% | 2% | 6% | 4% | *130* |


Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

7.6 Dywedodd cyfranogwyr grŵp ffocws fu'n mynychu sesiynau a redwyd gan ALl a chyrff cenedlaethol, y byddent yn ôl pob tebyg wedi bod gartref heb GLILI. Dywedodd y rhai a gymerodd ran mewn gweithgareddau a redwyd gan ysgolion a sefydliadau AB y byddent wedi bod yn cymryd rhan mewn gwersi rheolaidd, neu y bydden nhw wedi mynd adref, heb y gweithgareddau hynny. Mae hyn yn awgrymu i GLILI ychwanegu gwerth trwy gynnig gweithgareddau a chyfleoedd newydd a gwahanol i blant a phobl ifanc. Gwerthfawrogodd y rhai a gymerodd ran mewn gweithgareddau GLILI yn ystod gwyliau'r ysgol yn gwerthfawrogi cael rhywbeth hwyl a diddorol i'w wneud.

‘Yn yr hanner tymor, achos dwyt ti ddim yn gwneud ysgol na dim byd mae'n mynd braidd yn ddiflas, felly roedd hi'n neis i fynd allan a chael hwyl gyda phobl ddiddorol efallai nad wyt ti erioed wedi cwrdd â nhw o'r blaen.’ (Plentyn/person ifanc (llinyn ALl))

7.7 Pan ofynnwyd pwy a benderfynodd y dylent gymryd rhan yn y gweithgareddau GLILI, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg (59 y cant) mai eu dewis nhw oedd mynychu'r gweithgareddau. Cafodd cyfran fawr eu hannog hefyd gan athrawon (45 y cant) a rhieni/gofalwyr (27 y cant) (n=2,497).

**Ffigur 11. Y person a benderfynodd y dylai plentyn gymryd rhan mewn GLILI**




Ffynhonnell: Arolwg cyfranogwyr. Sylfaen: 2,497. Gallai'r cyfranogwyr ddewis opsiynau lluosog.

**Profiadau cyfranogwyr o'r ddarpariaeth GLILI**

7.8 Roedd profiadau plant a phobl ifanc o GLILI yn gadarnhaol iawn. Dywedodd bron pob un (97 y cant) o ymatebwyr yr arolwg cyfranogwyr eu bod wedi mwynhau cymryd rhan, gyda 77 y cant yn dweud eu bod wedi mwynhau GLILI 'llawer', 20 y cant wedi'i fwynhau 'ychydig', dau y cant 'ddim llawer' ac un y cant 'ddim o gwbl' (n=2,739).

‘Roedd yn llawer o hwyl a dysgais lawer' - (Plentyn/person ifanc (Llinyn sefydliad cenedlaethol))

7.9 Dengys y tabl isod i'r rhai 0-5 oed nodi'r gyfradd uchaf o fwynhad o'r gweithgareddau GLILI, gyda 92 y cant yn eu mwynhau 'llawer', tra bod gan y rhai 11-15 oed y gyfradd isaf o fwynhad, gyda 68 y cant yn dweud eu bod wedi mwynhau'r gweithgareddau 'llawer’. Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai dim ond

cyfrannau bychain ar draws y grwpiau oedran oedd yn mwynhau GLILI 'dim llawer' neu ddim o gwbl (y gyfran uchaf oedd 5 y cant ar gyfer y rhai 11-15 oed.

**Tabl 8. Mwynhad cyfranogwyr o GLILI, fesul oedran**

| Oedran | Dim o gwbl | Dim llawer | Ychydig | Llawer | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 i 5 oed | 0% | 1% | 7% | 92% | *188* |
| 6 i 10 oed | 0% | 2% | 18% | 80% | *1349* |
| 11 i 15 oed | 2% | 3% | 27% | 68% | *844* |
| 16 i 17 oed | 0% | 2% | 19% | 79% | *201* |
| 18+ | 1% | 3% | 15% | 81% | *157* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

7.10 Mae'r tabl isod yn dangos na fu gwahaniaeth mewn ymatebion rhwng bechgyn/dynion a merched/menywod. Yn gyffredinol roedd cyfranogwyr yn mwynhau GLILI yn fawr. Roedd sgôr mwynhad y rhai a ddisgrifiodd eu rhywedd fel 'arall', a'r rhai yr oedd yn well ganddynt beidio â datgan eu rhywedd ychydig yn llai cadarnhaol. Darperir dadansoddiad llawn yn y tabl isod.

**Tabl 9. Mwynhad cyfranogwyr o GLILI, fesul rhywedd**

| Rhywedd | Dim o gwbl | Dim llawer | Ychydig | Llawer | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|
| Benywaidd | 1% | 2% | 19% | 78% | *1,409* |
| Gwrywaidd | 1% | 2% | 20% | 77% | *1,219* |
| Arall | 2% | 4% | 23% | 70% | *47* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 3% | 7% | 24% | 66% | *58* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

7.11 Mae'r tabl isod yn dangos nad oedd gwahaniaethau mewn mwynhad o GLILI ar draws ethnigrwydd.

**Tabl 10 Mwynhad cyfranogwyr o GLILI, fesul ethnigrwydd**

| Ethnigrwydd | Dim o gwbl | Dim llawer | Ychydig | Llawer | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|
| Arabaidd | 8% | 8% | 8% | 77% | *13* |
| Asiaidd | 0% | 0% | 24% | 76% | *55* |
| Du | 0% | 0% | 23% | 77% | *39* |
| Grwpiau ethnig cymysg neu luosog | 0% | 0% | 22% | 78% | *32* |
| Gwyn | 1% | 2% | 18% | 79% | *207 3* |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 0% | 7% | 29% | 64% | *14* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1% | 3% | 26% | 70% | *73* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

7.12 Dengys y tabl isod i gyfranogwyr nad oedd ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol sy'n para'n fwy na blwyddyn ddweud eu bod yn mwynhau GLILI yn fwy na'r rhai yr oedd ganddynt gyflwr (83 y cant o'i gymharu â 76 y cant yn dweud iddynt ei fwynhau 'llawer'). Adroddodd y rhai a ddywedodd nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt gyflwr iechyd hirdymor y gyfradd isaf o fwynhad o GLILI, gyda 64 y cant yn dweud eu bod yn ei fwynhau 'llawer'.

**Tabl 11. Mwynhad cyfranogwyr o GLILI, fesul cyflwr iechyd hir dymor**

| Cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol yn para >1 flwyddyn | Dim o gwbl | Dim llawer | Ychydig | Llawer | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|
| Ie | 2% | 3% | 19% | 76% | *23 3* |
| Nage | 0% | 1% | 15% | 83% | *1,593* |
| Ddim yn gwybod | 2% | 4% | 30% | 64% | *39 7* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1% | 6% | 24% | 69% | *13 7* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

7.13 Thema allweddol ymhlith plant a phobl ifanc y cyfwelwyd â hwy ac a wnaeth yr arolwg[14] oedd eu bod yn mwynhau'r amrediad ac amrywiaeth o weithgareddau


[14] Cwestiwn penagored: "Beth oeddech chi'n ei hoffi am y gweithgareddau?"

diddorol a llawn hwyl a gynigiwyd gan GLILI, a gwelsant ei bod yn gwneud y rhaglen yn gynhwysol o bobl â gwahanol ddiddordebau.

'Roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n gyffrous iawn i fedru rhoi cynnig ar wahanol weithgareddau ar yr iard gyda'r ddau ddosbarth Blwyddyn 4 ac fe wnes i fwynhau garddio yn fawr gan i ni blannu planhigion gwahanol yn ein pridd.' – (Plentyn/person ifanc (Llinyn ysgol))

7.14 Ymysg y gweithgareddau a grybwyllwyd mewn grwpiau ffocws oedd chwaraeon (gan gynnwys pêl-fasged, hoci, pêl-droed, rygbi, ffrisbi, dawns, *parkour*, saethyddiaeth, badminton), gweithgareddau corfforol (e.e., castell neidio, neidio rhaffau, cylchedau a chyrsiau rhwystrau), gweithgareddau awyr agored (garddio, gan gynnwys tyfu bwyd), gemau (megis posau, gemau bwrdd a gemau cardiau), celf a chrefft (er enghraifft gwnïo, lliwio, gwaith coed, gwneud ffilmiau, animeiddio, ysgrifennu caneuon), gweithgareddau lles (megis ioga chwerthin a therapi cŵn), amrywiaeth o weithgareddau eraill gan gynnwys mentora a gweithgareddau sy'n arwain at gymhwyster (llinyn AB), yn ogystal â chodio, coginio, ymarferion adeiladu tîm, a mynd ar deithiau. Dangosir y gweithgareddau y cymerodd cyfranogwyr yr arolwg ran ynddynt isod.

**Ffigur 12. Gweithgareddau y cymerodd plant a phobl ifanc ran ynddynt**




Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr. Sylfaen: 2,513. Gallai'r cyfranogwyr ddewis opsiynau lluosog.

7.15 Mae Tabl 12 isod yn dangos dadansoddiad o weithgareddau fesul oedran. Roedd plant rhwng 0 a 5 oed yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn celf a chrefft, chwarae a chwaraeon dan do ac awyr agored a gweithgarwch corfforol. Roedd plant rhwng 6 a 10 oed yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored neu weithgarwch corfforol, celf a chrefft, a chwarae. Roedd y rhai rhwng 11 a 15 oed yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored a dan do neu weithgarwch corfforol, celf a chrefft, a chwarae. Roedd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored a dan do neu weithgarwch corfforol ac ymweld â lleoedd, ac roedd y rhai 18 oed a hŷn yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored a dan do neu weithgarwch corfforol, a hyfforddiant neu addysg.

**Tabl 12. Gweithgareddau y cymerodd plant a phobl ifanc ran ynddynt, fesul oedran**

| Oedran | 0 i 5 oed | 6 i 10 oed | 11 i 15 oed | 16 i 17 oed | 18+ oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwaraeon/ gweithgarwch corfforol awyr agored | 12% | 56% | 50% | 40% | 30% |
| Chwaraeon/ gweithgarwch corfforol dan do | 12% | 32% | 30% | 32% | 26% |
| Celf a Chrefft | 15% | 47% | 31% | 19% | 18% |
| Gemau | 2% | 20% | 19% | 15% | 11% |
| Gofal plant | 3% | 3% | 3% | 3% | 4% |
| Chwarae | 14% | 39% | 30% | 13% | 12% |
| Coginio | 4% | 19% | 16% | 10% | 7% |
| Ymweld â lleoedd | 3% | 11% | 11% | 20% | 20% |
| Hyfforddiant/ addysg | 1% | 13% | 17% | 17% | 21% |
| Gwirfoddoli | 0% | 9% | 9% | 10% | 10% |
| Gweithgareddau awyr agored | 9% | 26% | 24% | 16% | 16% |
| Gweithgareddau teuluol | 8% | 8% | 7% | 4% | 6% |
| Darllen | 4% | 23% | 19% | 7% | 4% |
| Cerddoriaeth | 8% | 32% | 22% | 15% | 12% |
| Arall | 3% | 6% | 11% | 6% | 9% |
| *Sylfaen* | *448* | *1,373* | *874* | *208* | *164* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr. Gallai cyfranogwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

7.16 Merched/menywod a bechgyn/dynion oedd fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored neu weithgaredd corfforol, ac roedd y rhai sy'n uniaethu â

rhywedd arall yn fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn celf a chrefft. Darperir dadansoddiad llawn yn y tabl isod.

**Tabl 13. Gweithgareddau y cymerodd plant a phobl ifanc ran ynddynt, fesul rhywedd**

| Rhywedd | Benywaidd | Gwrywaidd | Arall | Gwell gennyf beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|
| Chwaraeon/ gweithgarwch corfforol awyr agored | 44% | 58% | 38% | 43% |
| Chwaraeon/ gweithgarwch corfforol dan do | 31% | 30% | 31% | 22% |
| Celf a Chrefft | 42% | 32% | 42% | 37% |
| Gemau | 17% | 18% | 27% | 12% |
| Gofal plant | 4% | 3% | 4% | 2% |
| Chwarae | 33% | 31% | 25% | 28% |
| Coginio | 18% | 13% | 19% | 12% |
| Ymweld â lleoedd | 13% | 10% | 21% | 8% |
| Hyfforddiant/ addysg | 14% | 15% | 13% | 15% |
| Gwirfoddoli | 8% | 9% | 6% | 12% |
| Gweithgareddau awyr agored | 24% | 23% | 13% | 28% |
| Gweithgareddau teuluol | 8% | 8% | 10% | 8% |
| Darllen | 19% | 17% | 13% | 22% |
| Cerddoriaeth | 27% | 24% | 25% | 25% |
| Arall | 7% | 5% | 13% | 8% |
| *Sylfaen* | *1,444* | *1,249* | *48* | *60* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

7.17 Nododd plant a phobl ifanc eu bod nhw'n hoffi rhoi cynnig ar weithgareddau newydd, dysgu rhywbeth newydd, datblygu sgiliau a magu hyder.

'Roedd [coginio] yn brofiad hollol newydd ac roedd yn eithaf hwyl. Roedd y ferch [oedd yn rhedeg y gweithgaredd] yn llawn hwyl, felly o'n i'n hoffi hynna.' – (Plentyn/person ifanc (Llinyn ysgol))

7.18 Roedd gweithgareddau a oedd yn ymwneud â gwneud rhywbeth defnyddiol y gallai'r plant eu defnyddio wedyn yn boblogaidd iawn, er enghraifft gwneud byntin, gweithio gyda chlai a gwneud modelau, crefft goedwig (gwneud llochesi), creu adeileddau gan ddefnyddio planciau a chewyll a phibellau dŵr fel y gallai dŵr redeg drwyddynt, a gwneud tai allan o frics sbwng a thyrau bloc.

‘Dw i'n hoffi cael hen bethau a'u gwneud nhw'n well nag oedden nhw'n edrych o'r blaen.’ -- Plentyn/person ifanc (Llinyn sefydliad cenedlaethol))

7.19 Roedd cyfranogwyr GLILI hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymdeithasu gyda'u ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd, gan gynnwys o grwpiau blwyddyn gwahanol, ysgolion gwahanol a chlybiau ieuenctid eraill.

‘Ro'n i'n hoffi eich bod chi'n cael eich rhoi mewn timau ar hap i gael cyfle i wneud ffrindiau gyda phobl eraill.' - (Plentyn/person ifanc, ymatebydd i'r arolwg)

7.20 Roedd plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi bod y ddarpariaeth yn gynhwysol, gan greu cyfleoedd i'r rhai hynny a allai fod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol llawn hwyl fel arall. Roedd hyn yn cynnwys plant ag anghenion ychwanegol, gofalwyr ifainc, plant sy'n ffoaduriaid, a'r rhai o gartrefi incwm isel.

‘Dw i'n ofalwr ifanc, dw i'n edrych ar ôl fy Mam ac yn gwneud yn siŵr bod fy chwaer fach yn iawn. Roeddwn i wrth fy modd yn gallu mynd i'r [gweithgaredd GLILI] a chymryd rhan gyda [aelod o staff]. Roeddwn i'n teimlo fel plentyn eto, [...] mae'r rhan fwyaf o fy ffrindiau eisiau tyfu i fyny ac mae'n siŵr fy mod i'n teimlo ychydig yn wahanol. Roedd jyst medru potsian o gwmpas [...] yn gwneud i mi deimlo'n grêt.’ - (Plentyn/person ifanc, ymatebwr i'r arolwg)

**Darparwyr a staff**

7.21 Amlygodd plant a phobl ifanc a holwyd fod y darparwyr a staff ysgolion fu'n cyflwyno GLILI yn gyfeillgar ac yn groesawgar, gan ddweud eu bod yn esbonio gweithgareddau'n glir.

‘Roedden nhw'n dda iawn, fe wnaethon nhw esbonio popeth yn glir i ni pan oedden ni'n cymryd rhan yn y gweithgareddau.’ – (Plentyn/person ifanc (llinyn AB))

7.22 Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn gwerthfawrogi cael darparwyr gyda sgiliau arbenigol y gallent ddysgu ohonynt. Roedd gweithgareddau mewn ysgolion a gyflwynwyd gan athrawon yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddod i adnabod eu hathrawon yn well mewn cyd-destun dysgu anffurfiol. Roedd hwn yn gam cadarnhaol gan i athrawon deimlo, ar ôl cyfnod mor hir ar wahân, bod angen i blant

a phobl ifanc deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog mewn amgylchedd dysgu i'w helpu i wella eu hymgysylltiad, eu sgiliau cymdeithasol, eu hymddygiad, a'u perthynas ag addysg.

7.23 Adroddodd rhieni / gofalwyr iddynt deimlo bod eu plant yn ddiogel wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau GLILI. Gwnaethant ddweud hefyd bod darparwyr yn gwneud ymdrech i gynnwys yr holl gyfranogwyr.

‘Dw i'n hoffi'r ffaith ei fod o dan do, felly mae'n teimlo'n fwy diogel, yn gadarn gyda [...] tîm y [staff] ac maen nhw i gyd yn wych gyda'r plant. Maen nhw'n ymatebol iawn i anghenion a dymuniadau unigol pob plentyn.’ – (Rhiant/gofalwr (llinyn ALI))

**Awgrymiadau cyfranogwyr i wella GLILI ymhellach**

7.24 Roedd cyfranogwyr y rhaglen yn gadarnhaol iawn am eu profiadau, fel yr adlewyrchir yn eu hawgrymiadau i wella GLILI. Byddent wedi hoffi cael mwy o weithgareddau, sesiynau hirach a mwy aml, ac i GLILI barhau dros y tymor hwy. Awgrymwyd hefyd y gallai amseriadau fod yn fwy hyblyg er mwyn darparu ar gyfer rhieni/gofalwyr sy'n gweithio.

7.25 Ymhlith yr awgrymiadau eraill i wella'r gweithgareddau roedd: darparu bwyd (e.e., diodydd a byrbrydau) i deuluoedd sy'n mynychu; cyflwyno gweithgareddau dan do mewn tywydd gwael a thu allan pan fydd yn brafiach. Awgrymodd cyfranogwyr hefyd y dylid rhoi mwy o gyfleoedd i gyd-ddylunio gweithgareddau.

‘Efallai y gallen ni [...] gael pleidlais ynglŷn â pha weithgareddau [i'w gwneud] oherwydd doedden ni ddim wir yn cael penderfynu. Rhai o'r stwff - doeddwn i ddim wir yn eu hoffi nhw.’ – (Plentyn/person ifanc (llinyn ysgol))

7.26 Soniodd rhai a gymerodd ran yn y ddarpariaeth ysgol y byddent wedi hoffi cymysgu ag eraill yn fwy, er enghraifft grwpiau blwyddyn eraill, neu wneud gweithgareddau y tu allan i'r ysgol; fodd bynnag roeddent yn deall bod COVID-19 yn cyfyngu ar y posibiliadau i wneud hyn.

# 8. Dysgu a chynaladwyedd

**Dysgu allweddol o gynllunio, sefydlu a gweithredu**

8.0 Roedd consensws bod angen digon o amser rhwng cyhoeddi cyllid a lansio'r rhaglen. Byddai hyn yn cefnogi cynllunio strategol effeithiol a fyddai'n ymwneud ag ystod eang o bartneriaid ac annog arfer blaengar. Daeth partneriaethau a ffurfiwyd drwy HoH ynghyd eto ar gyfer GLILI, ond cyfyngodd yr amserlen fer ar ddatblygu partneriaethau newydd (er y ffurfiwyd rhai partneriaethau newydd drwy GLILI ac fe fyddant yn parhau). Esboniodd arweinwyr sefydliadau AB ac ysgolion fod angen amser cynllunio i ymgynghori a recriwtio darparwyr arbenigol allanol ac y byddai hefyd yn galluogi ymgeiswyr arweiniol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc i helpu i siapio'r ddarpariaeth. Roedd yr amserlenni hefyd yn cyfyngu ar faint rhai mathau o ddarpariaeth, er enghraifft roedd un sefydliad cenedlaethol eisiau ymestyn eu darpariaeth i Gymru gyfan, ond nid oedd hyn yn bosib o fewn y raddfa amser.

8.1 Byddai arweinwyr ALI wedi hoffi cael ffenestr gynllunio hirach, i gynnull sesiynau ar-lein gyda darparwyr a/neu sefydlu fforwm darparwyr ar-lein i rannu arfer da/dysgu. Awgrymodd un rhanddeiliad y potensial am geisiadau ar y cyd hefyd.

‘Yn y dyfodol, gallem annog pobl i gydweithio'n fwy. Gallech gael un cais gan 10 grŵp yn hytrach na 10 cais unigol a'u cael i weithio'n ddaearyddol neu'n thematig.' – (Arweinydd ALI)

8.2 Byddai dosbarthu arweiniad marchnata a brandio Llywodraeth Cymru ar ddechrau'r rhaglen yn hwyluso'r prosesau cynllunio. Er i ddarparwyr groesawu'r hyblygrwydd o fewn GLILI i greu hunaniaeth leol i ryw raddau, byddent wedi elwa o arweiniad cliriach ar y gofynion i ddefnyddio logo a brand cenedlaethol GLILI. Rhagwelodd arweinwyr ALI mai dim ond diweddaru'r pecyn marchnata y bydd angen ei wneud os bydd rowndiau yn y dyfodol, a ddylai gyflymu'r dosbarthiad i ddarparwyr.

8.3 Roedd arweinwyr llinyn yn aml yn gweinyddu GLILI yn ychwanegol at lwyth gwaith llawn. Byddai rowndiau yn y dyfodol yn elwa o gynyddu capasiti staff neu recriwtio adnodd ychwanegol i reoli'r broses gaffael, er mwyn lleihau'r baich ar dimau ALI.

8.4 Roedd yr holl grwpiau rhanddeiliaid yn argymell buddsoddiad cyson yn y ddarpariaeth flynyddol ar gyfer plant a phobl ifanc. Awgrymodd rhai arweinwyr ALI ledaenu'r un faint o gyllid drwy gydol y flwyddyn.

'Roedden ni bob amser eisiau mwy o arian grant, ond mewn gwirionedd, mae swm llai o arian dros gyfnod hirach o amser yn ein helpu i gynllunio popeth yn well o lawer.' – (Arweinydd ALI)

8.5 Byddai cyllid tymor hwy hefyd yn helpu i recriwtio a chadw staff ALI a darparwyr i gefnogi cynllunio a darparu rhaglenni. Er enghraifft, roedd rhai arweinwyr ALI yn ei chael hi'n anodd recriwtio gweithwyr chwarae am fod cyfnod y grant yn llai na chwe mis. Nododd ALI heriau wrth wneud y mathau hynny o rolau'n fwy cynaliadwy/ parhaol. Adleisiwyd yr heriau wrth recriwtio staff cyflwyno tymor byr gan sefydliadau AB ac arweinwyr ysgolion, gan olygu yr oedd rhai darparwyr yn dibynnu ar staff mewnol ac yn cynnig llai o ddarpariaeth.

'Peidiwch â thaflu symiau mawr o arian atom bob chwe mis. Dydy e ddim yn gweithio. Ni fydd e byth yn gweithio. Bydd yn ein galluogi i wneud rhywbeth, ond fyddwn ni ddim yn gallu cyflogi pobl i feddwl amdano a gwneud y gorau o'r ymdrech.' – (Arweinydd ALI)

8.6 Roedd yr amserlenni tynn yn golygu bod cydweithio a chyfnewid dysgu cyfyngedig rhwng ardaloedd ALI a darparwyr yn gyfyngedig. Nododd arweinwyr AB y bu'r rhan fwyaf o'r gwaith ar y cyd gyda phartneriaid presennol neu gydweithwyr mewnol. Byddai rhanddeiliaid ar bob lefel yn croesawu ymwreiddio amser ar gyfer y gweithgareddau hyn mewn rhaglenni yn y dyfodol. Er enghraifft, roedd arweinwyr Llywodraeth Cymru yn awyddus i greu cyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau o Benaethiaid i rannu arfer da, a allai helpu i ddylunio rhaglenni mwy cynhwysfawr yn y dyfodol.

'Mae cyfathrebu'n bwysig iawn, nid 'gwneud i' bobl ond 'gwneud gyda' phobl. Gan amlaf, y penaethiaid sy'n gwybod orau o ran eu hysgol, felly dydych chi ddim eisiau bod yn rhy brescriptif. Rhowch baramedrau eang iddynt a gadewch iddynt ddylunio sut maen nhw'n cyfateb, gan ddefnyddio disgyblion fel seinfwrdd.' - (Uwch randdeiliaid, Llywodraeth Cymru)

### Ystyriaethau o ran cynaladwyedd

8.7 Mae etifeddiaeth GLILI yn amlwg o safbwynt darparwyr ac ALI. Adeiladodd rhanddeiliaid ar bartneriaethau presennol a sefydlwyd drwy HoH neu grëwyd partneriaethau cydweithredol newydd rhwng ALI a darparwyr drwy GLILI. Mae rhanddeiliaid bellach yn fwy ymwybodol o alluoedd darparwyr lleol ac maent wedi ymrwymo i gynnal y partneriaethau hyn y tu hwnt i GLILI.

8.8 Amlygodd arweinwyr Llywodraeth Cymru, arweinwyr llinyn a darparwyr yr angen hefyd am gyllid mwy hir dymor er mwyn gweld effeithiau buddsoddi mewn cymunedau, gan gydnabod bod amserlenni cyfyngedig yn lleihau opsiynau ar gyfer cynllunio a chyflwyno strategol. Roedd rhanddeiliaid yn eirioli'n gyson dros gyllid parhaus i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw gydag effeithiau hirdymor y pandemig, a chostau byw cynyddol. Argymhellwyd rowndiau ariannu blynyddol, yn ychwanegol at roi rhybudd ymlaen llaw er mwyn i ALI, sefydliadau AB ac ysgolion gael amser i gynllunio a recriwtio darparwyr allanol fel y bo angen. Argymhellodd ysgolion y dylid eu hysbysu o leiaf tymor ymlaen llaw; er mwyn i'r ddarpariaeth gael ei chynllunio ochr yn ochr â gweithgareddau eraill a'r cwricwlwm.

8.9 Roedd gan arweinwyr ALl bryderon hefyd bod y cyllid tymor byr yn creu disgwyliadau nad ydynt yn gynaliadwy.

‘Mae hynny'n fy mhoeni gan ein bod ni'n cynnig cymaint ar hyn o bryd, sy'n wych, ond mewn un munud mae'n mynd i stopio a dydy hynny ddim yn helpu. Byddai'n well i ostwng y cyllid a'i drefnu i redeg dros gyfnod hirach o amser.’ *Arweinydd ALl*

8.10 Adleisiwyd y pryderon hyn gan gyrff cenedlaethol, gan adlewyrchu'r ffaith y gall cyllid tymor byr wneud mwy o ddrwg nag o les, drwy godi disgwyliadau a methu â'u diwallu y tu hwnt i gyfnod cyllido byr.

8.11 Ystyriai arweinwyr ALl, AB ac ysgolion bod cynnwys gwirfoddoli a phrofiad gwaith i bobl ifanc hŷn o fewn y model GLILI yn ffactor galluogi pwysig o ran cynaladwyedd. Fe wnaeth un sefydliad cenedlaethol bennu targed o gyrraedd 500 o oriau gwirfoddoli i bobl ifanc 14-25 oed. Yn yr un modd, darparodd un sefydliad AB gyfleoedd gwirfoddoli yn eu gwersyll gwyliau i bobl ifanc o ysgolion uwchradd lleol. Roedd gan yr ymagwedd hon y potensial i roi hwb i allu mewnol ar gyfer rowndiau'r dyfodol, drwy ddatblygu cyfleoedd pellach a llwybrau dilyniant i wirfoddolwyr o fewn

y rhaglen. Bu iddynt hefyd gefnogi datblygiad personol a lles plant a phobl ifanc, a allai wella cymunedau lleol a chryfhau'r sylfaen sgiliau a'r economi leol dros y tymor hwy. Roedd darparwyr yn gobeithio y byddai rhai plant a theuluoedd yn cynnal y sgiliau a'r diddordebau a ddatblygwyd drwy gymryd rhan yn GLlLl yn annibynnol.

8.12 Cydnabuwyd pwysigrwydd cywain data monitro a thystiolaeth i gefnogi adrodd am effaith ei gydnabod ar draws grwpiau darparwyr ac mae angen hynny i helpu i gyflwyno'r achos dros gyllid pellach.

‘Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe baem wedi cael cyfarfod gyda'r holl ddarparwyr gweithgareddau... gweithdy ynglŷn â disgwyliadau o ran yr wybodaeth fonitro a chywain data... Mae hynny, i mi, yn wers allweddol.' - (Uwch randdeiliad, Llywodraeth Cymru)

8.13 Nododd arweinwyr AB heriau i'w timau cyllid hefyd wrth fonitro cronfeydd cyllid tymor byr a darparu llwybr archwilio. Mae hyn yn amlygu'r angen am feddwl mewn ffordd fwy cydgysylltiedig wrth sefydlu systemau monitro sy'n cynhyrchu'r gwerth gorau am arian.

8.14 Croesawyd ehangder y meini prawf cyllido gan ALl, sefydliadau AB ac ysgolion, gan alluogi darparwyr i lenwi bylchau a buddsoddi mewn grwpiau targed sydd ag anghenion amrywiol.

**Manteision parhaus y cyllid**

8.15 Mae GLlLl wedi codi proffil y sefydliadau sy'n cymryd rhan a'u galluogi i wella eu cyrhaeddiad mewn cymunedau lleol. Roedd GLlLl hefyd yn golygu bod rhai darparwyr nad oeddent wedi gweithio gyda'u ALl o'r blaen wedi cael eu cyflogi wedyn i gyflwyno darpariaeth chwarae yn y gymuned. Mae hyn hefyd yn cefnogi'r economi leol drwy gynnal hyfywedd darparwyr arbenigol.

‘Rydyn ni'n cael adborth gan sefydliadau unigol fod cymryd rhan ynddo wedi galluogi nhw i godi eu proffil yn lleol, a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd, a gwella hyfywedd eu gwasanaeth neu fusnes unigol.' - (Uwch randdeiliad, Llywodraeth Cymru)

8.16 Defnyddiodd rhai darparwyr y cyllid GLILI i brynu offer ac adnoddau, ac ymgymryd â gwaith atgyweirio strwythurol graddfa fach, a fyddai'n cefnogi'r ddarpariaeth yn y tymor hwy, gan alluogi carfanau eraill i elwa yn y dyfodol.

'Bydd yr offer hwnnw yno am ei oes a bydd plant yn elwa ohono.' – *(Arweinydd ALl)*

8.17 Roedd hyn yn cynnwys prynu offer chwaraeon (megis padlfyrddau a beiciau mynydd), cyfarpar garddio a rhandir, dodrefn, a chymhorthion synhwyraidd. Er enghraifft, esboniodd arweinydd ysgol sut y gallai ystafell synhwyraidd a adeiladwyd gyda chyllid GLILI newid ymddygiad rhai plant.

'Mae'r 10-15 munud yn yr ystafell yma'n gallu gwneud gwahaniaeth i ddiwrnod rhywun bob dydd. Tra y gall treulio'r 10-15 munud cyntaf yn y dosbarth olygu eu bod mewn trafferth bob dydd. Ni ellir tanbrisio cael y gofod hwnnw yn benodol ar gyfer teimlo'n dda a theimlo'n iach.' – (Arweinydd ysgol)

8.18 Bydd mannau a adnewyddwyd gan ddefnyddio cyllid GLILI yn cael eu defnyddio gan sefydliadau AB a darparwyr ysgol ar gyfer gwaith partneriaeth iechyd a lles mwy parhaol, megis gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

8.19 Darparodd cyllid GLILI gyfle i gynyddu sgiliau staff mewnol, a gwella capasiti staffio, er enghraifft drwy ariannu CA yn yr ysgol i ddarparu oriau ychwanegol, a chroesawyd ganddynt. Awgrymodd arweinwyr ysgolion fod GLILI wedi cynyddu boddhad staff â'u swyddi o ganlyniad.

'Mae'r lefelau brwdfrydedd wedi cyrraedd brig ac mae hynny'n cael effaith go iawn ar y plant sydd o'u blaenau oherwydd, 'plant hapus, staff hapus', ond hefyd 'staff hapus, plant hapus'. Mae [y cyllid] wir wedi bod ag ymdeimlad cymunedol amdano ac mae'n amlwg i'r gymuned.' – (Arweinydd ysgol)

8.20 Oherwydd y newid mewn agweddau dysgwyr tuag at yr ysgol gan ddilyn GLILI, penderfynodd rhai ysgolion a sefydliadau AB barhau i redeg gweithgareddau ar ôl i'r arian ddod i ben. Sylwodd un ysgol fod y cyllid wedi'u galluogi i lansio pethau a gweld lle'r oedd y galw a'r angen; rhywbeth yr oedden nhw'n ei chael yn anodd yn flaenorol.

# 9. Deilliannau

9.0 Mae'r adran hon yn cyflwyno deilliannau canfyddedig a hunan-adroddedig plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a theuluoedd, darparwyr, ysgolion, sefydliadau cyflwyno, ac ardaloedd lleol. Archwilir deilliannau annisgwyl neu anfwriadol hefyd. Mae'n galw ar yr holl ddata o'r cyfweliadau a'r arolygon.

**Deilliannau i blant/pobl ifanc**

**Hwyl, chwarae/hamdden a chymdeithasu**

9.1 Roedd arweinwyr llinyn o'r farn bod GLILI wedi creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae/cael cyfleoedd hamdden, a chael hwyl. Adlewyrchwyd hyn yn yr arolwg cyfranogwyr, lle dywedodd 95 y cant (n=2,264) eu bod wedi cael hwyl.

‘Roedden nhw'n [plant a phobl ifanc] gallu dod at ei gilydd eto a jyst bod yn blant - chwarae, mwynhau, cael hwyl. Roedden nhw'n gallu datblygu, meithrin sgiliau emosiynol, gwydnwch ac rydyn ni wedi helpu i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles, a'u ffitrwydd corfforol. Mae llawer o addysg wedi digwydd trwy gyfrwng chwarae.’ – (Arweinydd ALI)

9.2 Doedd dim gwahaniaeth rhwng y rhai oedd â chyflwr iechyd hirdymor a heb gyflwr iechyd hirdymor o ran y cyfranogwyr fu'n adrodd iddynt gael hwyl. Fodd bynnag, adroddodd bechgyn/dynion iddynt gael hwyl ychydig yn fwy na merched/menywod (cytunodd 74 y cant o fechgyn/dynion eu bod yn cael 'llawer' o hwyl, o'i gymharu â 69 y cant o ferched/menywod), fel y dangosir yn y tabl isod.

**Tabl 14. I ba raddau y cafodd cyfranogwyr hwyl, fesul rhywedd**

| Rhywedd | Cytuno llawer | Cytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno ychydig | Anghytuno llawer | Ddim yn gwybod | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Benywaidd | 69% | 19% | 6% | 2% | 2% | 2% | *1,163* |
| Gwrywaidd | 74% | 17% | 5% | 2% | 1% | 1% | *987* |
| Arall | 76% | 8% | 8% | 0% | 0% | 8% | *37* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 58% | 21% | 15% | 0% | 2% | 4% | *48* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

9.3 Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr a holwyd (68 y cant, n=303) wedi nodi ‘plant a phobl ifanc yn teimlo mwy o gysylltiad cymdeithasol’ fel deilliant arfaethedig allweddol eu darpariaeth GLILI. Adleisiwyd hyn mewn cyfweliadau, gyda phlant a phobl ifanc yn dweud eu bod wedi treulio mwy o amser gyda'u ffrindiau a chwrdd â phobl newydd.

9.4 At hynny, teimlodd 68 y cant o blant a phobl ifanc a holwyd (n=2,268) fod GLILI wedi'u helpu i wneud ffrindiau newydd. Doedd dim gwahaniaeth ar draws statws rhywedd ac anabledd i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn teimlo bod GLILI wedi'u helpu i wneud ffrindiau.

9.5 Dywedodd cyfranogwyr y grŵp ffocws fod GLILI yn allweddol wrth alluogi nhw i ryngweithio a chwarae/cael cyfleoedd hamdden gydag eraill, a gwneud ffrindiau newydd, gan leihau'r ymdeimlad o unigrwydd ac unigedd yr oeddent wedi'u profi yn ystod y cyfnodau clo. Teimlodd y plant a phobl ifanc y cyfwelwyd â hwy fod y gweithgareddau'n rhoi cyfle iddynt gymysgu â phobl na fyddent fel arfer wedi treulio amser gyda nhw, a'u helpu i feithrin cyfeillgarwch a sgiliau gwaith tîm a oedd, yn eu tro, yn cryfhau eu lles meddyliol.

‘Dwi wrth fy modd yn cynrychioli fy ysgol drwy chwarae pêl-rwyd achos dwi'n cael chwarae gyda fy ffrindiau a gweithio fel tîm.’ – (Plentyn/person ifanc, ymatebwr i'r arolwg)

9.6 Nododd rhieni/gofalwyr, trwy fynychu gweithgareddau GLILI a redwyd gan eu ALI, fod eu plant wedi cael cyfle i weld eu ffrindiau ysgol y tu allan i'r ysgol a gwneud ffrindiau newydd. Roedd hyn wedi'u galluogi i ailgysylltu â ffrindiau a chwrdd â phobl newydd.

**Iechyd a lles meddyliol**

9.7 Dewisodd y mwyafrif o ddarparwyr (79 y cant, n=350) a chynnal (64 y cant, n=285) wella iechyd meddwl a lles fel deilliannau arfaethedig allweddol i'r plant a phobl ifanc fu'n mynychu eu darpariaeth GLILI. Roedd arweinwyr llinyn y cyfwelwyd â hwy yn hyderus yr oedd y gweithgareddau wedi cael effaith gadarnhaol ar les corfforol, emosiynol a chymdeithasol cyfranogwyr. Amlygwyd bod iechyd meddwl wedi gwella

yn ystod GLILI drwy ddatblygu rhwydweithiau cymorth cyfoedion, cyfleoedd i ymdrin â gorbryder cymdeithasol, ac ymwybyddiaeth gynyddol o wasanaethau cymorth.

9.8 Noda adroddiad CCAUC i 100 y cant o'r cyfranogwyr AU a holwyd ddweud eu bod yn 'fodlon iawn' gyda'r digwyddiad/gweithgaredd yr oeddent wedi cymryd rhan ynddo, a dywedodd 100 y cant fod y digwyddiad/gweithgaredd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lles.

9.9 Teimlai dau draean o'r bobl ifanc a holwyd (67 y cant) fod GLILI wedi'u helpu i reoli eu hiechyd meddwl (n=627)[15]. Roedd nifer o weithgareddau GLILI yn canolbwyntio'n benodol ar les, er enghraifft gweithgareddau fu'n canolbwyntio ar ymlacio neu ioga. Adroddodd rhai plant a phobl ifanc y cyfwelwyd â hwy y gallent ganolbwyntio'n well ar waith ysgol o ganlyniad. Mae adroddiad CCAUC hefyd yn crybwyll mai deilliant allweddol ymhlith cyfranogwyr mewn sefydliadau AU oedd gwella lles ac iechyd. Hefyd, awgrymodd cyfweliadau ag arweinwyr ysgolion fod cynnwys plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau GLILI yn gweithredu fel catalydd o ran ennyn eu diddordeb mewn gwasanaethau eraill. Er enghraifft, roedd un plentyn/person ifanc wedi'i ddadrithio yn yr ysgol yn flaenorol ac yn gwrthod ymwneud â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ond fe ymatebodd yn gadarnhaol i brosiect coginio'r ysgol ac o ganlyniad, awgrymwyd ei fod yn fwy parod i ofyn am gymorth.

**Hyder**

9.10 Roedd hyder cynyddol yn fantais allweddol i'r plant a'r bobl ifanc fu'n cymryd rhan yn GLILI, diolch i'r cyfleoedd yr oedd ganddynt i roi cynnig ar bethau newydd a chwrdd â phobl newydd. Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn teimlo'n fwy hyderus wrth gyfathrebu eu syniadau o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau GLILI, fel drama.

‘Pan wnes i [gweithgaredd GLILI], fe wnes i fwynhau cael llais o'r diwedd. Dw i erioed wedi bod y math o berson i sefyll i fyny a siarad gyda grwpiau o bobl achos do'n i byth hyd yn oed yn gwybod ble i ddechrau, ond mae wedi fy helpu fi llawer.’ – (Plentyn/person ifanc, ymatebwr i'r arolwg)

[15] Dim ond i bobl ifanc 12 oed ac yn hŷn y gofynnwyd y cwestiwn hwn.

9.11 Roedd rhai darparwyr yn gallu darparu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc fel rhan o gyflwyno GLlLl (â thâl a gwirfoddol), er enghraifft gwirfoddolwyr o ysgolion uwchradd lleol yn rhedeg gwersylloedd gwyliau; myfyrwyr iechyd a harddwch yn darparu sesiynau i fyfyrwyr AB eraill; a phlant a phobl ifanc yn cael eu cyflogi i weithio ar gynnwys digidol a chyfryngau chymdeithasol. Roedd hyn yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau a chynyddu eu hyder yn ogystal â'u cefnogi i ymadfer o effeithiau'r pandemig. Roedd rhai pobl ifanc yn gallu ennill cymwysterau, er enghraifft fel hyfforddwyr chwaraeon. Adroddodd arweinwyr ysgolion fod y cynnydd mewn cyfleoedd galwedigaethol wedi helpu rhai myfyrwyr i wneud penderfyniadau am yr hyn yr oeddent eisiau ei wneud ar ôl gadael yr ysgol.

'Roeddwn i'n meddwl bod y gweithgareddau y gwnaethon ni gymryd rhan ynddyn nhw ar ein taith wedi rhoi cipolwg anhygoel i mi ar y celfyddydau a sut brofiad fyddai mynd i ysgol ddrama. Rwy'n teimlo y bydd yr wybodaeth yr wyf wedi'i hennill o'r profiad yma yn fy helpu gyda fy addysg bellach a'm dewisiadau gyrfa.' – (Plentyn/person ifanc, ymatebwr i'r arolwg)

9.12 Mân thema ymhlith pobl ifanc oedran ysgol uwchradd oedd bod y gefnogaeth a'r anogaeth a gafwyd yn ystod GLlLl wedi'u helpu i deimlo'n fwy hyderus am eu dewisiadau TGAU.

9.13 Teimlodd rhieni/gofalwyr hefyd fod hyder eu plant wedi gwella o ganlyniad i GLlLl.

'Roedd e'n bendant wedi gwneud [fy mhlentyn] yn fwy hyderus o lawer achos, gyda'r cyfnod clo, dyw hi ddim wir wedi cael y cyfle i wneud lot o grwpiau cymdeithasol' - (Rhiant (Llinyn ALl))

**Cyfleoedd i roi cynnig ar weithgareddau newydd a datblygu sgiliau**

9.14 Dewisodd bron i ddwy ran o dair o ddarparwyr (62 y cant, n=444) ddatblygu sgiliau penodol a rhoi cymhelliant i blant a phobl ifanc ymgymryd â diddordebau neu hobïau newydd fel deilliannau arfaethedig allweddol GLlLl. Adleisiwyd hyn yn yr arolwg cyfranogwyr, gyda'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn dweud bod GLlLl wedi'u helpu i roi cynnig ar bethau newydd (92 y cant, n=2,269), dysgu rhywbeth newydd (83 y cant, n=1,292).

9.15 Doedd dim gwahaniaeth ar draws rhyweddau ym marn ymatebwyr p'un a oeddent wedi dysgu rhywbeth newydd drwy GLILI ai beidio. Fodd bynnag, roedd y rhai nad oedd ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol sy'n para am flwyddyn neu fwy, yn fwy tebygol o 'gytuno llawer' eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd drwy gymryd rhan yn GLILI (68 y cant o'i gymharu â 58 y cant). Darperir dadansoddiad llawn yn y tabl isod.

**Tabl 15. I ba raddau y dysgodd cyfranogwyr GLILI rywbeth newydd, fesul statws anabledd**

| Cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol yn para >1 flwyddyn | Cytuno llawer | Cytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno ychydig | Anghytuno llawer | Ddim yn gwybod | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ie | 58% | 27% | 9% | 1% | 3% | 2% | *216* |
| Nage | 68% | 24% | 5% | 1% | 0% | 1% | *1,510* |
| Ddim yn gwybod | 54% | 32% | 9% | 1% | 2% | 2% | *363* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 56% | 26% | 12% | 3% | 1% | 2% | *127* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

9.16 Un thema allweddol ymhlith plant a phobl ifanc oedd iddynt ddysgu sgiliau newydd o gymryd rhan yn GLILI.

‘A dweud y gwir, mae wedi bod yn anhygoel. Dw i wedi dysgu sgiliau [celf] na fyddwn i byth wedi gallu dod i ben â nhw ar fy mhen fy hun ac mae wedi bod yn gymaint o hwyl.’ *Plentyn/person ifanc (Llinyn ysgol)*

9.17 Roedd bechgyn/dynion ychydig yn fwy tebygol na merched/menywod a'r rhai sy'n nodi rhywedd arall i 'gytuno llawer' eu bod wedi rhoi cynnig ar bethau newydd fel rhan o GLILI (72 y cant, o'i gymharu â 69 a 68 y cant), fel y dangosir yn y tabl isod.

**Tabl 16. I ba raddau y rhoddodd cyfranogwyr GLILI gynnig ar rywbeth newydd, fesul rhywedd**

| Rhywedd | Cytuno llawer | Cytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno ychydig | Anghytuno llawer | Ddim yn gwybod | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Benywaidd | 69% | 22% | 5% | 1% | 1% | 1% | *1,176* |
| Gwrywaidd | 72% | 20% | 5% | 1% | 1% | 1% | *1,004* |
| Arall | 68% | 24% | 3% | 0% | 0% | 5% | *37* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 63% | 17% | 10% | 0% | 6% | 4% | *48* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

9.18 At hynny, roedd y rhai nad oedd ganddynt gyflwr iechyd meddyliol neu gorfforol sy'n para am flwyddyn neu fwy, yn fwy tebygol o 'gytuno llawer' eu bod wedi rhoi cynnig ar rywbeth newydd drwy gymryd rhan yn GLILI (75 y cant o'i gymharu â 65 y cant). Dangosir dadansoddiad llawn yn y tabl isod.

**Tabl 17. I ba raddau y rhoddodd cyfranogwyr GLILI gynnig ar rywbeth newydd, fesul statws anabledd**

| Cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol yn para >1 flwyddyn | Cytuno llawer | Cytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno ychydig | Anghytuno llawer | Ddim yn gwybod | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ie | 65% | 24% | 5% | 0% | 3% | 2% | *214* |
| Nage | 75% | 19% | 4% | 1% | 0% | 1% | *1,515* |
| Ddim yn gwybod | 60% | 27% | 9% | 2% | 2% | 1% | *365* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 65% | 23% | 7% | 1% | 2% | 2% | *127* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

9.19 Thema o gyfweliadau gydag arweinwyr llinyn oedd bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i wneud pethau nad oeddent erioed wedi'u profi o'r blaen, megis dringo creigiau, caiacio a choginio. Esboniodd arweinwyr llinyn a chyfranogwyr fod y gweithgareddau wedi helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau meddal, megis gwydnwch, annibyniaeth, gwaith tîm ac arweinyddiaeth.

‘Mae'n hyfryd i weld nhw i gyd yn chwarae gyda'i gilydd, yn dod ymlaen gyda gwaith a sgiliau tîm. Maen nhw'n efelychu'r cynlluniau hynny yn ystod amser chwarae ac amser cinio.’ – (Arweinydd ysgol)

9.20 Disgrifiodd arweinydd un sefydliad cenedlaethol sut y llwyddwyd i ddangos i blant a phobl ifanc sut y gall darllen gynnal eu lles drwy "ddianc i fyd arall, boed hynny oherwydd y gallwch adnabod a nodi eich hun mewn llyfr.” Darparodd y rhaglen fan diogel i blant a phobl ifanc ymchwilio i strategaethau a oedd wedi eu helpu yn ystod y pandemig ac yn herio canfyddiadau o ddarllen.

9.21 Yn ogystal, nododd un arweinydd ysgol fod hyfforddi plant/pobl ifanc hŷn fel llysgenhadon chwaraeon drwy GLlLl wedi arwain at sesiynau mwy strwythuredig a lleihau digwyddiadau cymorth cyntaf yn fawr wrth chwarae chwaraeon. Disgrifiodd arweinydd ysgol arall fanteision penodol i blant ffoaduriaid nad oeddent eto'n barod i ddarllen ac ysgrifennu yn Saesneg ond a oedd wedi datblygu eu sgiliau iaith trwy chwarae.

9.22 Soniodd eraill am fwy o uniaethu gan ddilyn gweithgaredd a arweiniwyd gan sefydliad cenedlaethol gan gynnwys Yr Wyddor Emosiynau, croeseiriau Emosiynau, gemau bwrdd Emosiynau, gwneud gogls/sbectol 'uniaethu' a gwrando ar straeon sy'n hybu uniaethu. Bu i'r gweithgareddau hyn helpu'r plant i uniaethu'n fwy y tu allan i'r ysgol a thuag at eu teulu a'u ffrindiau.

**Gweithgarwch corfforol**

9.23 Dewisodd tua hanner y darparwyr a holwyd wella (55 y cant) a chynnal (48 y cant) eu hiechyd corfforol a'u hysgogi i barhau â gweithgarwch corfforol rheolaidd ar ôl GLlLl (46 y cant) fel deilliannau arfaethedig allweddol i'r plant a'r bobl ifanc fu'n mynychu eu darpariaeth GLlLl (n=444).

9.24 Teimlodd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr i'r arolwg cyfranogwyr (87 y cant; n=2,240) fod GLlLl wedi'u helpu i fod yn fwy egnïol. Dywedodd llawer o blant a phobl ifanc y cyfwelwyd â hwy ac a wnaeth yr arolwg eu bod wedi mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

‘[Roedd] yn gwneud i mi deimlo'n fwy egnïol bod tu allan yn lle eistedd mewn cadair. Fe wnaeth i mi deimlo'n hapus iawn yn gweithio mewn tîm gyda fy ffrindiau.’ – (Plentyn/person ifanc (Llinyn ysgol))

9.25 Roedd bechgyn/dynion yn fwy tebygol na merched/menywod a'r rhai sy'n nodi rhywedd arall i 'gytuno llawer' bod GLILI wedi'u helpu i fod yn fwy egnïol (70 y cant, o'i gymharu â 64 a 51 y cant), fel y manylir isod.

**Tabl 18. I ba raddau y gwnaeth GLILI helpu cyfranogwyr i fod yn fwy egnïol, fesul rhywedd**

| Rhywedd | Cytuno llawer | Cytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno ychydig | Anghytuno llawer | Ddim yn gwybod | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Benywaidd | 64% | 21% | 8% | 3% | 3% | 2% | *1,162* |
| Gwrywaidd | 70% | 20% | 5% | 2% | 2% | 1% | *988* |
| Arall | 51% | 30% | 8% | 3% | 0% | 8% | *37* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 48% | 23% | 17% | 0% | 6% | 6% | *48* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

9.26 Roedd y rhai nad oedd ganddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol sy'n para am fwy na blwyddyn ychydig yn fwy tebygol o 'gytuno llawer' bod GLILI wedi'u helpu i fod yn fwy egnïol (68 y cant o'i gymharu â 64 y cant). Darperir dadansoddiad llawn yn y tabl isod.

**Tabl 19. I ba raddau y gwnaeth GLILI helpu cyfranogwyr i fod yn fwy egnïol, fesul statws anabledd**

| Cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol yn para >1 flwyddyn | Cytuno llawer | Cytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno ychydig | Anghytuno llawer | Ddim yn gwybod | *Sylfaen* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ie | 64% | 19% | 8% | 2% | 3% | 3% | *212* |
| Nage | 68% | 20% | 6% | 2% | 2% | 1% | *1,499* |
| Ddim yn gwybod | 59% | 24% | 8% | 4% | 3% | 2% | *356* |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 59% | 23% | 8% | 3% | 5% | 2% | *129* |

Ffynhonnell: arolwg cyfranogwyr

### Cyfrwng Cymraeg

9.27 Dewisodd lleiafrif sylweddol o ddarparwyr (16 y cant; n=444) i wella sgiliau cyfrwng Cymraeg fel un o ddeilliannau arfaethedig allweddol GLILI. Ehangodd y ddarpariaeth fynediad i dreftadaeth Cymru drwy ddigwyddiadau diwylliannol, a mynediad at weithgareddau a gyflwynwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Addasodd rhai sefydliadau AB eu ffocws o gefnogi siaradwyr Cymraeg yn bennaf i annog datblygiad dysgwyr Cymraeg.

9.28 Awgrymodd cyfweliadau ag arweinwyr ysgol fod gweithgareddau GLILI wedi darparu cyfle i gyflwyno cyfrwng Cymraeg trwy ddull llawn hwyl, anffurfiol yr oedd y cyfranogwyr yn ei chael yn hawdd ymwneud ag ef. Er enghraifft, cyflwynodd un ysgol eiriau Cymraeg drwy sioeau pypedau, gan sylwi bod cyfranogwyr wedi parhau i ddefnyddio cyfrwng Cymraeg wrth chwarae gyda'r pypedau ar ôl diwedd y rhaglen.

### Deilliannau i rieni/gofalwyr a theuluoedd

9.29 Thema o gyfweliadau ag arweinwyr ALl oedd i rieni/gofalwyr a theuluoedd elwa o weld deilliannau cadarnhaol i'w plentyn/plant, yn bennaf oherwydd eu bod yn ddiolchgar y rhoddwyd cyfle i'w plentyn/plant gymryd rhan mewn gweithgareddau na fyddent wedi'u cael fel arall, oherwydd cyfyngiadau ariannol. Ystyriwyd bod hyn wedi lleihau straen i deuluoedd a'i fod o fudd i'w lles meddyliol.

‘Mae plentyn hapus yn golygu rhiant hapus.’ - (Arweinydd ALl)

9.30 Pan fynychwyd gweithgareddau a digwyddiadau gan deuluoedd cyfan, dywedodd arweinwyr ALl fod hyn yn rhoi cyfleoedd i greu cwlwm a chryfhau'r berthynas rhwng aelodau'r teulu. Er enghraifft, dywedodd arweinydd ysgol iddynt deimlo bod plant a phobl ifanc a oedd fel arfer yn gwrthdaro gyda brodyr a chwiorydd bellach yn dod ymlaen oherwydd y clwb GLILI ar ôl ysgol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig pan oedd teuluoedd wedi profi lefelau uchel o straen yn ystod y pandemig, a allai fod wedi rhoi perthnasoedd o dan straen. Mewn rhai achosion, roedd gweithgareddau GLILI yn ymgorffori sgiliau magu plant, a darparwyd llyfrau ac offer i annog rhieni/gofalwyr a theuluoedd i barhau â gweithgareddau gartref ac ar ôl y rhaglen GLILI. Er enghraifft, dywedodd un arweinydd ALl fod teuluoedd wedi rhoi

adborth cadarnhaol am fynychu sesiynau gyda gweithwyr chwarae, gan fod hyn wedi newid y ddeinamig o ran eu rhyngweithio â'u plentyn/plant.

9.31 Sylwodd rhieni/gofalwyr hefyd ar sut yr oeddent yn gallu ymgysylltu â rhieni/gofalwyr eraill ac ymlacio wrth i'w plant gymryd rhan yn y gweithgareddau.

‘Rydych chi bron yn gallu eistedd yn ôl ac ymlacio ychydig bach a dal i fyny gyda rhieni eraill, chi'n gwybod, a rhannu eich storïau eich hun, chi'n gwybod, a chynnig cyngor [...], gan i chi wybod bod eich plant yn derbyn gofal da a'u bod nhw'n ddiogel.’ – (Rhiant (llinyn ALl))

**Deilliannau i'r sefydliadau a gyflwynodd GLlLl**

9.32 Nododd arweinwyr ALl fod GLlLl wedi rhoi cyfle i ddarparwyr godi eu proffil yn eu hardal leol ac ymgysylltu â mwy o blant a phobl ifanc a theuluoedd, ac y byddai hyn, yn eu barn nhw, yn cael effaith barhaol y tu hwnt i gyfnod y cyllid. Ar ben hynny, roedd gweld eu bod wedi gwneud gwahaniaeth i deuluoedd yn rhoi cymhelliant i ddarparwyr. Roedd arweinwyr ALl yn teimlo bod toriadau ariannol blaenorol wedi effeithio'n negyddol ar forâl staff a bod GLlLl wedi rhoi "hwb go iawn” iddynt.

9.33 Roedd deilliannau i ysgolion a sefydliadau AB yn canolbwyntio ar feithrin ymdeimlad o gymuned a gwneud yr ysgol yn lle cadarnhaol.

‘Mae ysgolion yn tueddu i gael eu hystyried fel, nid gelyniaethus fel y cyfryw, ond ddim yn llefydd croesawgar iawn chwaith. Mae [GLlLl] yn tynnu pobl ifanc yn ôl i fod mewn cysylltiad â'r ysgol.’ – (Arweinydd ysgol)

9.34 Adroddodd arweinwyr ysgolion fod GLlLl wedi creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu â staff addysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan wella'r berthynas rhyngddynt, a gwneud yr ysgol yn lle croesawgar. Arweiniodd hyn at well presenoldeb mewn ysgolion a gwell ymgysylltu â dysgwyr yn yr ysgol. Adroddodd staff hefyd fod eu boddhad â'u swyddi wedi gwella.

9.35 Thema gref gan arweinwyr ysgol oedd iddynt arsylwi gwahaniaeth cadarnhaol yn ymddygiad plant a phobl ifanc, yr oeddent yn teimlo ei fod yn deillio o gymryd rhan yn y gweithgareddau GLlLl.

‘Mae gwahaniaethau amlwg ymysg plant yr oeddent yn aflonyddgar yn y dosbarth, y maent bellach yn setlo i lawr ac yn ymwneud mwy. Trwy gael eu dewis [i gymryd

rhan yn GLILI], mae wedi gwneud i rai plant deimlo'n arbennig iawn.' – (Arweinydd ysgol)

9.36 Disgrifiodd un ysgol ostyngiad yn nifer yr adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal ers cyflwyno pasys nofio am ddim. Roedden nhw'n teimlo bod hyn yn amlygu'r angen am gynnig gweithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc.

'Pan fydd ganddyn nhw rywbeth i'w wneud, os oes rhywbeth ar gynnig, yna maen nhw'n dewis gwneud y gweithgaredd positif hwnnw yn hytrach nag ymwneud ag ymddygiad negyddol.' – (Arweinydd ysgol)

9.37 Deilliant a grybwyllwyd ar draws y llinynnau oedd y byddai'r offer a brynwyd gan ddefnyddio cyllid GLILI o fudd i'r sefydliad/ysgol a phlant/pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl i GLILI ddod i ben. Roedd offer chwaraeon, offer coginio ac offerynnau cerdd yn enghreifftiau o eitemau a brynwyd gan ysgolion a darparwyr.

9.38 Yn ogystal, awgrymodd arweinwyr llinyn y cyfwelwyd â hwy fod llawer o'r cysylltiadau a ddatblygwyd rhwng sefydliadau cyflwyno wedi parhau y tu hwnt i'r rhaglen GLILI ac y bydd hynny'n parhau, er enghraifft nododd arweinydd ysgol eu bod wedi sefydlu perthynas â darparwyr therapi cerdd, chwaraeon a thenis sydd wedi parhau i gynnig gweithgareddau y telir amdanynt yn dilyn llwyddiant GLILI. Bu i un arall gadw cysylltiadau gyda band lleol oedd wedi cefnogi cyngerdd gymunedol, sy'n golygu bod gan yr ysgol fynediad bellach at adnoddau technegol, fel goleuadau a meicroffonau.

'Nid gweithgaredd un tro yn unig oedd e. Mae wedi bod... yn hwb i bopeth rydyn ni wedi'i wneud eleni.' – (Arweinydd ysgol)

### Deilliannau i ardaloedd lleol

9.39 Awgryma canfyddiadau'r arolwg darparwyr[16] fod darparwyr wedi ceisio creu cyfleoedd newydd i staff a gwirfoddolwyr, gan gynnwys gwella sgiliau; gwella gweithio ar y cyd gydag ysgolion a busnesau lleol; gwella hyder hunan-barch staff a gwirfoddolwyr; a meithrin cydlyniant cymunedol. Amlygwyd hyn mewn cyfweliadau

[16] Cwestiwn testun rhydd

ag arweinwyr llinyn hefyd, a nododd eu bod yn blaenoriaethu defnyddio darparwyr a chyfleusterau lleol i helpu'r economi leol, er enghraifft defnyddio sinemâu, lleoliadau bowlio a chwmnïau bysiau lleol, yn hytrach na darparu talebau ar gyfer cadwyni cenedlaethol.

9.40 Thema gref o gyfweliadau ag uwch randdeiliaid oedd bod y rhaglen yn annog mwy o waith ar y cyd rhwng ardaloedd lleol, sefydliadau gwirfoddol, ysgolion, sefydliadau AB a darparwyr AU, gan arwain at welliannau wrth rannu gwybodaeth a meithrin cysylltiadau.

‘Doedden ni ddim eisiau i bobl weithio mewn seilos... mae'n ymwneud â rhannu, gwybod beth sydd ar gael a phwy sy’n gallu ei ddefnyddio.’ – (Uwch randdeiliaid, Llywodraeth Cymru)

9.41 At hynny, bu i uwch randdeiliaid Llywodraeth Cymru gydnabod bod swyddogion sy'n gweithio mewn meysydd polisi gwahanol wedi cydweithio'n agosach a chydweithredu'n fwy nag o'r blaen.

‘Er enghraifft, 'dan ni [yn y gorffennol] wedi gweithio gyda'r adran cwricwlwm [yn y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg] i ddrafftio canllawiau a dogfennau. Ond y tro 'ma roedden ni'n gallu cael sgyrsiau [gyda swyddogion sy'n gyfrifol am feysydd polisi eraill] am y math o weithgareddau y byddech efallai eisiau eu cynnwys fel rhan o'r drefn addysg. Mae wedi rhoi cyfle i ni fod wrth y bwrdd o ran trafodaethau am ddiwygio ysgolion. Ac mae pethau tebyg wedi digwydd gyda chydweithwyr chwaraeon.’ – (Uwch randdeiliaid, Llywodraeth Cymru)

9.42 Amlygodd arweinwyr ALl i'r rhaglen GLlLl weld cynnydd mewn darpariaeth allanol, er enghraifft parciau lleol a digwyddiadau cymunedol mewn mannau awyr agored, a'r gobaith yw y byddant yn parhau y tu hwnt i gyfnod y rhaglen.

## 10. Argymhellion

10.0 Mae'r adran hon yn cyflwyno argymhellion ar gyfer rhaglenni o weithgareddau cyfoethogi i blant a phobl ifanc yn y dyfodol. Daw gwybodaeth o gyfweliadau, arolygon a thrafodaethau o'r ford gron.

**Cadw'r ffocws ar hwyl a chwarae**

- Roedd uwch randdeiliaid ac ALlau o'r farn bod y ffocws ar hwyl a chwarae/hamdden yn hanfodol i gefnogi deilliannau cadarnhaol o ran iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc a dylid eu cadw.

**Buddsoddiad tymor hwy**

- Roedd yr holl grwpiau cyfranogwyr yn argymell buddsoddiad cyson yn y ddarpariaeth drwy gydol y flwyddyn ar gyfer plant a phobl ifanc. Byddai cyllid tymor hwy hefyd yn helpu i recriwtio a chadw staff darparwyr i gefnogi cynllunio a darparu rhaglenni.

**Amser paratoi hirach ar gyfer cynllunio a sefydlu**

- Roedd consensws bod angen digon o amser rhwng cyhoeddi cyllid a lansio'r rhaglen. Byddai hyn yn cefnogi cynllunio strategol effeithiol, sy'n cynnwys ystod eang o bartneriaid, ac yn creu mwy o gyfleoedd i gyd-ddylunio'r rhaglen gyda phlant a phobl ifanc.
- Byddai amser sefydlu ychwanegol hefyd yn galluogi arweinwyr llinyn i wneud rhywfaint o ymchwil cefndir i nodi'r cydbwysedd mwyaf priodol rhwng darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu, ac i ddatblygu partneriaethau gyda darparwyr addas.
- Byddai ffenestr gynllunio hirach wedi galluogi arweinwyr llinyn i drefnu sesiynau ar-lein gyda darparwyr a/neu sefydlu fforwm darparwr ar-lein i rannu arfer da/dysgu.
- Awgrymwyd hefyd y gallai amser ychwanegol fod wedi caniatáu ceisiadau ar y cyd gan ddarparwyr.

**Cryfhau'r gefnogaeth i arweinwyr llinyn**

- Croesawodd arweinwyr llinyn ac uwch randdeiliaid ehangder y meini prawf ariannu i alluogi arweinwyr i ddiwallu eu hanghenion lleol. Gwerthfawrogwyd

hyfforddiant a chefnogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a dylid parhau i ddarparu hyn mewn rhaglenni yn y dyfodol.

- Croesawyd y newid yn y canllawiau i ganiatáu darparu lluniaeth fel rhan o'r gweithgareddau. Dywedwyd bod yr hyblygrwydd hwn, a ffyrdd eraill o ryddid i brynu offer a darparu cludiant yn ychwanegu gwerth ac yn cefnogi manteisio ar weithgareddau.
- Fel arfer, bu i arweinwyr llinyn weinyddu GLILI yn ychwanegol at lwyth gwaith llawn. Byddai unrhyw rowndiau posib yn y dyfodol yn elwa o gynyddu capasiti staff neu recriwtio adnodd ychwanegol i reoli'r broses gaffael, er mwyn lleihau'r baich ar arweinwyr llinyn.
- Byddai dosbarthu canllawiau marchnata a brandio Llywodraeth Cymru ar ddechrau'r rhaglen yn hwyluso'r gwaith cynllunio. Er i ddarparwyr groesawu'r hyblygrwydd i greu hunaniaeth brand leol i ryw raddau, byddent wedi elwa o arweiniad cliriach ar y gofynion i ddefnyddio logo a brand cenedlaethol GLILI.
- Dylid cynnig canllawaiau manylach ynghylch casglu GR, er mwyn sicrhau bod data'n cael ei gasglu'n effeithlon ac yn effeithiol ar draws darparwyr a llinynnau. Dylid cynnig cymorth i ddarparwyr sy'n ei chael hi'n anodd cofnodi GR yn gywir, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chasglu'n gyson ac yn gywir.
- Efallai y bydd unrhyw gynlluniau tebyg yn y dyfodol eisiau ystyried yn gynnar a oes angen data personol, ac os felly, gwneud trefniadau yn unol â GDPR y DU i'r data hwn gael ei gywain a'i rannu â chwmni gwerthuso annibynnol.

**Gwella cyrhaeddiad a chynwysoldeb**

- Amlygodd uwch randdeiliaid ac arweinwyr llinyn bwysigrwydd darpariaeth am ddim, yn enwedig i deuluoedd incwm isel, i gefnogi lles plant a phobl ifanc a chynnig cyfleoedd iddynt na fyddent yn eu cael fel arall. Ystyriwyd bod y gallu i ddefnyddio'r cyllid i ddarparu bwyd a chludiant yn hanfodol wrth wneud y ddarpariaeth yn fwy cynhwysol.

- Roedd cynnig darpariaeth addas i bobl ifanc hŷn ac oedolion ifainc yn her, yn rhannol oherwydd yr anhawster wrth ddod o hyd i ddarparwyr sy'n darparu ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. Roedd cynnwys sefydliadau AB a darparwyr AU wedi helpu i lenwi'r bwlch hwn. Gallai darpariaeth yn y dyfodol gynyddu maint y

llinynnau hyn, a chynnal y cynnig o wirfoddoli, mentora, lleoliadau gwaith a chynnig tystysgrifau presenoldeb. Yn ogystal, byddai cyd-gynhyrchu'r cynnig gyda phobl ifanc yn cynyddu eu cyfranogiad a'u hymgysylltiad.

- Pennwyd yng nghanllawiau’r rhaglen y dylid cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ôl rhai arweinwyr llinyn, roedd diffyg darparwyr lleol â sgiliau cyfrwng Gymraeg, ac argymhellwyd y dylid cryfhau capasiti darparwyr i gynnig gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Argymhellion methodolegol**

- Efallai y bydd astudiaethau tebyg yn y dyfodol yn elwa o gynnwys arsylwi gweithgareddau, a chyfweliadau wyneb yn wyneb gyda darparwyr a phlant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Gallai gwerthusiadau o unrhyw weithgareddau tebyg yn y dyfodol gynnwys gwerthusiad effaith i asesu cynnydd tuag at ddeilliannau datganedig y rhaglen. Efallai y bydd unrhyw raglenni o natur debyg yn y dyfodol hefyd yn elwa o gynnwys model rhesymeg er mwyn darparu dealltwriaeth a rennir o'r gweithgareddau a'r deilliannau a fwriedir yn ogystal â fframwaith ar gyfer gwerthuso.

## Adran gyfeiriadau

Comisiynydd Plant Cymru (2021). Coronafeirws a Fi.

King's College, Llundain (2022). An isolated generation: the impact of COVID-19 on children and young people.

Llywodraeth Cymru (2021). Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a dilyniant dysgwyr.

Llywodraeth Cymru (2021). Gwerthusiad o'r Haf o Hwyl.

YoungMinds (2021). The impact of COVID-19 on young people with mental health needs.

# Atodiad A Offerynnau cywain data

**Uwch randdeiliaid, Llywodraeth Cymru – Canllaw i bynciau'r cyfweliad**

### Cefndir – amdanyn nhw/ am y rhaglen GLILI

- Rolau a chyfrifoldebau
    - Rôl swydd, sefydliad, (braslun o) gyfrifoldebau
    - Cyfranogiad yn y Gaeaf Llawn Lles a/neu sut mae'n cyd-fynd â'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli
    - Gwiriwch a ydyn nhw'n rhan o'r treial 'newidiadau i'r diwrnod ysgol'

- Trosolwg o'r rhaglen a'r model ariannu
    - Pam mae angen GLILI/newidiadau i'r diwrnod ysgol nawr
    - Yr hyn yr ydych yn ei ddeall i fod yn amcanion strategol y rhaglen
    - Sut y bwriedir iddo weddu i, ac adeiladu ar, fentrau ymadfer yn sgil Covid-19 eraill

### Dylunio a sefydlu'r rhaglen

- Sut y bwriedir gweithredu'r rhaglen ledled Cymru
    - Pam mae ei angen
    - Rhesymeg dros gyflwyno drwy dair ffrwd ariannu – ALlau, cyrff cenedlaethol, ysgolion
    - Sut mae'n cydweddu â'r ddarpariaeth bresennol

- Rôl ALlau / cyrff cenedlaethol / ysgolion, sefydliadau AB + AU
    - Arweiniad a gwybodaeth ar gyfer pob un o'r tri sefydliad ffrwd ariannu arweiniol
        - Beth a ddarparwyd?
        - Sut a phryd y cafodd gwybodaeth ei chyfathrebu?
        - Sut yr ymatebodd ALlau/cyrff cenedlaethol/ysgolion/ sefydliadau AB / AU?
    - Ymchwilio i werth rhoi hyblygrwydd i sefydliadau o'i gymharu â dull rhagnodol

- Grwpiau targed
    - Pwy y mae GLILI yn anelu at eu cyrraedd a pham
    - Cyfraddau cymryd rhan disgwyliedig
    - Ystyriaethau o ran:
        - cyrraedd y grwpiau oedran ieuengaf/ canolig / hŷn
        - cyrraedd PPI mewn ardaloedd gwledig
        - cyrraedd y rhai sydd fwyaf o dan anfantais
        - hygyrchedd a darpariaeth gynhwysol (e.e., PPI du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, PPI ag anghenion ychwanegol, darpariaeth iaith Gymraeg)

- Gweithgareddau
    - Pa weithgareddau sydd o fewn / y tu allan i gwmpas GLILI a pham
    - Beth sy'n newydd/gwahanol am GLILI o'i gymharu â darpariaeth bresennol a blaenorol
    - Pa fylchau sydd yn y ddarpariaeth o hyd

- Deilliannau disgwyliedig ac ar gyfer pwy
    - Sut y bydd yn creu buddion ar gyfer
        - plant/pobl ifanc
        - teuluoedd
        - darparwyr lleol
        - darparwyr cenedlaethol
        - ardaloedd lleol
        - ysgolion, sefydliadau AB ac AU

## Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

- Myfyrio ar ddatblygiad y rhaglen
    - Materion allweddol/digwyddiadau annisgwyl a effeithiodd ar gynllunio neu gyflwyno
    - Gwersi a ddysgwyd wrth ddatblygu a sefydlu'r rhaglen GLILI/ rhaglen y treial diwrnod ysgol
    - Profiadau o waith cydgysylltiedig gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac uwch randdeiliaid o chwaraeon, y celfyddydau a diwylliant, addysg, chwarae

- Ffactorau sydd wedi rhwystro a galluogi cynllunio a gweithredu'r rhaglen hyd yma
    - Beth yw'r ffactorau sydd wedi rhwystro a galluogi, ac ar gyfer pwy
        - Amserlenni
        - Cyd-destun Covid-19
    - Pa wersi a ddysgwyd ar gyfer polisi ac arfer

- Ystyriaethau yn y camau cynllunio/gweithredu i sicrhau cynaladwyedd y ddarpariaeth a'r deilliannau

- Argymhellion ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol
    - Polisi ac arfer cenedlaethol
    - Polisi ac arfer lleol
    - Cefnogi darparwyr

**Arweinwyr llinyn (arweinwyr ALI, Sefydliadau Cenedlaethol, Ysgolion, AB) – Canllaw i bynciau'r cyfweliad**

## Cefndir – amdanyn nhw/ am y rhaglen GLILI

- Rolau a chyfrifoldebau
  - Rôl swydd, sefydliad, (braslun o) gyfrifoldebau
  - Cyfranogiad a chyfrifoldebau yn y Gaeaf Llawn Lles
  - Ar gyfer arweinwyr ALI / cyrff cenedlaethol - gwiriwch a oeddent yn ymwneud â'r Haf o Hwyl

## Dylunio a sefydlu'r rhaglen

- Trosolwg o sut y gwnaethoch chi drefnu'r rhaglen GLILI
  - Gwirio enw/brandio ar gyfer GLILI yn lleol/llinyn y ddarpariaeth GLILI
  - Cyd-destun lleol / ystyriaethau allweddol (e.e., anghenion y boblogaeth leol, anghenion yr ysgol)
  - Pwy oedd yn ymwneud â'r cynllunio / cyflwyno
    - Eich sefydliad
    - Unrhyw bartneriaid – archwiliwch a yw'r rhain yn berthnasoedd newydd neu rai a fu'n bodoli eisoes
  - Cyfranogiad a llais plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth gynllunio pa weithgareddau y dylid eu cynnig
  - Sut mae'r model yn cyd-fynd ag ymagweddau blaenorol at gydlynu darpariaeth gymunedol/ysgol/AB/AU
  - Sut mae GLILI yn ategu mentrau ymadfer yn sgil Covid-19 eraill
    - Gweithgarwch cymdeithasol
    - Iechyd meddwl
    - Gweithgarwch corfforol
    - Ymgysylltu ag ysgolion

- Cyfathrebiadau a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru
  - Cyfathrebiadau / cefnogaeth a dderbyniwyd
    - Arweiniad
    - Cyfarfodydd
  - A yw'r rhain wedi bod yn fuddiol / defnyddiol
  - A oes unrhyw fylchau yn yr wybodaeth / cefnogaeth
  - Awgrymiadau ar sut i wella

- Ffactorau sydd wedi rhwystro a galluogi cynllunio a gweithredu hyd yma
  - Beth yw'r ffactorau sydd wedi rhwystro a galluogi, ac ar gyfer pwy
    - Amserlenni
    - Cyd-destun Covid-19
  - Pa wersi a ddysgwyd

- Cyfleoedd i gydweithio

Partneriaethau/gwaith ar y cyd a ddatblygwyd Buddion a heriau cydweithio

### Cyflwyno'r rhaglen

- Gweithgareddau
  - Pa weithgareddau ydych chi'n eu rhedeg?
    - Beth sydd ar gael ar draws yr ystod oedran 0-25. Holwch ynghylch gweithgareddau penodol fesul oedran/grŵp oedran.
    - Amserlen - a oes gweithgareddau ar gael trwy gydol y cyfnod rhwng 1 Hydref 2021 a 30 Mawrth 2022
    - Gwahaniaeth mewn gweithgareddau / y maint a gynigir yn ystod y tymor ac yn y gwyliau ysgol (nodyn i'r cyfwelydd: Dim ond yn ystod y gwyliau y cynigir gweithgareddau AB ac AU)
    - Ardaloedd (ar gyfer darpariaeth genedlaethol)
  - Lleoliadau y gweithgareddau – ysgolion, lleoliadau cymunedol, yn yr awyr agored
  - Pam y dewiswyd gweithgareddau/lleoliadau penodol?
  - Darpariaeth cludiant

  - Beth sy'n newydd/gwahanol am GLILI o'i gymharu â darpariaeth bresennol a blaenorol
  - Pa fylchau sydd yn y ddarpariaeth o hyd, ac i bwy?

- Darparwyr
  - Y broses gaffael – e.e., rhaniad y darparwyr newydd a'r rhai presennol
  - Y cymorth a gynigir i ddarparwyr – beth sydd ar gael
  - Prosesau sicrhau ansawdd – e.e., gwiriadau ar hap?
  - Cyfleoedd i ddarparwyr rannu dysgu / arfer da – amlder a fformat y rhain
  - Heriau/ beth sydd wedi gweithio'n dda – wrth baratoi darparwyr ar gyfer y GLILI

- Grwpiau targed
  - Pwy ydych chi'n anelu at eu cyrraedd a pham?
  - Defnydd disgwyliedig a gwirioneddol o'r cynnig GLILI
    - A yw rhai gweithgareddau / lleoliadau wedi gweld gwell defnydd na rhai eraill
    - Archwiliwch y rhesymau dros hyn
  - Ystyriaethau o ran:
    - cyrraedd y grwpiau oedran ieuengaf/ canolig / hŷn
    - cyrraedd PPI mewn ardaloedd gwledig
    - cyrraedd y rhai mwyaf agored i niwed a/neu o dan anfantais
    - hygyrchedd a darpariaeth gynhwysol (e.e., PPI du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, PPI ag anghenion ychwanegol, darpariaeth iaith Gymraeg)
  - sut fyddwch chi'n gwybod a gyrhaeddwyd y grwpiau targed

- Marchnata / brandio
  - Dulliau hyrwyddo/ymgysylltu yr ydych chi a'ch darparwyr yn eu defnyddio i gyrraedd PPI/teuluoedd er mwyn annog defnyddio'r gweithgareddau
  - Dulliau mwy/llai llwyddiannus ac ar gyfer pa grwpiau o PPI

  - Pa mor ddefnyddiol y bu arweiniad LIC ar farchnata a brandio a'r rhesymau dros hyn

- Cyflwyno
  - A yw'r cyflwyno'n rhedeg fel a ddisgwyliwyd / a fwriadwyd
  - Beth yw'r ffactorau sy'n rhwystro / galluogi gweithredu?
  - Ydy'r GLILI yn apelio at PPI a darparwyr - neu a hoffent gael math gwahanol o gefnogaeth/gweithgaredd

## Deilliannau/effeithiau'r rhaglen

- Deilliannau disgwyliedig ac ar gyfer pwy
  - Sut y bydd o fudd i blant, pobl ifanc, teuluoedd ac ardaloedd lleol?
    - Deilliannau tymor byr a thymor hwy
    - Adfer yn sgil COVID-19
    - Lefelau gweithgarwch corfforol
    - Llesiant cymdeithasol, emosiynol a meddyliol
    - Paratoi ar gyfer yr ysgol/dysgu
    - Gwahaniaethau o ran deilliannau fesul grwpiau pobl ifanc (oedran, rhyw, ethnigrwydd, etc)
    - Arall

- Ystyriaethau yn y camau cynllunio/gweithredu i sicrhau cynaladwyedd y ddarpariaeth a'r deilliannau
  - Canfyddiadau am etifeddiaeth bosib ar gyfer yr ardal leol / eich sefydliad – e.e., offer, adnoddau, dull o gynllunio darpariaeth

## Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

- Myfyrio ar ddatblygiad y rhaglen
  - Gwersi a ddysgwyd wrth ddatblygu, sefydlu a chyflwyno'r rhaglen GLILI
  - A wnaethoch chi rannu dysgu ag eraill? Os gwnaethoch, â phwy? Sut?
  - A wnaethoch chi ddysgu gan eraill? Ym mha amgylchiadau? Beth ddysgoch chi? A oedd cyfleoedd i gymhwyso'r dysgu?

- Argymhellion ar gyfer darpariaeth debyg yn y dyfodol
  - Polisi ac arfer cenedlaethol
  - Polisi ac arfer lleol
  - Cefnogi darparwyr

- Gwiriwch a oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ddweud wrthym am GLILI

**Canllaw i bynciau'r grŵp ffocws plant a phobl ifanc**

## Cefndir

- Beth yw dy enw di?
- Beth yw dy oedran di?/ Pa mor hen wyt ti?

- Oeddet ti'n mynd i [enw'r clwb/lle] cyn y tymor yma?
  - Sut wnest ti glywed amdano yn y lle cyntaf?
  - Pan glywaist ti dy fod di'n mynd iddo, pa fath o le oeddet ti'n disgwyl?
  - Pa mor aml/pryd wyt ti wedi bod yn mynd [yma/i enw'r clwb/lle]?
  - A oes unrhyw frodyr/chwiorydd/ffrindiau yn mynd hefyd?

- Wyt ti wedi mynd i unrhyw glybiau/gweithgareddau tebyg eraill?
  - Pa rai a phryd oedd hynny?

## Rheswm dros fynd

- Pwy a benderfynodd y dylet ti fynd i [enw'r clwb/gweithgaredd] y tymor yma?
  - Pam oeddet ti/roedden nhw'n meddwl y dylet ti fynd i [enw'r clwb/gweithgaredd]?
  - A oedd unrhyw resymau efallai pam na fyddai modd i ti fynd / na fyddet ti eisiau mynd i [enw'r clwb/gweithgaredd]? Holwch: enghreifftiau a manylion fel logisteg, lefel o ddiddordeb, costau cludiant.

- Beth fyddet ti wedi'i wneud yn hytrach na mynd i [enw'r clwb/gweithgaredd]?

  Holwch: am enghreifftiau a manylion, e.e. Wyt ti wedi stopio unrhyw glybiau neu weithgareddau oherwydd i ti ddod i'r un yma?

## Meddyliau am y clwb/gweithgaredd

- Beth wyt ti'n meddwl am [enw'r clwb/gweithgaredd]?
  - Beth wyt ti'n hoffi?
  - Beth dwyt ti ddim yn ei hoffi?

- Yn ystod dy amser yn [enw'r clwb/enw'r gweithgaredd], wyt ti wedi…?
  - Gwneud unrhyw weithgareddau? E.e. ymarfer corff, chwaraeon, pethau creadigol, celf, pethau diwylliannol, cerddoriaeth teithiau, gwirfoddoli- i bobl ifanc hŷn yn unig
  - Wyt ti wedi dysgu unrhyw beth newydd?
  - A oedd unrhyw weithgareddau'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg? Os felly, a wnest ti fwynhau gwneud y gweithgareddau hyn yn y Gymraeg? Os hoffet ti, pam? Os na hoffet ti, pam?

- Beth yw dy farn di am y bobl sy'n rhedeg [enw'r clwb/gweithgaredd]?
  - Beth sy'n dda/ddim yn dda am y bobl/arweinwyr/athrawon/hyfforddwyr?

- Sut mae [enw'r clwb/gweithgaredd] yn cymharu â…
    - Chlybiau/gweithgareddau ar ôl ysgol/hanner tymor eraill rwyt ti wedi mynd iddyn nhw?
    - Gweithgareddau eraill efallai y byddet ti wedi'u gwneud y tymor/gwyliau hanner tymor yma?
    - Oedd e fel yr oeddet ti'n disgwyl?

- Os gallet ti newid unrhyw beth, beth fyddet ti'n newid?
    - **Gweithgareddau -** a oes unrhyw beth yr hoffet ti wneud mwy/llai ohono?
    - **Iaith** – a hoffet ti gael y cyfle i wneud mwy o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg? Os hoffet ti, pam? Os na hoffet ti, pam?
    - **Lle-** a oes unrhyw beth y byddet ti'n ei newid am ble mae'n cael ei redeg?
    - **Pobl/Arweinwyr-** a oes unrhyw beth y byddet ti'n newid am y ffordd y mae'r bobl yn rhedeg y clwb/gweithgaredd hwn?
    - **Cyfranogwyr-** a oes unrhyw beth y byddet ti'n newid am y bobl ifanc eraill sy'n dod i'r clwb/gweithgaredd?

- Pa fath o bethau hoffet ti eu gwneud yn y dyfodol?

## Deilliannau

- Pa wahaniaeth y mae mynd i [enw'r clwb/gweithgaredd] wedi'i wneud…?
    - I ti
    - I dy deulu

- Beth wyt ti wedi'i ddysgu/ennill, os o gwbl, o ganlyniad i ddod i [enw'r clwb/gweithgaredd]?
    - **Cael hwyl** (Holwch am enghreifftiau)
    - Cyfle i **ddefnyddio'r Gymraeg** (Holwch am gyfleoedd i *siarad* Cymraeg. Ydy'r cyfle hwn i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'r clwb/gweithgaredd yn rhywbeth nad ydych chi'n ei gael fel arfer?)
        - Os gawsoch chi'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg, ydy hyn wedi gwneud gwahaniaeth i'ch sgiliau a'ch hyder yn Gymraeg? Os na, beth mae hyn wedi ei olygu i ti? A fyddet ti wedi ffafrio cael mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg?
    - **Sgiliau newydd** (Holwch am ychwanegedd- a oedden nhw'n brofiadau na fyddet ti wedi'u hennill heb y rhaglen?)
    - **Cwrdd â phobl** / cyfeillgarwch newydd (Holwch am leihau unigrwydd ac unigedd drwy gwrdd â phobl eraill)
    - **Profiadau newydd** (Holwch am ychwanegedd - a oeddent yn brofiadau na fyddet ti wedi'u hennill heb y rhaglen?)
    - **Iechyd a lles** (ysgol uwchradd yn unig - Holwch ynghylch cynnal neu wella iechyd corfforol a meddyliol)
    - A fyddi di'n gwneud mwy o'r gweithgareddau rwyt ti wedi'u gwneud yma yn y dyfodol? (e.e. parhau i wneud campau penodol)

- Beth, os o gwbl, byddi di'n dweud wrth dy ffrindiau/teulu am [enw'r clwb/gweithgaredd] pan fyddi di'n gweld nhw?
    - Beth fyddan nhw'n meddwl am hynny, yn dy farn di?

- Oes unrhyw beth arall yr hoffet ti ddweud cyn i ni orffen?

**Arolwg cyfranogwyr**

Dywedwch wrthym pwy sy'n cwblhau'r holiadur. Os *nad* y plentyn neu berson ifanc yw'r sawl sy'n ei gwblhau, dylai'r oedolyn sy'n ei gwblhau wneud hynny **ar ran y person ifanc.**

| | |
|---|---|
| **Fi (plentyn / person ifanc)** | ☐ |
| **Rhiant/gofalwr** | ☐ |
| **Darparwr y gweithgareddau** | ☐ |
| **Athro/Athrawes/Cynorthwy-ydd addysgu** | |
| **Arall (Nodwch) [Opsiwn teipio i mewn]** | ☐ |

Amdanat ti

1. **Beth yw dy oedran di? (**Dewiswch oedran y plentyn/person ifanc sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau)
    [rhestr gwympo 0-25+ oed]

2. **Beth yw dy rywedd?** (Dewiswch rywedd y plentyn/person ifanc sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau)

| | |
|---|---|
| **Bachgen / Gwryw** | ☐ |
| **Merch / Benyw** | ☐ |
| **Arall [Opsiwn teipio i mewn]** | ☐ |
| **Mae'n well gennyf beidio â dweud** | ☐ |

Ynghylch y gweithgareddau

Mae gweddill y cwestiynau'n ymwneud â'r gweithgareddau rwyt ti'n cymryd rhan ynddynt. Os nad wyt ti'n siŵr beth mae hyn yn ei olygu gofynnwch i riant neu athro/athrawes/aelod o staff i helpu esbonio.

3. **Ble wyt ti'n mynd i gymryd rhan yn y gweithgareddau?** ((Dewiswch gynifer o atebion ag y mynnwch)

- Gofod agored / parc
- Coedwig
- Gofod cymunedol
- Cyfleuster chwaraeon
- Canolfan hamdden
- Amgueddfa, archif, llyfrgell
- Ysgol
- Coleg
- Prifysgol
- Ar-lein / o bell
- Arall (nodwch beth)







4. **Wyt ti wedi mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau?** (Dewiswch un ateb)

Ydw, llawer 😃 Ydw, ychydig 🙂 Na, ddim llawer 🙁 Na, ddim o gwbl ☹️

5. **Beth oeddet ti'n ei hoffi am y gweithgareddau?** (Atebwch yn y blwch isod) 😃


6. **Beth fyddai'n gwneud y gweithgareddau'n well?** (Atebwch yn y blwch isod.)

7. **Pa rai o'r gweithgareddau canlynol wyt ti wedi cymryd rhan ynddynt?** (Dewiswch gynifer o atebion ag y mynnwch)

| | | |
|---|---|---|
|   Chwaraeon neu weithgarwch corfforol awyr agored |   Chwaraeon neu weithgarwch corfforol dan do |   Celf a Chrefft (gan gynnwys drama a cherddoriaeth) |
|   Gemau (cwisiau, gemau bwrdd ac ati) nad ydynt yn weithgaredd corfforol |   Gofal plant |   Gweithgareddau chwarae y gall unrhyw un ymuno â nhw |
|   Coginio |   Ymweld â lleoedd (oriel gelf, amgueddfa, etc.) |   Hyfforddiant neu addysg |
|   Gwirfoddoli |   Gweithgareddau awyr agored (e.e. ysgol |  Gweithgareddau i'r teulu (lle mae fy rhieni neu |

| | | |
|---|---|---|
| | goedwig, sgiliau syrcas, ail-berfformiadau hanesyddol, rhaglenni ecoryfelwr) | ofalwyr wedi cymryd rhan neu fynychu gweithgareddau hefyd e.e. dosbarthiadau magu plant, aros a chwarae) |
|  Darllen |  Cerddoriaeth | Arall [Opsiwn teipio i mewn] |

8. **Pwy benderfynodd y dylet ti gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn?** (Dewiswch un ateb)

| | | |
|---|---|---|
|  Fi |  Fy rhiant/gofalwr |  Fy ffrind/ffrindiau |
|  Perthynas neu ffrind sy'n oedolyn |  Fy athro/athrawes |  Fy narparwr gofal plant |
|  Fy ngweithiwr cymdeithasol | | |

9. **Sut wnest ti/gwnaethon nhw gael gwybod am y gweithgareddau hyn?** (Dewiswch gynifer o atebion ag y mynnwch)


<table>
<tr>
<td><br><br>Cyfryngau cymdeithasol</td>
<td><br><br>Clywed gan eraill (gan deulu neu ffrindiau)</td>
<td><br><br>Poster/baner yn fy ardal i</td>
</tr>
<tr>
<td><br><br>Gwefan fy awdurdod lleol</td>
<td><br>Darparwr gofal plant/ysgol</td>
<td><br>Coleg/prifysgol [16+ oed]</td>
</tr>
<tr>
<td>Arall [Opsiwn teipio i mewn]</td>
<td>Ddim yn gwybod</td>
<td></td>
</tr>
</table>

10. **Pam oeddet ti/oedden nhw'n meddwl y dylet ti gymryd rhan yn y gweithgareddau?** (Dewiswch gynifer o atebion ag y mynnwch)

<table>
<tr>
<td><br>Cael hwyl</td>
<td><br>Chwarae/cymdeithasu gyda phlant eraill</td>
<td><br>Dysgu rhywbeth newydd</td>
</tr>
<tr>
<td><br>Gwneud rhywbeth creadigol (fel chwarae, celf a chrefft, cerddoriaeth)</td>
<td><br>Gwneud rhywbeth egnïol (fel dawns neu chwaraeon)</td>
<td><br><br>Cael cyfle i siarad Cymraeg</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| Arall (nodwch) | | |

11. **Sut wnest ti deithio i'r gweithgareddau?** (Dewiswch gynifer o atebion ag sydd angen)

| | | |
|---|---|---|
|  Cludiant y darparwr |  Cludiant cyhoeddus (fel bws neu drên) |  Cefais lifft gan rywun |
|  Cerdded |  Mynd ar feic |  Gyrrais fy hun [18+ oed] |

12. **A oedd dy gostau teithio wedi'u talu gan y darparwr gweithgaredd neu glwb?**
    [gofynnwch ddim ond os yw C12= cludiant cyhoeddus]
    Oedd ☐
    Nac oedd ☐
    Ddim yn gwybod ☐

13. **Faint wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno bod y gweithgareddau wedi dy helpu i...?**
    (Dewiswch un ateb ym mhob rhes)

| | Cytuno llawer  | Cytuno ychydig  | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno  | Anghytuno ychydig  | Anghytuno llawer  | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Treulio mwy o amser allan o'r tŷ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dysgu rhywbeth newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwneud ffrindiau newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhoi cynnig ar bethau newydd | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ |
| Bod yn fwy egnïol | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ |
| Cael hwyl | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ |
| Rheoli fy iechyd meddwl [12+] | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ | ◻ |

14. **Beth yw dy grŵp ethnig?** (Dewiswch un ateb)

**Gwyn**

Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Prydeinig neu o Ogledd Iwerddon ◻
Gwyddelig ◻
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig ◻
Unrhyw gefndir Gwyn arall ◻

**Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog**

Gwyn a Du Caribïaidd ◻
Gwyn a Du Affricanaidd ◻
Gwyn ac Asiaidd ◻

**Unrhyw gefndir ethnig Gymysg neu Luosog arall**

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig ◻
Indiaidd ◻
Pacistanaidd ◻
Bangladeshaidd ◻
Tsieineaidd ◻

**Unrhyw gefndir Asiaidd arall**

Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig ◻
Affricanaidd ◻
Caribïaidd ◻
Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibïaidd arall ◻

**Grŵp ethnig arall**

Arabaidd ◻
Unrhyw grŵp ethnig arall ◻

Mae'n well gennyf beidio ag ateb ◻

15. **A oes gen ti salwch corfforol neu feddyliol y disgwylir iddo bara am flwyddyn neu fwy?**

- Oes
- Nac oes

- Ddim yn gwybod
- Gwell gennyf beidio â dweud

**Yr arolwg i ddarparwyr**

1. **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich sefydliad orau?**
    - Sefydliad gwirfoddol neu gymunedol
    - Awdurdod lleol
    - Clwb chwaraeon
    - Sefydliad preifat
    - Eglwys neu grŵp ffydd
    - Ysgol/coleg
    - Sefydliad Addysg Bellach
    - Sefydliad Addysg Uwch
    - Sefydliad darparwr cenedlaethol
    - Arall (nodwch)
2. **Ym mha ardal(oedd) Awdurdod Lleol y mae eich darpariaeth Gaeaf Llawn Lles yn cael ei chyflwyno?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
   (cynnwys rhestr gwympo gyda 'Pob ALl' ar frig y rhestr)

3. **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r staff sy'n rhedeg eich darpariaeth Gaeaf Llawn Lles i blant a phobl ifanc?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Athrawon/ darlithwyr
    - Cynorthwywyr Addysgu
    - Darparwyr gweithgareddau â thâl, gan gynnwys hyfforddwyr â thâl
    - Llysgennad ifanc
    - Gwirfoddolwyr, gan gynnwys hyfforddwyr gwirfoddol
    - Ddim yn gwybod

4. **Pa fath(au) o weithgareddau Gaeaf Llawn Lles ydych chi'n eu cynnig?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Gwaith chwarae mynediad agored
    - Gofal plant
    - Darpariaeth blynyddoedd cynnar
    - Gweithgareddau/profiadau diwylliannol
    - Darpariaeth ieuenctid
    - Darpariaeth chwaraeon
    - Celf a chrefft

- Arall (nodwch)

5. **Ble mae eich gweithgareddau Gaeaf Llawn Lles yn cael eu darparu?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Gofod agored / parc
    - Coedwig
    - Canolfan gymunedol
    - Cyfleuster chwaraeon
    - Canolfan hamdden
    - Amgueddfa, archif, llyfrgell
    - Ysgol / sefydliad addysg
    - Ar-lein / o bell
    - Arall (nodwch)

6. **A all eich darpariaeth gynnig lleoedd i'r holl blant a phobl ifanc a hoffai fynychu?**
    - Gall, ac mae gennym leoedd ychwanegol ar gael
    - Gall, mae gennym ddigon o le i bawb fynychu cynifer o sesiynau ag y mynnant ond does dim lleoedd ychwanegol ar gael
    - Gall, mae gennym le i bawb ond ni allwn gynnig cynifer o sesiynau i bawb ag yr hoffent eu cael
    - Na all, mae'n rhaid i ni droi rhai plant a phobl ifanc i ffwrdd

7. [Os 8=Na] **Beth yw'r rhesymau nad oedd modd i chi gynnig lleoedd i bob plentyn a pherson ifanc?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Mae'r archebion yn llawn
    - Ni allwn ddiwallu eu hanghenion iaith yn llawn
    - Ni allwn ddiwallu eu hanghenion iechyd yn llawn
    - Ni allwn ddiwallu eu hanghenion hygyrchedd yn llawn
    - Arall (Nodwch beth]

8. **Pa ffactorau, os o gwbl, ydych chi'n meddwl sy'n rhwystrau i bresenoldeb plant a phobl ifanc yn eich darpariaeth?** Ystyriwch unrhyw ffactorau a allai fod yn berthnasol yn eich barn chi, gan gynnwys marchnata a dulliau atgyfeirio
    - Nid oedd y gweithgareddau'n apelio at blant/pobl ifanc
    - Dewis y rhiant/gofalwr
    - Dylanwad cyfoedion
    - Ymgyrch farchnata leol

- Anawsterau o ran cludiant
- Problemau hygyrchedd gyda'r lleoliad
- Cysylltiedig â Covid-19: hunanynysu, pryderon iechyd, diffyg profion llif unffordd, masgiau etc.
- Arall [nodwch beth]

9. **Beth yw'r deilliannau allweddol a fwriadwyd i'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu eich darpariaeth Gaeaf Llawn Lles?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
   - Datblygu sgiliau penodol (e.e., artistig, cerddorol, chwaraeon)
   - Gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy cysylltiedig yn gymdeithasol
   - Cynnal eu hiechyd corfforol
   - Gwella eu hiechyd corfforol
   - Cynnal eu hiechyd meddwl a'u lles
   - Gwella eu hiechyd a lles meddyliol
   - Gwella eu sgiliau academaidd craidd
   - Gwella sgiliau Cymraeg
   - Cefnogi ymadfer yn sgil Covid-19
   - Eu hysgogi i ymgymryd â diddordebau/hobïau newydd ar ôl y Gaeaf Llawn Lles
   - Eu hysgogi i barhau â gweithgarwch corfforol rheolaidd ar ôl y Gaeaf Llawn Lles
   - Arall (nodwch)

10. **A oes unrhyw ddeilliannau allweddol eraill y mae eich darpariaeth yn anelu at eu cyflawni ar gyfer y sefydliad, y staff/gwirfoddolwyr neu'r ardal leol?** [testun rhydd]

11. **Graddiwch ba mor ddefnyddiol yr oedd yr elfennau canlynol o'r hyfforddiant i chi**

| | **Defnyddiol iawn** | **Eithaf defnyddiol** | **Ddim yn ddefnyddiol iawn** | **Ddim yn ddefnyddiol o gwbl** | **Dd/B Heb dderbyn yr hyfforddiant hwn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant diogelu | | | | | |
| Hyfforddiant iechyd a diogelwch | | | | | |
| Hyfforddiant cymorth cyntaf | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant cynhwysiad/hygyrchedd | | | | | |
| Cymorth i ddatblygu polisïau perthnasol (diogelu, iechyd a diogelwch, hylendid bwyd, cynhwysiad/hygyrchedd, yswiriant ac ati) | | | | | |
| Canllawiau Prif Swyddog Meddygol y DU ar gyfer Gweithgarwch Corfforol (a ffeithlun cysylltiedig) | | | | | |
| Arall | | | | | |

12. **Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi gyda'r gefnogaeth a gawsoch gan yr arweinydd llinyn GLILI?**
    - Bodlon iawn
    - Eithaf bodlon
    - Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
    - Eithaf anfodlon
    - Anfodlon iawn
    - Heb dderbyn unrhyw gymorth

13. **Pam ydych chi'n dweud hynny?** [testun rhydd]

14. **Ydych chi'n meddwl bod gan y plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw ddigon o gefnogaeth i ymadfer yn sgil COVID-19?**
    Ydw
    Nac ydw

15. **Pam ydych chi'n dweud hynny** (testun rhydd)

16. Oes yna unrhyw beth arall hoffech chi ychwanegu am y Gaeaf Llawn Lles? (testun rhydd)